# AMGUEDDFA CYMRU

## ADRODDIAD ARIANNOL

## 2019/20

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Rhif Siarter Frenhinol RC000369
Rhif Elusen 525774

# CYNNWYS


Rhif y dudalen

ADRODDIAD ARIANNOL BWRDD YMDDIRIEDOLWYR AMGUEDDFA GENEDLAETHOL CYMRU

1 Perfformiad

1.1 Trosolwg o Berfformiad 2

1.2 Dadansoddiad o Berfformiad 10

2 Atebolrwydd

2.1 Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol

2.1.1 Adroddiad y Cyfarwyddwyr 25
2.1.2 Datganiad o Gyfrifoldebau'r Bwrdd Ymddiriedolwyr a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol 27
2.1.3 Datganiad Llywodraethu Blynyddol 28

2.2 Adroddiad ar Daliadau Cydnabyddiaeth a Staff 40

2.3 Adroddiad Archwilio 47

DATGANIAD O WEITHGAREDDAU ARIANNOL 50

MANTOLEN 51

DATGANIAD LLIF ARIAN 52

NODIADAU AR Y CYFRIFON 53

# 2019/2020

Amgueddfa Cymru national museum wales

ysbrydoli pobl newid bywydau

inspiring people changing lives

Dyfarnwyd Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru fel **Amgueddfa'r Flwyddyn 2019 y Gronfa Gelf**

Rydym yn cyfrannu **£83 miliwn** o werth ychwanegol gros at economi Cymru bob blwyddyn

**5.3 miliwn o wrthrychau ac atgofion** yng nghasgliadau celf, hanes a gwyddoniaeth cenedlaethol Cymru i ysbrydoli cenedlaethau'r dyfodol

Edrychodd **1.8 miliwn** o bobl ar **5.8 miliwn** o dudalennau ar ein gwefan

Croesawyd **1.8 miliwn o ymwelwyr** i'n hamgueddfeydd cenedlaethol

croeso

Cynhaliodd Amgueddfa Cymru 56 arddangosfa gyda **634,291** o **ymweliadau**

**60 o brojectau arloesol** ar y gweill ym meysydd y gwyddorau naturiol, celf, hanes, y gwyddorau cymdeithasol a mwy

Ni yw darparwr addysg tu allan i'r ystafell ddosbarth mwyaf Cymru, gan gyrraedd **182,227** o blant ysgol a myfyrwyr

Cyfrannodd **961** o wirfoddolwyr **30,000** o oriau o'u hamser

Yn y 10 mlynedd diwethaf, mae ein gwyddonwyr wedi darganfod dros **350 o rywogaethau newydd** a diflanedig mewn dros 50 o wledydd

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â thros **120 o elusennau** a sefydliadau cymunedol

# Adroddiad Ariannol Bwrdd Ymddiriedolwyr Amgueddfa Genedlaethol Cymru

## ADRAN 1: PERFFORMIAD

### Adran 1.1 Trosolwg o Berfformiad

**Ysbrydoli Pobl, Newid Bywydau yn 2019/20**

Uchafbwynt blwyddyn hynod lwyddiannus arall i Amgueddfa Cymru oedd enwi Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru yn Amgueddfa'r Flwyddyn y Cronfa Gelf ar gyfer 2019. Dyma'r wobr fwyaf ei bri i amgueddfeydd ledled y byd, a gwelwyd ein henw yn y penawdau rhyngwladol. Dywedodd Dr Stephen Deuchar, Cyfarwyddwr y Gronfa Gelf a chadeirydd y beirniaid: *"Mae Sain Ffagan yn byw, yn anadlu ac yn ymgorffori diwylliant a hunaniaeth Cymru... Gwnaed y lle hudol hwn gan bobl Cymru ar gyfer pobl ym mhobman, ac mae'n sefyll fel un o'r amgueddfeydd mwyaf croesawgar a deniadol unrhyw le yn y DU."*

Llwyddwyd hefyd i gyflawni'n ffigurau ail uchaf erioed o ran ymwelwyr, ac roeddem ar y trywydd iawn i gael ein blwyddyn fwyaf llwyddiannus erioed nes gorfod cau'n drysau i'r cyhoedd ganol mis Mawrth mewn ymateb i'r pandemig COVID-19. Unwaith eto, ni oedd y darparwr addysg mwyaf y tu allan i'r ystafell ddosbarth yng Nghymru.

Parhaodd yr Amgueddfa i wynebu heriau, yn enwedig diffyg ariannol strwythurol, rhaglen aruthrol i ateb tagfeydd gwaith cynnal-a-chadw, a chronfeydd wrth gefn sy'n crebachu. Fel elusen gofrestredig a Chorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, rydym wedi ymrwymo i sicrhau budd i'r cyhoedd, nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a blaenoriaethau eraill Llywodraeth Cymru. Er ein bod wedi cynyddu'r incwm a gynhyrchir o ffynonellau eraill bron dair gwaith dros y pum mlynedd diwethaf, rydym yn dal i ddibynnu'n drwm ar gyllid Llywodraeth Cymru i gyflawni'r nodau hyn.

Wrth reswm, mae'n sefyllfa ariannol wedi bod yn anos yn sgil y pandemig COVID-19. Llwyddwyd i reoli effaith uniongyrchol y pandemig ym mis Mawrth a rhan gyntaf 2020/21, gan ganolbwyntio ar ddiogelwch ein Hamgueddfeydd, ein staff a'n casgliadau. Ers diwedd y flwyddyn rydym wedi datblygu ffordd ddigidol o ddarparu'n rhaglenni a'n cynnwys a chynlluniau ystwyth ar gyfer ailagor yr Amgueddfeydd. Rydym wrthi'n ymgorffori cynlluniau i reoli'r heriau ariannol ychwanegol yn ein strategaeth at y deng mlynedd nesaf, y bwriedir ei rhoi ar waith o fis Ebrill 2021 ymlaen

Cafwyd 1,814,864 o ymweliadau â'n saith Amgueddfa genedlaethol yn 2019/20. Dyma'r nifer ail uchaf erioed, yn dilyn y lefel uchaf erioed y llynedd.

| | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ymweliadau** | 1,629,196 | 1,685,954 | 1,674,807 | 1,549,603 | 1,776,572 | 1,887,376 | 1,814,864 |

Unwaith eto, mae hyn yn ategu llwyddiant y polisi mynediad am ddim i bob amgueddfa genedlaethol yng Nghymru, a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2001/02.

Cyflawnwyd hyn er bod ffigurau ymwelwyr mis Mawrth yn llai na hanner yr hyn a ragwelwyd, a hynny am fod drysau holl safleoedd Amgueddfa Cymru wedi cau ar 16 Mawrth 2020 am fod y pandemig COVID-19 wedi gwaethygu.

Llwyddwyd hefyd i ailagor Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru ar ddiwedd 2019, ar ôl iddi gau am 14 mis ar gyfer gwaith cynnal a chadw hanfodol ar y to. Roeddem wedi parhau i ddarparu rhaglen addysg lwyddiannus, mewn partneriaeth â Cadw, gan groesawu 13,000 o blant ysgol yn ystod y cyfnod hwn. Gwnaethom hefyd ddiweddaru arddangosfeydd yr Amgueddfa mewn pryd ar gyfer yr ailagor.



Gan adeiladu ar lwyddiant y blynyddoedd blaenorol, bu 2019/20 yn flwyddyn eithriadol arall o ran arddangosfeydd. Cafwyd cyfanswm o 56, a 634,291 o ymweliadau. Roedd yr uchafbwyntiau'n cynnwys *David Nash: Cerfluniau'r Tymhorau*, sef yr arddangosfa ehangaf a mwyaf uchelgeisiol o waith David Nash yng Nghymru erioed, a *Nadroedd!* yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd; POBL yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau; a *Yama – Celfyddyd Lofaol Sakubei Yamamoto* yn Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru.

Cynhaliodd Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru nifer o arddangosfeydd dros dro. Roedd y rhain yn cynnwys dathliad o dreftadaeth cymunedau Iddewig y De ac, fel rhan o'n partneriaeth â Chymdeithas Bêl-droed Cymru, *Celf Crys Cymru*, wedi'i churadu gan Neal Heard a Simon Shakeshaft ym mis Tachwedd 2019.

Ar ddiwedd mis Awst cafwyd llu o weithgareddau yn Amgueddfa Lechi Cymru i goffáu 50 mlynedd ers cau Chwarel Dinorwig. Cau'r safle a arweiniodd at greu Amgueddfa Lechi Cymru. Roeddem am gysylltu â'r gymuned leol a'r ardal ehangach yn ogystal â chodi proffil yr Amgueddfa fel cyfrannwr allweddol yn y cais am statws Safle Treftadaeth Byd UNESCO. Mae 2020 hefyd yn flwyddyn arwyddocaol i'r Amgueddfa Lechi, gan ei bod yn gan mlynedd a hanner ers i Chwarel Dinorwig agor fel chwarel lechi.




Rhwng mis Ionawr a mis Hydref, daeth Dippy y Deinosor o'r Amgueddfa Hanes Natur yn Llundain, i Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, a daeth y nifer uchaf erioed o ymwelwyr i'w weld, sef 213,740. Dyna gynnydd o 42% o ymwelwyr o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2018/19, a chafwyd cynnydd o 90% yn ein hincwm manwerthu.

I gyd-fynd ag amser Dippy yng Nghymru, bu'n Fforwm Ieuenctid yn cydweithio â'r artist Megan Broadmeadow i lunio gosodiad ar themâu deinosoriaid a ffosilau o eitemau ffasiwn gwastraff i dynnu sylw at effaith amgylcheddol 'ffasiwn cyflym'. Roedd y gosodiad yn cynnwys placardiau a model o dŵr cloc a ddefnyddiwyd yn y streiciau hinsawdd diweddar gan bobl ifanc, ac eitemau personol pobl ifanc a staff i gynrychioli pwysigrwydd natur iddyn nhw.

Mae projectau dan arweiniad pobl ifanc ar draws Amgueddfa Cymru yn rhan o'r fenter Dwylo ar Dreftadaeth, sy'n bosibl diolch i Grant Tynnu'r Llwch Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol.

Parhaodd ein rhaglenni i fynd o nerth i nerth, gan gynnwys dathliad o Fis Hanes Pobl Dduon, teithiau LGBTQ+ newydd sbon a Diwali. Ym mis Hydref cynhaliwyd y diwrnod Treftadaeth Somali cyntaf yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru, a oedd yn cynnwys rhaglen wych o gerddoriaeth, barddoniaeth, areithiau a dadleuon.

Bu disgos distaw a'r amgueddfa dros nos yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, ynghyd â digwyddiadau Calan Gaeaf a Nadolig yn boblogaidd unwaith eto, gan ennill sgoriau uchel o ran boddhad.

Datblygwyd ein harlwy addysg ymhellach hefyd, gan lansio cyfle i ysgolion gysgu'r nos yn Llys Llywelyn yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru. Bu'r noson gyntaf yn drobwynt yn hanes yr Amgueddfa. Drwy alluogi disgyblion i aros dros nos, mae Sain Ffagan bellach ar gael i ysgolion o bob rhan o Gymru.

Ni yw'r prif ddarparwr addysg y tu allan i'r dosbarth yng Nghymru o hyd, gan gyrraedd 182,227 o ddisgyblion a myfyrwyr yn 2019/20 a gwelwyd cyfanswm o 587,634 o bobl yn cymryd rhan yn ein rhaglenni dysgu ffurfiol ac anffurfiol.

Buom yn gweithio tuag at ennill statws Buddsoddwyr mewn Pobl fel sefydliad, gan adeiladu ar lwyddiant blaenorol y safleoedd unigol. Hyfryd iawn oedd sicrhau'r achrediad yn fuan ar ôl diwedd y flwyddyn. Cafodd y broses ei chefnogi a'i harwain gan staff o bob rhan o'r sefydliad. Fel rhan o hyn, daeth rhyw 530 o aelodau staff o bob rhan o Amgueddfa Cymru i Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru ym mis Tachwedd, i ddathlu'n campau ar y cyd yn ystod ein Digwyddiad Datblygu Staff cyntaf. Mwynhaodd y staff sesiynau a oedd yn cynnwys crefft, ioga, profiad cwsmeriaid ac arweinyddiaeth, yn ogystal â chyflwyniadau gwych gan gydweithwyr. Cadarnhaol iawn oedd yr adborth gyda 90% o'r staff yn awyddus i ddod i ddigwyddiad datblygu arall yn y dyfodol.



Diolch i ymdrechion staff o bob rhan o'r sefydliad, llwyddwyd i reoli effaith uniongyrchol pandemig COVID-19, a llesiant ymwelwyr, staff a gwirfoddolwyr oedd y flaenoriaeth inni. Caewyd ein safleoedd i ymwelwyr o 16 Mawrth 2020 ymlaen ac ataliwyd yr holl raglenni cyhoeddus, llogi lleoliadau a gweithgareddau masnachol. Cwblhawyd adolygiad cyflym o swyddogaethau hanfodol a rhoddwyd systemau priodol ar waith. Bu hyn yn fodd i dîm craidd o staff weithio'n ddiogel ar y safle i gynnal diogelwch ein Hamgueddfeydd a'r Ganolfan Gasgliadau Genedlaethol. Sicrhawyd hefyd fod swyddogaethau allweddol fel trefniadau llywodraethu, cymorth Adnoddau Dynol a rheolaeth, y gyflogres a thaliadau i gyflenwyr yn gallu parhau o hirbell heb dorri ar eu traws. Cwblhaodd yr Adran TGCh broses o ddarparu gliniaduron i staff hanfodol er mwyn caniatáu mynediad llawn o hirbell er mwyn iddynt weithio gartref.

Ers diwedd y flwyddyn rydym wedi canolbwyntio’n hymdrechion ar y ffordd orau i barhau i gefnogi'r cymunedau a wasanaethwn yn ystod y cyfnod hwn, gan ddatblygu rhaglenni a chynnwys yn ddigidol. Rydym wedi lansio project ymchwil, Casglu Covid, gan ofyn i bobl rannu eu profiadau yn ystod y cyfnod hwn. Daw'r ymatebion hyn yn rhan o'r cof cenedlaethol yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru, gan sicrhau y bydd cenedlaethau'r dyfodol yn gallu dysgu am fywyd yng Nghymru yn ystod y cyfnod eithriadol hwn. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn https://amgueddfa.cymru/casglu-covid/. Rydym wedi ailagor ein Hamgueddfeydd i'r cyhoedd ym mis Awst a mis Medi 2020, gan roi mesurau diogelwch COVID-19 ar waith, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Rydym hefyd wedi ceisio rheoli'r sefyllfa ariannol gystal ag y gallwn, a thrafodir hyn o dan yr adrannau ar Ganlyniadau Ariannol y Flwyddyn a Pholisi ar Gronfeydd Wrth Gefn.

## Canlyniadau Ariannol y Flwyddyn

| | **2019/20** | 2018/19 |
|---|---:|---:|
| | **£** | **£** |
| Cyfanswm yr incwm | 38,342,000 | 31,929,000 |
| Cyfanswm y gwariant | (32,529,000) | (31,959,000) |
| Symudiadau eraill | (533,000) | 56,000 |
| **Incwm cyfunol net** | **5,280,000** | 26,000 |
| | | |
| **Symudiadau net mewn cronfeydd (ar ôl yr holl enillion a cholledion wedi'u gwireddu a heb eu gwireddu)** | **(33,887,000)** | 15,270,000 |
| | | |
| **Cyfanswm balansau cronfeydd mewn cronfeydd anghyfyngedig a chyfyngedig cyhoeddus a phreifat ar ddiwedd y flwyddyn** | **98,136,000** | 132,023,000 |
| | | |
| **Balansau cronfeydd a gedwir at ddibenion cyhoeddus anghyfyngedig ar ddiwedd y flwyddyn (heb gynnwys y gronfa bensiwn)** | **8,779,000** | 8,707,000 |

Yr elfen amlycaf yn symudiadau net y cronfeydd ar gyfer y flwyddyn yw'r £42.7m o golledion actiwaraidd ar y cynllun pensiwn. Er bod rhywfaint o hyn yn deillio o ostyngiad yng ngwerthoedd asedau yn unol â'r gostyngiad cyffredinol mewn marchnadoedd tua diwedd y flwyddyn oherwydd pandemig COVID-19, yr effaith fwyaf oedd cynnydd yn rhwymedigaethau'r cynllun a achoswyd gan ostyngiad yn y gyfradd ddisgowntio a ddefnyddiwyd o dan fandad Trysorlys EM. Mae prisiadau cynlluniau pensiwn at ddibenion cyfrifyddu yn destun cryn anwadalrwydd ac fe'u cyfrifir ar sail wahanol i'r prisiadau actiwaraidd bob tair blynedd sy'n sail i benderfyniadau'r cynlluniau ar sut i'w hariannu. Disgwylir y prisiad tair blynedd nesaf ar 1 Ebrill 2021, ac ar ôl hynny bydd Ymddiriedolwyr y Cynllun Pensiwn a'r Cyflogwr yn adolygu'r sefyllfa ac yn cytuno ar gynllun i adennill diffygion. Rhoddir rhagor o wybodaeth yn yr adran Rhwymedigaethau Pensiwn yn yr adroddiad hwn, ac yn nodyn 17 i'r cyfrifon.

Heb gynnwys asedau treftadaeth a gyflwynwyd ac a ddaeth i law a cholledion buddsoddi yn sgil y gwymp mewn marchnadoedd tua diwedd y flwyddyn oherwydd pandemig COVID-19, roedd incwm/gwariant net cyffredinol y flwyddyn yn agos at fantoli'r cyfrifon. Serch hynny, mae hyn yn cynnwys cronfeydd cyfyngedig ac anghyfyngedig, ac mae'n cynnwys diffyg net o £0.9m ar ein cronfeydd refeniw (cyhoeddus anghyfyngedig).


Prif weithgareddau ein cwmni masnachu, Mentrau AOCC Cyf, ar gyfer y flwyddyn oedd gwerthiannau yn ein siopau manwerthu, gwasanaethau arlwyo mewnol a chontract, parcio ceir, trwyddedu delweddau, llogi corfforaethol, prydlesu a hawliau ffilmio. Nododd y cwmni elw cyn Rhodd Cymorth i Amgueddfa Cymru o £775,000 ar gyfer 2019/20 (£898,000 ar gyfer 2018/19). Cafodd yr elw am y flwyddyn a nodwyd yn y gyllideb ei sicrhau er inni golli pythefnos o fasnachu ar ddiwedd y flwyddyn pan gaewyd yr Amgueddfeydd.

Cyfanswm y cyllid ar 31 Mawrth 2020 oedd £98,136,000. Ceir dadansoddiad yn nodyn 19 i'r cyfrifon. Heb gynnwys y diffyg yn y cynllun pensiwn, mae nodyn 18 yn dangos bod dros 90% o'r cyllid yn cael ei gynrychioli gan asedau sefydlog. £8.8m oedd y cronfeydd cyhoeddus anghyfyngedig, ac eithrio'r gronfa bensiwn wrth gefn, a chynrychiolir £3.8m o hwn gan asedau sefydlog. Mae'r cyllid cyhoeddus anghyfyngedig sydd ar ôl, sef £5.0m, wedi'i ddyrannu i ymrwymiadau ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys diffygion cyllideb a ragwelir ar gyfer 2020/21 a 2021/22. Rydym yn adolygu'n sefyllfa ariannol ac yn ystod y ddwy flynedd nesaf byddwn yn cymryd camau i sicrhau cynaliadwyedd ariannol. Ceir rhagor o wybodaeth yn yr adran Polisi ar Gronfeydd Wrth Gefn.

## Nodau ac Amcanion

Yn ystod 2019/20, parhawyd i roi ein gweledigaeth ar waith, sef **Ysbrydoli Pobl, Newid Bywydau**. Mae'r weledigaeth hon yn adlewyrchu dyhead i seilio ein gwaith ar draddodiadau diwylliannol a deallusol Cymru, ac i ddatblygu patrwm newydd ar gyfer amgueddfeydd cenedlaethol ledled y byd.

Cafodd ein blaenoriaethau, a nodir ar ffurf ymrwymiadau yn ein Map Gweledigaeth, eu llywio gan ymgynghoriad â'r cyhoedd yng Nghymru, yn ogystal â'n Bwrdd Ymddiriedolwyr, aelodau staff a gwirfoddolwyr a phartneriaid yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Mae'r ymrwymiadau i'n gweledigaeth mewn pedwar maes allweddol, fel yr amlinellir isod:




Mae ein gweledigaeth yn alinio'n llwyr â'r nodau cenedlaethol a osodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan mai yn fframwaith y ddeddf hon y datblygwyd ein gweledigaeth yn wreiddiol, ac â strategaethau eraill Llywodraeth Cymru. Mae ymrwymiadau ac amcanion y weledigaeth wedi'u mapio i saith nod llesiant y Ddeddf, fel yr eglurwyd yn ein Datganiad Llesiant, sydd ar ein gwefan yn https://amgueddfa.cymru/datganiad-llesiant/. Rydym yn cyflwyno adroddiadau'n rheolaidd i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar ein cynnydd yn erbyn yr amcanion llesiant mewn perthynas â'r Ddeddf, ac fe'n harchwiliwyd hefyd gan Archwilio Cymru, yn benodol ar ein gweithgareddau ymgysylltu. Mae'r adroddiad ar gael ar wefan Archwilio Cymru, https://archwilio.cymru/cy/system/files/publications/1544A2019-20_Amgueddfa%20Cymru_WFG%20examination_Welsh.pdf

Ym mis Tachwedd 2019, dechreuwyd gwaith ar ein strategaeth ddeng mlynedd nesaf, ochr yn ochr â datblygu brandio cyson newydd. Mae pedwar aelod o'r staff wedi'u secondio o wahanol rannau o'r sefydliad i ymgynghori â'r staff a'r cyhoedd ynghylch datblygu'r strategaeth yn ystod 2020. Bydd ein strategaeth yn adlewyrchu'n hymrwymiadau i fynd i'r afael â'r argyfwng newid hinsawdd, ac i arallgyfeirio'n casgliadau a chynyddu cynrychiolaeth, a gadarnhawyd yn sgil protestiadau Mae Bywydau Du o Bwys yn gynnar yn 2020/21. Bydd hefyd yn cael ei bwydo gan yr hyn rydyn ni wedi'i ddysgu o'n hymateb i'r pandemig COVID-19. Y bwriad yw pennu'r strategaeth tua diwedd 2020, a'i rhoi ar waith o fis Ebrill 2021 ymlaen.

## Cefndir Statudol ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Sefydlwyd Amgueddfa Genedlaethol Cymru trwy Siarter Frenhinol ym 1907 ac mae'n parhau i fod wedi'i chofrestru fel endid cyfreithiol ac elusen o dan yr enw hwn (Rhif Siarter Frenhinol RC000369, Rhif Elusen 525774, Rhif TAW GB 783 4541 10). Enw cyhoeddus cyfredol y sefydliad yw Amgueddfa Cymru.

Mae Amgueddfa Cymru'n elusen gofrestredig annibynnol, sy’n cael ei chyllid craidd trwy gymorth grant gan Lywodraeth Cymru fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru.

Ein hamcan craidd, a nodir yn y Siarter Frenhinol, yw ‘hyrwyddo addysg y cyhoedd’. Mae hyn yn golygu datblygu ein casgliadau, gofalu amdanynt, eu hastudio, a chynnal mynediad at gasgliadau er lles cymdeithas, a hynny am byth. Mae’r Siarter (1907, a ddiwygiwyd ym 1991 a 2006) yn nodi y dylid cyflawni hyn:

(i) yn bennaf, trwy sicrhau cynrychiolaeth gynhwysfawr o wyddoniaeth, celfyddyd, diwydiant, hanes a diwylliant Cymru neu sy’n berthnasol i Gymru, a

(ii) yn gyffredinol, trwy gasglu, cofnodi, diogelu, egluro a chyflwyno gwrthrychau a phethau a gwybodaeth gysylltiedig, boed yn gysylltiedig â Chymru ai peidio, sydd â'r bwriad o hybu gwell dealltwriaeth a hyrwyddo ymchwil.

Fe wnaethom barhau i weithredu ein Cynllun a Pholisi Ymgynghori, sy’n egluro’r gwerthoedd, yr egwyddorion a’r technegau cyfranogi allweddol mewn perthynas â’n prif weithgareddau ymgynghorol.

## Lleoliadau Amgueddfa Cymru

Yn ystod 2019/20 buom yn gweithredu saith o amgueddfeydd yn uniongyrchol ledled Cymru:

**Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, Parc Cathays, Caerdydd**
Mae Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yn unigryw ymysg amgueddfeydd cenedlaethol y DU o ran amrywiaeth ei harddangosfeydd celfyddydol a gwyddorau naturiol.

**Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, Caerdydd**
Mae Sain Ffagan, un o amgueddfeydd awyr agored mwyaf blaenllaw Ewrop, yn rhan o’n grŵp o bum amgueddfa hanes cymdeithasol a diwydiannol. Gall ymwelwyr archwilio a mwynhau dros 2,000 o flynyddoedd o hanes mewn deugain a mwy o adeiladau o Fôn i Fynwy sydd wedi’u hailgodi yma.

**Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru, Blaenafon, Tor-faen**
Mae hen bwll glo cyflawn Big Pit yn rhan ganolog o Safle Treftadaeth y Byd, Blaenafon. Dan arweiniad cyn-lowyr, caiff ymwelwyr eu tywys dros 90 metr i grombil tywyll y ddaear, er mwyn cael blas ar y tywyllwch dudew yr oedd y glowyr yn gweithio ynddo ddydd ar ôl dydd.

**Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru, Caerllion, Casnewydd**
Mae’r Amgueddfa wedi arddangos casgliad o ddarganfyddiadau Rhufeinig ers dros 150 o flynyddoedd. Mae'r rhain yn cynnwys cerfluniau, arysgrifau, cerrig beddau, deunyddiau adeiladu, mosaig labyrinth, offer milwrol, crochenwaith, gwydr a gemwaith.

**Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis, Gwynedd**
Yma, adroddir hanes y diwydiant llechi yng ngweithdai gwreiddiol chwarel Dinorwig. Yn ogystal â’r ffowndri, gefeiliau, siediau a’r olwyn ddŵr fwyaf ar dir mawr Prydain sy’n dal i weithio, gall ymwelwyr weld crefftwyr yn arddangos eu sgiliau hollti a thrin llechi â llaw.

**Amgueddfa Wlân Cymru, Dre-fach Felindre, Sir Gaerfyrddin**
Yng nghalon cefn gwlad y Gorllewin, mae'r Amgueddfa hon yn adrodd hanes y clwstwr o ddeugain melin a oedd yng nghyffiniau Dre-fach Felindre ar un adeg. Hen felin y Cambrian Mills – yr unig felin sydd wedi parhau ar waith yn gyson ers y cychwyn – yw cartref yr amgueddfa bellach.

**Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Ardal Forwrol, Abertawe**
Mae'r Amgueddfa yn sefyll yn yr Ardal Forwrol sydd wedi'i hadfywio. Hen warws rhestredig wedi'i gysylltu ag adeilad cyfoes o lechi a gwydr yw ei chartref. Gall yr ymwelwyr archwilio stori ryfeddol diwydiant ac arloesi yng Nghymru.

Mae gennyn ni hefyd **Ganolfan Gasgliadau Genedlaethol** yn Nantgarw, Rhondda Cynon Taf, sy'n agored i'r cyhoedd trwy drefniant.

Rydym hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â chyrff lleol ar draws Cymru gan gynnwys Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

## Adran 1.2 dadansoddiad o Berfformiad

## Dangosyddion Perfformiad

Rydym yn monitro ac yn gwerthuso'n gwaith mewn ffyrdd meintiol ac ansoddol. Er bod ein dangosyddion perfformiad meintiol yn rhoi cipolwg ar berfformiad, mae data ansoddol o astudiaethau achos ac adroddiadau naratif yn rhoi darlun manylach a chyfle i bwyso a mesur ein gwaith a'i gyfoethogi. Eleni, dechreuwyd hefyd gynhyrchu dangosfyrddau misol a rannwyd gyda'n Bwrdd Ymddiriedolwyr, er mwyn i'r cynnydd yn erbyn y dangosyddion perfformiad gael ei fonitro bob mis yn ogystal â phob chwarter.

Parhaodd y mesurau perfformiad a osodwyd ar gyfer 2019/20 i ganolbwyntio ar gyfnerthu'n llwyddiannau hyd yn hyn, gan geisio sicrhau gwell canlyniadau hefyd i bobl Cymru trwy gyflawni'n gweledigaeth hirdymor. Gwelir yr alldro ar gyfer ein dangosyddion perfformiad allweddol yn y tabl a ganlyn:

| Dangosydd Perfformiad Allweddol | Alldro 2018/19 | Targed blynyddol | Alldro 2019/20 |
|---|---|---|---|
| Nifer yr ymweliadau | 1,887,376 | 1,803,000 | 1,814,864 |
| Nifer yr ymweliadau â'r wefan | 1,759,643 | 1,600,000 | 1,753,113 |
| Nifer yr ymweliadau addysgol ffurfiol | 208,388 | 140,000 | 182,227 |
| Nifer yr ymweliadau addysgol anffurfiol | 489,185 | 320,000 | 405,407 |
| Cyfanswm incwm net o ymchwil a ffioedd, elw'r cwmni masnachu ac ailgodi tâl, a chodi arian refeniw | £1,820,000 | £2,100,000 | £1,639,000 |

Mae'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn dangos perfformiad da iawn yn gyffredinol er i'r safleoedd gau ym mis Mawrth. Cafodd y targed ymwelwyr ei gyflawni, a llwyddwyd i wneud yn well na'r rhan fwyaf o'r targedau.

Fel y soniwyd yn gynharach, cyfanswm yr ymweliadau â'n Hamgueddfeydd yn ystod 2019/20 oedd yr ail uchaf erioed er i'r holl Amgueddfeydd gau ar 16 Mawrth, ac er bod Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru wedi aros ynghau tan ddiwedd 2019. Nifer yr ymweliadau â'n gwefan yn ystod yr un cyfnod oedd 1,753,113 a oedd yn well na'r targed o 1.6 miliwn. Er eu bod ar yr un lefel â 2018/19, parhaodd ein dilynwyr yn y cyfryngau cymdeithasol i dyfu gyda chyfanswm o 159,967 erbyn diwedd mis Mawrth 2020. Lansiwyd cyfrif Instagram hefyd, sy'n tyfu mewn poblogrwydd.

Parhaodd ein gwaith gyda'r sector addysg ffurfiol i ddenu niferoedd arwyddocaol o ymwelwyr, gyda 182,227 o ymweliadau, a oedd yn uwch o lawer na'r targed o 140,000. Nifer yr ymweliadau addysg anffurfiol, sy'n cynnwys nifer yr ymweliadau addysg 'gwerth ychwanegol' â'n safleoedd a nifer y cyfranogwyr a gymerodd ran mewn gweithgareddau addysg oddi ar y safleoedd, oedd 405,407. Roedd hyn gryn dipyn yn well na'r targed o 320,000.

Cafodd y targedau incwm net eu cyrraedd o ran cynnydd yn elw'r cwmni masnachu a chodi arian refeniw, er i'r Amgueddfeydd gael eu cau o 16 Mawrth ymlaen. Er hynny, ni lwyddwyd i gyrraedd y targed cyffredinol anodd o ran cyfanswm yr incwm net, sef £2.1 miliwn. Cafodd y targed ymchwil a thaliadau ei adolygu a'i leihau yn ystod y flwyddyn, ac rydym wedi datblygu cynlluniau newydd i gynyddu incwm yn y maes hwn yn y tymor byr a'r tymor canolig. Er bod yr incwm net a gyflawnwyd yn is na'r llynedd, roedd 31% yn uwch

nag yn 2017/18, gan ddangos datblygiad cyffredinol yn ein gwaith cynhyrchu incwm, sy'n hanfodol er mwyn cydbwyso'n cyllideb o'r naill flwyddyn i'r llall.

## Buddsoddiadau cyfalaf

Yn sail i gyflawni'r weledigaeth, mae rhaglen o waith cyfalaf yn parhau, gan ganolbwyntio yn 2019/20 ar ddatblygu rhaglen waith cynnal a chadw hanfodol pedair blynedd o hyd a ariennir gan gymorth grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. Mae'r projectau a gyflawnwyd yn cynnwys cael oerwyr a lleithyddion newydd yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd a gwaith ar do Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru. Dechreuodd gwaith mawr hefyd ar do Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. Er y bydd y rhaglen gwaith cynnal a chadw hanfodol pedair blynedd, sydd i'w chwblhau yn 2020/21, yn golygu cyfanswm buddsoddiad cyfalaf o £8.9m, nodwyd bod £60m arall o waith cynnal a chadw ataliol ac ôl-gronnus yn hanfodol dros y 10 mlynedd nesaf.

## Gweithio mewn Partneriaeth

Parhaodd yr Amgueddfa i weithio gyda phartneriaid ar hyd a lled Cymru a'r tu hwnt i ddangos y casgliadau cenedlaethol mewn amryw o leoliadau, gan gynnwys amgueddfeydd, orielau, canolfannau ymwelwyr a safleoedd treftadaeth, ac i rannu sgiliau ac arbenigedd ar draws y sector.

Parhaodd ein partneriaeth ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, drwy adnewyddu Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer rhaglenni'r bartneriaeth yn Oriel y Parc. Roedd yr uchafbwyntiau eleni yn cynnwys yr arddangosfeydd *Cerrig ac Esgyrn* a *Mwydod: Y Da, y Drwg a'r Hyll*. Cafodd *Mwydod* ei dangos hefyd ym Mhrifysgol Aberystwyth ym mis Ebrill a Mai 2019, i gefnogi eu cais llwyddiannus i Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol i ailddatblygu'r Hen Goleg fel canolfan digwyddiadau ac arddangosfeydd.

Gwnaethon hefyd ddathlu 10 mlynedd o weithio gydag Innovate Trust, sefydliad elusennol sy'n cefnogi oedolion ag anawsterau dysgu. Ers 2009, rydym wedi darparu amryw o rolau a gweithgareddau gwirfoddoli i'r ymddiriedolaeth. Menter Mwy a Gwell sy'n cael ei hariannu gan Sefydliad Paul Hamlyn yw hon. Mae'r gwaith gwirfoddol yn amrywio o leoliadau datblygu sgiliau a chyfleoedd garddio, i helpu i adeiladu Bryn Eryr yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru. Mae grŵp o wirfoddolwyr ymroddgar wrthi'n gweithio ar drawsnewid yr Ardd Gymunedol ger Ysgubor Fawr yn Sain Ffagan. Helpodd gwirfoddolwyr Innovate Trust hefyd i greu'r addurniadau bwrdd ar gyfer Cinio Gala Gŵyl Ddewi ar 1 Mawrth.

## Caffael Sbesimenau

Ein casgliadau sydd wrth wraidd ein gwasanaeth i'r cyhoedd, ac mae'n hanfodol eu bod yn parhau i ddatblygu er mwyn diogelu ein treftadaeth ac adlewyrchu anghenion newidiol Cymru. Mae ein Grant Caffael Sbesimenau gan Lywodraeth Cymru wedi lleihau'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf ond rydym yn parhau i'w ddefnyddio i ddenu cyllid ychwanegol a chawsom gymorth hael yn 2019/20 gan gefnogwyr hirdymor, yn enwedig Ymddiriedolaeth Derek Williams, Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, y Gronfa Gelf a noddwyr preifat.

Roedd yr eitemau arwyddocaol a brynwyd ac a gyfrannwyd yn 2019/20 yn cynnwys nifer o weithiau celf. Ceir rhagor o wybodaeth yn Nodyn 11 i'r cyfrifon.

Fel rhan o'n hymrwymiad i sicrhau bod y casgliad celf cenedlaethol yn parhau i adlewyrchu'r gelfyddyd gyfoes orau o bob rhan o Gymru, rydym yn prynu gwaith celf gan un o'r artistiaid a ddewisir ar gyfer y Lle Celf yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Y gwaith a brynwyd yn 2019 oedd *Blancedi Argyfwng Cymru* gan Daniel Trivedy, enillydd y Fedal Aur am gelfyddyd gain. Ffurfiwyd y gwaith â grŵp o blancedi argyfwng ffoil PET, sydd yn anffodus yn gyfarwydd o olygfeydd o fewnfudwyr o Fecsico yn cael eu cam-drin yn annynol ar ffin UDA ac achub ymfudwyr ar ôl eu hadfyd yn croesi'r Môr Canoldir. Rhoddodd Daniel gymeriad Cymreig unigryw i'r blancedi, drwy argraffu arnynt ddyluniadau o garthenni traddodiadol. Darluniodd Gymru fel cenedl groesawgar, dosturiol a chynhwysol, mewn ymateb i Gynllun Llywodraeth Cymru, Cenedl Noddfa – Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches, a lansiwyd ym mis Ionawr 2019.

Parhau wnaeth ein gwaith i gloddio grŵp o osodiadau cerbyd rhyfel o'r Oes Haearn, a ganfuwyd yn Sir Benfro yn 2018, sef y canfyddiad cyntaf o'i fath yng Nghymru. Cyflawnwyd hyn mewn partneriaeth â Cadw, Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed a Choleg Sir Benfro, gyda chymorth Cronfa Dreftadaeth y Loteri a gwirfoddolwyr.

## Gwaith Ymchwil

Mae ein gwaith ymchwil yn chwarae rhan allweddol o ran ennyn dealltwriaeth o dreftadaeth, diwylliant ac amgylchedd naturiol Cymru. Mae hefyd yn sail i'n holl wasanaethau cyhoeddus a gwaith y llywodraeth, prifysgolion ac ymchwilwyr annibynnol. Mae rhai projectau ymchwil llai o faint yn cael canlyniadau cyflym, tra bo eraill yn ymestyn dros sawl blwyddyn adrodd. Rydym yn parhau i gael ein cydnabod yn Sefydliad Ymchwil Annibynnol gan Ymchwil ac Arloesi yn y DU ac rydym yn gweithio gyda phartneriaid ym mhob sector perthnasol, yng Nghymru a'r tu hwnt. Mae hyn yn cynnwys sefydliadau addysg uwch yng Nghymru, y mae gan lawer ohonynt Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda ni, yn ogystal â Cyfoeth Naturiol Cymru. Yn 2019/20, cyhoeddodd yr Amgueddfa strategaeth newydd, Ymchwil i Gymru, sydd i'w gweld yn https://amgueddfa.cymru/strategaeth-ymchwil/.

Eleni, bu'n tîm Hanes Cymdeithasol yn gweithio ar broject cydweithredol o dan arweiniad ymchwilwyr ym Mhrifysgol Caerdydd, gan ennill grant ymchwil pwysfawr a chystadleuol iawn gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau. Dechreuodd y project tair blynedd ym mis Medi ac mae'n gweithio gyda ffoaduriaid sydd wedi ffoi rhag rhyfel cartref Syria a rhyfel cartref y Tamiliaid ac wedi ymgartrefu yng Nghymru. Bydd y project yn cyd-gynhyrchu hanesion llafar gyda'r ffoaduriaid a'u teuluoedd i ddeall sut y maent yn ymdopi â thrawma ac atgofion ar ôl gwrthdaro, a sut y maent yn adeiladu bywydau newydd yng Nghymru. Bydd y cyd-ymchwilwyr yn gweithio gyda'r cymunedau ar ddigwyddiadau a gweithgareddau sy'n adrodd eu hanesion, a gynhelir yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru, gan gyfrannu at hanesion amrywiol newydd i Gymru ac at ein gwaith parhaus ynglŷn ag Wythnos Ffoaduriaid.

Parhaodd ein hymchwil hefyd, gyda phartneriaid, ar ffrwd waith bioleg fector pryfed y project *Enhancing UK surveillance and response to Xylella fastidiosa*. Dechreuodd y project hwn yn 2018/19 ac fe'i hariennir gan y Cyngor Ymchwil Biotechnoleg a Gwyddorau Biolegol.

## Addysg

Ni yw'r prif ddarparwr addysg ffurfiol y tu allan i'r dosbarth yng Nghymru. Mae dysgu ffurfiol yn cyfeirio at ddisgyblion a myfyrwyr sy'n dilyn cwricwlwm cydnabyddedig neu achrediad fel rhan o addysg mewn ysgolion, Addysg Bellach neu Addysg Uwch. Croesawyd 182,227 o

blant ysgol a myfyrwyr i'n Hamgueddfeydd yn 2019/20. Ymgysylltodd 405,407 o ddysgwyr anffurfiol â ni hefyd, sy’n ein gwneud yn un o’r darparwyr addysg deuluol anffurfiol mwyaf yng Nghymru.

Mae gweithdai addysg ffurfiol ac adnoddau digidol wedi'u cyflwyno i ddysgwyr o ysgolion cynradd ac uwchradd ar draws Amgueddfa Cymru. Roedd yr uchafbwyntiau gydag ysgolion cynradd yn cynnwys cysgu dros nos yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru, cydweithio ar fentrau sgiliau mwy hirdymor yn Amgueddfa Lechi Cymru ac Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, a datblygu cydweithrediadau creadigol gyda chymorth Cyngor Celfyddydau Cymru. Roedd yr ystod o fentrau a gyflwynwyd gydag ysgolion uwchradd yn cynnwys dadl ar yr hinsawdd mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd a chyfle i fyfyrwyr Safon Uwch ddatrys problemau peirianyddol cymhleth yn Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru.

Cafodd cyfleoedd dysgu a datblygu i athrawon ac athrawon dan hyfforddiant eu cefnogi ar draws ein holl Amgueddfeydd, gan gynnwys cydweithio â’r consortia addysg, megis y cwrs 'Troi’n ddigidol: apiau hawdd at ysbrydoli dysgwyr’ yn Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru a 'Bît Bocsio' yn Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru.

Cafodd rhaglenni i'r blynyddoedd cynnar eu cyflwyno ar y cyd ar draws Amgueddfa Cymru. Cynhaliwyd sesiynau Amser Plant Bach wythnosol mewn tair Amgueddfa. Roedd y ddarpariaeth arall yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth â’r Mudiad Meithrin yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru, Gwasanaeth Ieuenctid Torfaen yn Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru, a Jig-so, darparwyr cymorth dwyieithog cynhwysol o'r cyfnod cyn geni hyd at bedair oed yn Amgueddfa Wlân Cymru.

Roedd y rhaglenni i deuluoedd yn cynnwys gweithio gyda chymdeithasau tai lleol i ddarparu cwrs gweithgareddau yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru. Roedd gwaith manylach gyda theuluoedd yn cynnwys gweithio gyda Hosbis Plant Tŷ Hafan ar ddiwrnodau teuluol a rhaglen gwyliau haf i frodyr a chwiorydd.

Roedd ein rhaglen iechyd a llesiant yn cynnwys cefnogi pobl sy'n byw gyda dementia. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys teithiau cerdded dementia tymhorol yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru, gweithdai estyn allan mewn ysbytai, teithiau tanddaearol misol sy'n ystyriol o Ddementia yn Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru, a Dawnsiau Te Dementia yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau. Yn ogystal, mae Grŵp Pontio Cenedlaethau Blaenafon yn Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru yn cael ei ddarparu mewn partneriaeth â Chyngor Tref Blaenafon ac mae'n dod â'r hen a'r ifanc at ei gilydd i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol a chelfyddydol.

Cynhaliodd yr Amgueddfa raglen hefyd i fynd i'r afael ag unigedd ac unigrwydd. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys partneriaeth â Re-engage, sef Cyswllt Henoed gynt, sy'n dod â phobl hŷn sydd wedi’i hynysu’n gymdeithasol at ei gilydd. Ym mis Mai 2019 lansiwyd y 'Sied Lo’ yn Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru, gan gynnig lle cymunedol i ddynion gysylltu, sgwrsio a chreu. Dyma'r Sied Dynion cyntaf yn Nhorfaen.

## Arddangosfeydd

Ni yw’r prif gynhyrchwyr arddangosfeydd diwylliant, treftadaeth a gwyddorau naturiol yng Nghymru. Rydym yn gweithio gyda’n cymunedau, ein partneriaid a’n rhanddeiliaid ar draws ein Hamgueddfeydd i gynhyrchu arddangosfeydd ac arddangosiadau sy’n apelio at

ein holl ymwelwyr. Yn 2019/20, cynhaliwyd 56 o arddangosfeydd ledled ein holl amgueddfeydd, gan gynnwys ein lleoliad partner Oriel y Parc.

Roedd yr arddangosfeydd yn cynnwys:

- *Dippy, Leonardo, Ffosilau o'r Gors, Kyffin Williams, David Nash, Nadroedd!, Ffosilau Brymbo* a'r tymor ffotograffiaeth yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd
- *Arloesi*, yn edrych ar brojectau arloesi peirianyddol a gynhyrchwyd yng Nghymru, heddiw ac yn y gorffennol, a *Cartŵn Cymru* yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau
- *Celf Crys Cymru* yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru
- *Yama – Celfyddyd Lofaol Sakubei Yamamoto* yn Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru.

Cynhaliwyd arddangosfa David Nash i nodi hanner can mlwyddiant bywyd a gwaith yr artist yng Nghapel Rhiw, cyn gapel Methodistaidd ym Mlaenau Ffestiniog. Roedd yr arddangosfa'n cynnwys cerfluniau allweddol o ddiwedd y 1960au hyd heddiw, gan edrych ar y gwahanol ffyrdd y mae'r artist wedi torri, cerfio a thrin pren i greu cerfluniau sy'n eistedd rhwng yr haniaethol a'r ffigurol.

Arddangosfa yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd a gododd dâl ac a oedd yn addas i deuluoedd oedd *Nadroedd*!, a fu'n edrych ar fyd diddorol y nadroedd. Dyma arddangosfa deithiol a roddwyd ar fenthyg gan Blue Tokay gyda chynnwys ychwanegol o'n casgliadau ninnau a nadroedd byw a ddarparwyd gan BugsnStuff.

Yn dilyn *Kizuna: Cymru, Japan, Dylunio* yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yn haf 2018, ac i gyd-fynd â Chwpan Rygbi'r Byd yn Japan yn hydref 2019, buom yn cydweithio â Chymdeithas Japan, Sefydliad Japan, Llysgenhadaeth Japan, Project Bridge Together, Beyond 2020, Amgueddfa Hanes Glofaol Dinas Tagawa, Dinas Tagawa a Thymor Diwylliant y DU a Japan 2019/20 i gynnal *Yama - Celfyddyd Lofaol Sakubei Yamamoto* yn Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru. Yn 2011 cafodd paentiadau a darluniau glofaol Sakubei Yamamoto eu cofrestru yn rhaglen UNESCO, Atgofion y Byd, ac roedd yr arddangosfa'n canolbwyntio ar ddetholiad bach o'r 2,000 o luniau a phaentiadau a wnaeth yr artist.

Roedd *POBL* yn arddangosfa allweddol a ofynnodd gwestiwn allweddol – beth yw amgueddfa? Gallai'r ymwelwyr ganfod straeon y bobl sydd wedi llunio'r ffordd y mae Amgueddfa Genedlaethol y Glannau wedi esblygu a sut mae'n chwarae rhan bwysig fel gofod cymunedol.

Yn Amgueddfa Lechi Cymru, buom yn coffáu 50 mlynedd ers cau Chwarel Lechi Dinorwig gyda'r arddangosfa *Diwedd y Lein*. Bu'r arddangosfa'n myfyrio uwchben gwaddod y chwarel i bentref Llanberis a'r cymunedau cyfagos, gan roi'r penderfyniad i'w chau yn ei gyd-destun.

## Codi arian

Roedd 2019/20 yn flwyddyn lwyddiannus arall ar gyfer codi arian gydag incwm o £1.6m ar ffurf rhoddion yn ystod y flwyddyn, £0.5m at ddibenion cyfyngedig ac £1.1m heb gyfyngiad. At hynny, cawsom addewidion o roddion posibl o dros £3m ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Cawsom hefyd £5.5m o asedau treftadaeth a gyfrannwyd a nifer o grantiau gan y llywodraeth.

Roedd y rhoddion arwyddocaol yn cynnwys dyfarniad gan y Gronfa Gelf yn sgil cyhoeddi Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru yn Amgueddfa'r Flwyddyn y Gronfa Gelf. Cafwyd rhoddion a grantiau mawr hefyd gan Sefydliad Paul Hamlyn, chwaraewyr Loteri Cod Post

y Bobl, Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, Cyngor Celfyddydau Cymru, Ymddiriedolaeth Elusennol Colwinston ac eraill.

Gwelwyd cynnydd yn y rhoddion gan unigolion yn ystod y flwyddyn wrth inni lansio Cynllun Aelodaeth newydd gan gynnwys amryw o Gylchoedd Rhoi newydd y cyfrannodd nifer o roddwyr hael iddynt. Cynyddodd ein hincwm drwy roddion etifeddol yn sylweddol.

Cafodd *Dippy ar Daith* ei gefnogi gan Sefydliad Garfield Weston a chafodd cyfnod Dippy yng Nghaerdydd ei noddi gan Admiral a Great Western Railway.

Cynhaliwyd cyfres o frecwastau busnes i ennyn diddordeb cymuned fusnes Cymru yn ein gwaith. Cefnogwyd y digwyddiadau hyn gan y cyflwynydd teledu Will Millard a chadeirydd Trafnidiaeth Cymru, Scott Waddington. Cyflwynwyd ein cinio Gala Gŵyl Ddewi yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru gan y cyflwynydd radio a theledu Huw Stephens.

Gwnaeth ein Noddwyr a llawer o unigolion a sefydliadau eraill barhau â'u cefnogaeth dros y flwyddyn ac rydym yn eithriadol o ddiolchgar i bob un ohonynt. Rhoddodd Cyfeillion Amgueddfa Cymru gefnogaeth i nifer o brojectau gwahanol, gan gynnwys cyllid i adfer y mamoth gwlanog annwyl iawn yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, a phrentisiaeth arddio yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru.

Yn ystod y flwyddyn, cafodd ein gwaith codi arian ei wneud yn fewnol gan ein Hadran Ddatblygu. Ni chafodd unrhyw waith codi arian ei roi allan ar gontract i asiantaethau ac ni chafodd unrhyw waith marchnata uniongyrchol ei wneud. Rydym yn dal yn aelodau o'r Rheoleiddiwr Codi Arian, a gwnaethom gadw at y cod ymarfer codi arian a nodwyd gan y Rheoleiddiwr. Ni chafwyd unrhyw gŵynion am ein gweithgareddau codi arian.

## Gwirfoddoli

Yn 2019/20 dathlwyd 10 mlynedd o'n rhaglen gwirfoddolwyr. Comisiynwyd yr artist ifanc Robin Bonar-Law i greu murlun, arddangosfa naid a chyfres o flogiau. Ariannwyd y murlun gan y fenter Dwylo ar Dreftadaeth, sy'n cael ei hariannu gan raglen Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, Tynnwch y Llwch. Gallwch ddarllen amdano yma:
https://amgueddfa.cymru/blog/2019-10-17/Artists-Project-Robins-time-as-artist-in-residence-/
https://amgueddfa.cymru/blog/2019-06-20/ARTISTS-PROJECT-Celebrating-10-Years-of-Volunteering/

Parhaodd ein rhaglen wirfoddoli i fynd o nerth i nerth, gyda 961 o wirfoddolwyr yn rhoi dros 30,000 o oriau. Roedd hyn yn cynnwys cyfraniadau at waith cadwraeth y tu ôl i'r llenni a gwaith cadwraeth ataliol, gweithgareddau dysgu i'r cyhoedd a helpu i gynnal ein gerddi a'n fferm.

Parhaodd Cyfeillion Amgueddfa Cymru i gefnogi ein gwaith mewn nifer o ffyrdd. Roedd hyn yn cynnwys bod yn llysgenhadon dros ein gwaith, a darparu rhaglen o sgyrsiau, teithiau a gweithgareddau eraill sy'n ategu ein gweithgareddau addysgol. Gwnaeth y Cyfeillion hefyd ddarparu cymorth ariannol, gan gynnwys rhodd o £50,000 at ein gwaith, a rhoddion tuag at ein datganiadau organ misol yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd.

Roedd uchafbwyntiau'r mentrau i wirfoddolwyr yn cynnwys:

- Yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd cefnogodd 42 o wirfoddolwyr arddangosfa *Dippy ar Daith*, gan ymgysylltu ag 11,700 o ymwelwyr. Recriwtiwyd gwirfoddolwyr

mor ifanc â 14 oed am y tro cyntaf fel rhan o'r fenter hon ac roedd rhyw 20% o'r gwirfoddolwyr o dan 18 oed. Treialodd y gwirfoddolwyr weithgareddau newydd a datblygu sgiliau newydd, er enghraifft datblygu canllaw fideo ynghylch Dippy, a gwella'u sgiliau Cymraeg drwy siarad ag ymwelwyr.

- Yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru bu gwirfoddolwyr yn cefnogi siop lyfrau ail law.
- Roedd gwirfoddoli fel grŵp yn boblogaidd gyda 301 o wirfoddolwyr yn cymryd rhan. Mae'r partneriaethau'n amrywio o gwmnïau unigol i sefydliadau yn y trydydd sector a darparwyr addysg, er enghraifft helpu Coleg Caerdydd a'r Fro gyda chyfleoedd gwirfoddoli i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.
- Yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, cefnogodd Project Garddio GRAFT mewn cydweithrediad â Sefydliad Roots, CRISIS a phartneriaid cymunedol eraill wirfoddolwyr yn yr ardd. Trawsnewidiodd y fenter leoliad a oedd heb ei ddefnyddio'n helaeth o fewn yr Amgueddfa yn ardd gymunedol.
- Mae Innovate Trust a The Wallich yn parhau i gynnal dwy o'n gerddi yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru ac yn defnyddio'r rhain mewn ffyrdd amrywiol gyda'u defnyddwyr gwasanaethau, megis i ddatblygu sgiliau a gweithgareddau llesiant.
- Rydym hefyd wedi cefnogi gwirfoddolwyr gyda Siediau Dynion yn Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru.

Mae'r ffilm *Your Museum, Your Community* (https://m.youtube.com/watch?v=VnuwId9AlgI) yn dathlu'n gwaith ledled Cymru dros y ddwy flynedd diwethaf gyda'n gwirfoddolwyr a'n partneriaid cymunedol fel Cyngor Hil Cymru, The Wallich ac Innovate Trust. Mae'n canolbwyntio ar sut y gall gwirfoddoli gael effaith bellgyrhaeddol ar unigolion ac ar ddiwylliant sefydliadol ac fe'i cefnogir gan Sefydliad Paul Hamlyn.

Mawr yw ein dyled i'n holl wirfoddolwyr am eu hymroddiad a'u brwdfrydedd tuag at helpu i ysbrydoli pobl a newid bywydau ar draws Amgueddfa Cymru.

## Adroddiad Cynaliadwyedd

Mae'r adroddiad hwn wedi'i lunio yn unol â'r canllawiau a osodwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi yn y ddogfen *Public Sector Annual Reports: Sustainability Reporting Guidance.*

Ein nod yw creu amgueddfeydd cynaliadwy trwy ddatblygu arferion cynaliadwy wrth weithredu'r saith amgueddfa a hyrwyddo ffordd o fyw gynaliadwy trwy ein harddangosfeydd, ein digwyddiadau a'n rhaglenni dysgu – er enghraifft, drwy helpu ysgolion i hyrwyddo Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy trwy'r project SCAN. Rydym yn gweithio'n agos gyda phartneriaid megis Cynnal Cymru a Sustrans ar faterion datblygu cynaliadwy.

Hefyd, nod llawer o'n hymchwil graidd yw gwella dealltwriaeth o'r amgylchedd naturiol a diwylliannol, er enghraifft, ymchwil i'r newid yn yr hinsawdd.

Mae gennym Fforwm Datblygu Cynaliadwy sy'n ystyried materion, yn gwneud argymhellion i'r cyfarwyddwyr a'r ymddiriedolwyr yn unol â hynny, ac yn sbarduno datblygiad polisi. Mae'r fforwm yn hyrwyddo arferion datblygu cynaliadwy ar draws y sefydliad.

Mae rhagor o wybodaeth am sut rydym yn mynd ati i greu amgueddfeydd cynaliadwy, gan gynnwys ein Datganiad Amgylcheddol, yn www.amgueddfa.cymru/cynaliadwyedd/.

**Perfformiad**

Mae gwarchod trysorau'r genedl ac agor ein drysau i dros 1.8 miliwn o ymwelwyr y flwyddyn yn defnyddio llawer o ynni. Mae ein Polisi Ynni wedi'i fabwysiadu fel cam mawr ymlaen tuag at wella effeithlonrwydd ynni, ac fel prawf o'n cefnogaeth i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr. Buom yn cymryd rhan yng Nghynllun Effeithlonrwydd Ynni y CRC nes iddo gau yn dilyn blwyddyn gydymffurfio 2018/19, ac rydym yn parhau i ddilyn ei ofynion ynglŷn ag adroddiadau a monitro fel mater o arfer gorau.

Yn 2019/20, cafwyd gostyngiad arwyddocaol o 11.9% yn y trydan a ddefnyddiwyd, ond cynnydd arwyddocaol, o 69.8% yn y nwy a ddefnyddiwyd (gan gynnwys LPG). Felly, mae cyfanswm yr ynni a brynwyd ar draws pob safle wedi codi 25.3%. Mae'r gwastraff wedi gostwng 2.7% o'i gymharu â 2018/19, ac mae'r defnydd ar ddŵr wedi gostwng ychydig iawn, 0.1%.

Mae'r tablau isod yn darparu gwybodaeth ariannol ac anariannol fanwl am allyriadau nwyon tŷ gwydr, gwastraff, a'r defnydd o adnoddau y mae pen draw iddynt (dŵr). Cafwyd data allyriadau cwmpas 1 a chwmpas 2 ar nwyon tŷ gwydr o'n cronfa ddata CRC, cyfrifwyd allyriadau cwmpas 3 gan ddefnyddio ffigurau milltiroedd blynyddol a ddarparwyd gan ein cyflenwr ceir llogi, casglwyd y data gwastraff o adroddiadau gwastraff safleoedd unigol, a daw'r data ar ddefnydd o ddŵr o'r wybodaeth ar filiau.

| **Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr** | | **2019/20** | **2018/19** | **2017/18** | **2016/17** | **2015/16** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion anariannol ($tCO_2$) | Cwmpas 1 Allyriadau (uniongyrchol) – nwy | 1,621 | 1,014 | 1,464 | 1,424 | 1,440 |
| | Cwmpas 2 Allyriadau (anuniongyrchol) – trydan a brynwyd | 1,259 | 1,582 | 2,116 | 2,424 | 2,749 |
| | Cwmpas 3 Allyriadau (teithiau busnes) | 24 | 25 | 26 | 27 | 24 |
| | **Cyfanswm** | **2,904** | **2,621** | **3,606** | **3,875** | **4,213** |
| | | | | | | |
| Ynni perthnasol a ddefnyddir (kWh'000) | Nwy | 8,771 | 5,164 | 7,951 | 7,705 | 7,783 |
| | Trydan | 4,574 | 5,190 | 5,548 | 5,426 | 5,538 |
| | **Cyfanswm** | **13,345** | **10,654** | **13,499** | **13,131** | **13,321** |
| | | | | | | |
| Dangosyddion ariannol (£) | Nwy | 213,582 | 216,754 | 204,745 | 169,481 | 174,564 |
| | Trydan | 666,208 | 647,989 | 596,914 | 548,415 | 517,647 |
| | Ffi gweinyddu CRC | 0 | 1,290 | 1,290 | 1,290 | 1,290 |
| | Teithiau busnes swyddogol | 181,993 | 161,771 | 156,312 | 147,169 | 183,978 |
| | **Cyfanswm** | **1,061,783** | **1,027,804** | **959,261** | **866,355** | **877,479** |
| | | | | | | |

**Targedau a Pherfformiad**

Mae ein Datganiad Amgylcheddol yn gosod targed o leihau'r $CO_2$ a gynhyrchir gan ynni a thrafnidiaeth 2% bob blwyddyn. Yn 2019/20 mae allyriadau $CO_2$ o'r ynni a brynwyd wedi cynyddu 10.9% o'u cymharu â 2018/19. Er hynny, mae'r gostyngiad mewn $CO_2$ dros ddwy flynedd yn 19.5%.

| | | |
|---|---|---|
| | | Mae'n galonogol bod y trydan a ddefnyddir wedi gostwng yn sylweddol, o 11.9%. Ond, mae'r nwy a ddefnyddir (gan gynnwys LPG) wedi cynyddu'n sylweddol, o 69.8%. Felly, mae cyfanswm yr ynni a brynwyd ar draws yr ystâd wedi codi 25.3%, ond yn gyffredinol mae ar lefel debyg i ddwy flynedd yn ôl.<br><br>Ers diwedd y flwyddyn, mae gwiriadau ar ddau foeler nwy yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd wedi datgelu bod siambrau hylosgi yn y ddau wedi cracio, sef prif achos y defnydd cynyddol ar nwy. Mae opsiynau ar gyfer trwsio yn y tymor byr ac adnewyddu yn y tymor canolig yn cael eu gwerthuso i fwydo strategaeth i ddarparu gwres a dŵr poeth a sicrhau arbedion ynni yr un pryd.<br><br>Ers rhai blynyddoedd bellach rydym yn annog staff ac ymwelwyr i ddefnyddio dulliau teithio cynaliadwy mewn sawl ffordd. Cafwyd gostyngiad o fwy na 30% yn y $CO_2$ o geir wedi'u llogi ers 2014/15 yn sgil cyfuniad o lai a filltiroedd a mwy o geir sy'n defnyddio disel yn hytrach na phetrol. Gan fod y gallu i weithio o hirbell wedi cynyddu, rydym yn disgwyl i hyn ostwng eto yn 2020/21 ac wedyn. |

| **Gwastraff** | | **2019/20** | **2018/19** | **2017/18** | **2016/17** | **2015/16** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion anariannol (tunelli) | Gwastraff peryglus | 0.5 | 0.3 | 0.2 | 0.5 | 0.2 |
| | | | | | | |
| | Gwastraff nad yw'n beryglus: | | | | | |
| | - Tirlenwi | 1,218.1 | 1,262.6 | 1,123.2 | 954.9 | 646.7 |
| | Wedi'i ailddefnyddio/wedi'i ailgylchu | 1,911.6 | 1,948.6 | 1,773.2 | 1,853.2 | 1,953.6 |
| | - Wedi'i losgi | 37.5 | 43.9 | 41.6 | 33.4 | 28.1 |
| | **Cyfanswm y gwastraff** | **3,167.7** | **3,255.3** | **2,938.2** | **2,842.0** | **2,628.5** |
| | | | | | | |
| Dangosyddion ariannol (£) | **Cyfanswm cost y gwaredu** | **57,619** | **56,923** | **51,643** | **40,417** | **38,912** |
| | | | | | | |

| | | **Targedau a Pherfformiad** |
|---|---|---|
| | | Targed yr ymrwymiadau ar wastraff Gwneud y Llywodraeth yn fwy Gwyrdd am y pum mlynedd hyd at 2019/20 yw lleihau cyfanswm y gwastraff a gynhyrchir, lleihau faint o wastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi, a chynyddu cyfran y gwastraff sy'n cael ei ailgylchu.<br><br>Rydym yn annog lleihau gwastraff trwy fwy o ailgylchu a hyrwyddo ailddefnyddio a lleihau yn frwd ar draws ein holl safleoedd. Cafwyd gostyngiad o 2.7% yng nghyfanswm y gwastraff yn 2019/20, gan gynnwys gostyngiad o 3.5% o ran tirlenwi. Roedd |

| | | |
|---|---|---|
| | | hyn yn dilyn y cynnydd cyffredinol yn 2018/19 a oedd yn adlewyrchu ailagor Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru'n llawn ar ôl cwblhau'r project ailddatblygu. Roedd y cynnydd o 47.7% yn y gwastraff tirlenwi yn 2016/17 yn deillio o newid y contractwyr ar gyfer gwastraff cyffredinol yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, ond gobeithiwn y bydd gwastraff cyffredinol nad yw'n fioddiraddiadwy yn cael ei ailgylchu unwaith eto pan fydd safle Ynni o Wastraff newydd yn cael ei agor yng Nghaerdydd. |

| **Defnydd o Adnoddau y Mae Pen Draw iddynt** | | **2019/20** | **2018/19** | **2017/18** | **2016/17** | **2015/16** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion anariannol ('000m³) | **Cyfanswm y dŵr a ddefnyddiwyd** | **23,444** | **23,463** | **28,786** | **22,860** | **20,584** |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| Dangosyddion ariannol (£) | **Cyfanswm costau cyflenwi dŵr** | **67,067** | **79,828** | **89,705** | **67,506** | **64,923** |
| | | | | | | |
| | | | | | | |

| | | |
|---|---|---|
| | | **Targedau a Pherfformiad** |
| | | Yn 2019/20 cafwyd gostyngiad o 0.1% yn y dŵr a ddefnyddiwyd, o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.<br><br>Mae cynlluniau arbed dŵr yn cael eu hystyried ar draws pob safle, ac mae'r mesurau canlynol eisoes wedi'u rhoi ar waith:<br><br>· tapiau sy'n gweithio drwy bwyso botwm yn Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru, yn y mannau cyhoeddus.<br>· Arbedwyr yn y sestonau i fflysio iwrinalau drwy Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd<br>· mesuryddion pwls dŵr yn Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru, Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru ac Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru. |

**Strategaeth y Dyfodol**

Yn 2020/21 byddwn yn adeiladu ar y cynnydd sydd wedi'i wneud eisoes o ran lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, gwastraff a'r defnydd o ddŵr. Mae'r Fforwm Datblygu Cynaliadwy wedi cytuno ar darged o 1% o ostyngiad yn yr ynni a ddefnyddir ym mhob safle yn ystod 2020/21, o'i gymharu â'r hyn a ddefnyddiwyd yn 2019/20. Bydd disodli'r lleithyddion a'r oerwyr yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yn ystod 2019/20 yn cyflawni llai o allyriadau. Mae'r Fforwm Datblygu Cynaliadwy yn parhau i archwilio gwaith arbed ynni pellach. Ar ôl i ddeuddeg aelod o'r staff dderbyn hyfforddiant ar lythrennedd carbon, byddwn yn parhau i gyflwyno'r hyfforddiant hwn i aelodau eraill o'r staff.

Gan adeiladu ar ein hymateb i'r pandemig COVID-19, a'n capasiti cynyddol ar gyfer gweithio o hirbell, byddwn yn lleihau siwrneiau'r staff yn y tymor hir, nid yn y dyfodol agos yn unig. Mae hyn yn rhan o'r Strategaeth Ddigidol rydym yn ei datblygu yn 2020/21.

**Bioamrywiaeth**
Ein nod yw diogelu, gwarchod, gwella ac adfer planhigion ac anifeiliaid amrywiol ein holl safleoedd. Mae archwiliadau bioamrywiaeth wedi'u cynnal ar bob safle, a fydd yn cyflwyno gwybodaeth i'n cynorthwyo ni i wneud penderfyniadau ac yn hybu ein hymdrech o ran cadwraeth effeithiol.

Bydd datblygu amgueddfa astudiaethau natur yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yn y dyfodol yn cyfrannu'n fawr at drafodaethau cyfoes ynghylch cynaliadwyedd, y newid yn yr hinsawdd a cholli bioamrywiaeth. Y rhyngweithio rhwng pobl a'r amgylchedd naturiol fydd un o'r prif themâu a archwilir yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru hefyd. Bydd arddangosfeydd teithiol yn cynnig cyfleoedd pellach i bwyso a mesur ein heffaith ar y byd.

**Caffael Cynaliadwy**
Rydym wedi mabwysiadu Polisi Caffael a Chynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy. Mae'n mynd i'r afael â chostau ac effeithiau oes gyfan cynhyrchion a gwasanaethau, ac yn gwerthuso perfformiad amgylcheddol ein cyflenwyr a'n contractwyr.

**Llywodraethu**
Rydym wedi mabwysiadu system reoli amgylcheddol trwy gyfrwng BS8555, ac wedi datblygu polisïau craidd er mwyn sicrhau bod datblygu cynaliadwy wrth wraidd ein gweithrediadau, gan gynnwys:

- Safon Amgylcheddol SEREN BS8555 – rydym wedi cael achrediad Cam 3 y safon hon ar draws y sefydliad
- Polisi a Chynllun Gweithredu Caffael Cynaliadwy
- Polisi Ynni

Mae ein harferion, ein prosesau a'n llwyddiannau cynaliadwy yn cael eu hasesu'n allanol yn unol â BS8555 ac o dan Ymrwymiad Lleihau Carbon y llywodraeth. Maent hefyd yn rhan o fframwaith cyffredinol rheolaeth fewnol, a cheir disgrifiad manylach o hyn yn y Datganiad Llywodraethu, sy'n rhan o'r Adroddiad hwn.

## Prisio Asedau Sefydlog
Yn ôl ein polisi cyfrifyddu ar brisio Asedau Sefydlog, rhaid i asedau eiddo gael eu hailbrisio gan arbenigwyr bob pum mlynedd. Nid yw'r broses ailbrisio bob pum mlynedd hon yn berthnasol i asedau eraill, gan gynnwys asedau treftadaeth a'r rhai dan benawdau ehangach fel peiriannau, cerbydau, neu osodiadau a ffitiadau eraill. Mae'r polisi cyfrifyddu'n cynnwys darpariaeth hefyd i ddefnyddio mynegeion i addasu'r asedau hynny sydd wedi'u hailbrisio'n broffesiynol, yn y blynyddoedd rhwng yr ailbrisiadau proffesiynol bob pum mlynedd.

Cafodd asedau sy'n gysylltiedig ag eiddo eu hailbrisio'n broffesiynol ddiwethaf ar 31 Mawrth 2016.

Nid yw'r asedau treftadaeth a gafwyd cyn 1 Ebrill 2001 wedi eu cyfalafu, ac mae asedau treftadaeth a brynwyd neu a gafwyd fel rhoddion ers y dyddiad hwnnw wedi cael eu cofnodi ar sail eu cost neu eu prisiad. Nid yw'r ymddiriedolwyr o'r farn fod modd cyfiawnhau costau sylweddol prisio casgliad mor fawr o asedau treftadaeth, ar sail cost a budd, i gael yr hyn a fyddai'n ddim mwy na phris ar un eiliad benodol mewn amser. Yn unol â Safon Adrodd Ariannol (FRS) 30 ar asedau treftadaeth, trafodir datgeliadau yn nodyn 11 i'r cyfrifon.

Adlewyrchir ein buddiant yn yr eiddo yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau gan ein cyfran o 50% yn y cwmni cyd-fentro â Dinas a Sir Abertawe. Dangosir manylion y buddiant yn y cwmni cyd-fentro yn nodyn 9 i'r cyfrifon.

## Perfformiad Talu'n Brydlon

Rydym yn dilyn amcanion y cod ymarfer Better Payment a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi a'n nod yw talu anfonebau dilys o fewn 30 diwrnod ar ôl iddynt ddod i law. Saith niwrnod calendr oedd cyfartaledd yr amser a gymerwyd i dalu anfonebau yn ystod 2019/20 (wyth niwrnod yn 2018/19), sy'n cynnwys 96.6% (yn ôl nifer) o anfonebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod (96.2% yn 2018/19). Ni wnaed taliadau llog dan Ddeddf Taliadau Hwyr o Ddyledion Masnachol (Llog) 1998 (£dim yn 2018/19).

## Y Polisi ar Gronfeydd wrth Gefn

Fel corff sy'n gyfrifol am gasglu a gwarchod asedau treftadaeth, gan gynnwys tir ac adeiladau, er mwyn cyflawni ein nodau a'n hamcanion, mae'r polisi ar gronfeydd wrth gefn yn berthnasol i gronfeydd arian i'w gwario yn unig, ac nid i gyfanswm y cronfeydd a ddelir.

Mae ein polisi ar gronfeydd wrth gefn yn parhau i fod yn ddibynnol ar, ac wedi'i gyfyngu gan, yr awdurdod a roddwyd gan Lywodraeth Cymru yn ein Cytundeb Fframwaith, a oedd yn cyfyngu'r cronfeydd wrth gefn ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2019/20 i 2% o'n cymorth grant, gydag eithriadau rhag unrhyw gyfyngiad o ran y Grant Caffael Sbesimenau ac incwm a gynhyrchwyd gennym ni. Gall eithriadau cyffredinol a phenodol pellach fod ar gael ar gais mewn perthynas ag Amgueddfa Genedlaethol y Glannau (i adlewyrchu'r trefniant cydariannu gyda Dinas a Sir Abertawe) a phrojectau cyfalaf sy'n pontio diwedd y flwyddyn ariannol.

Cynhelir cronfeydd preifat ar wahân ac fe'u nodir yn y cyfrifon. Nid oes unrhyw derfyn ar gario'r rhain drosodd, a'n polisi ni yw adeiladu'r cronfeydd hyn a'u cadw ar gyfer projectau a chynlluniau cyfalaf nad oes modd derbyn cyllid craidd na chymorth grant ar eu cyfer, gan gadw o fewn unrhyw gyfyngiadau ar ddefnydd sydd yn y cronfeydd preifat.

Defnyddir elw'r is-gwmni masnachu sy'n llwyr eiddo i ni, sef Mentrau AOCC Cyf, i ddarparu cyllid ychwanegol tuag at ein nodau a'n hamcanion. Ar adegau, gall hyn olygu ailfuddsoddi elw yn yr is-gwmni masnachu er mwyn cynyddu'r elw masnachu ymhellach.

Er gwaethaf yr anawsterau yn y blynyddoedd diwethaf ynghylch arian cyhoeddus, ein diffyg strwythurol cynyddol, ein cronfeydd refeniw sy'n crebachu a'r gofynion ynglŷn a gwaith cynnal a chadw hanfodol ataliol a'r dagfa gwaith cynnal a chadw, rydym yn dal yn benderfynol o barhau i gyflawni blaenoriaethau'r weledigaeth, gan gynnwys datblygiadau a gwaith adnewyddu cyfalaf. Mae'r pandemig COVID-19 wedi codi heriau newydd, ond rydym yn lliniaru'r rhan fwyaf o'n colledion incwm yn 2020/21 drwy grantiau refeniw a rhoddion sy'n gysylltiedig â COVID-19 ac arbedion yn ystod y flwyddyn. Yr ydym bron â threblu'r incwm o ffynonellau heblaw'r llywodraeth dros y pum mlynedd diwethaf, gyda chynlluniau ar waith ac yn cael eu datblygu i sicrhau rhagor o dwf pellach yn y dyfodol. Er hynny, rydym yn dal i ddibynnu ar gyllid Llywodraeth Cymru i gynnal y rhan fwyaf o'n gweithgareddau, ac ar sail ein modelau a'n strwythurau gweithredu presennol bydd ein cronfeydd refeniw (cyhoeddus anghyfyngedig) sydd ar gael yn dod i ben mewn llai na dwy flynedd. Rydym wrthi'n adolygu'n sefyllfa ariannol a'n cynlluniau ar gyfer sicrhau cynaliadwyedd ariannol ac yn trafod hyn yn rheolaidd gyda Llywodraeth Cymru. Ar sail y

trafodaethau hyn mae ein cyfrifon wedi'u paratoi ar y sail ein bod yn fusnes hyfyw ac nid oes ansicrwydd o bwys ynglŷn â'n gallu i barhau.

Cyfanswm y cyllid ar 31 Mawrth 2020 oedd £98,136,000. Ceir dadansoddiad yn nodyn 19 i'r cyfrifon. £8,779,000 oedd y cronfeydd cyhoeddus anghyfyngedig, ac eithrio'r gronfa bensiwn wrth gefn. Asedau sefydlog yw £3.8m o hwn, sy'n gadael £5.0m sydd wedi'i ddyrannu i gynlluniau amrywiol ac ymrwymiadau ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys diffygion refeniw yn 2020/21 a 2021/22.

## Polisi a Pherfformiad Buddsoddiadau

Ein hamcanion buddsoddi yw creu incwm i gefnogi ein gweithgareddau a chynyddu'r gwerth cyfalaf mewn termau real, cyn chwyddiant. Rydym yn buddsoddi cronfeydd preifat, a bwriedir cadw'r rhain mewn portffolio cronfa elusennau dewisol yn yr hirdymor a reolir yn weithredol gan ein cynghorwyr, sef Barclays. Mae ein polisi ar fuddsoddi yn derbyn cyfnewidioldeb tymor byr wrth geisio sicrhau enillion buddsoddi cadarnhaol yn dilyn effeithiau chwyddiant, ac yn cydnabod y gall gwerth cyfalaf amrywio'n sylweddol o bryd i'w gilydd. Hefyd, mae elfen sylweddol yn cael ei chadw mewn cyfrifon arian parod, i fod ar gael yn rhwydd i'w buddsoddi yn y rhaglen gyfalaf. Rydym yn ceisio osgoi buddsoddi mewn stociau anfoesegol sy'n groes i'n hamcanion, drwy fuddsoddi mewn cronfeydd sy'n defnyddio mesurau sgrinio i sicrhau bod cyfyngiadau moesegol yn cael eu rhoi ar fuddsoddiadau. Mae perfformiad y cronfeydd hyn yn cael ei adolygu'n gyson, a gwneir newidiadau i'r portffolio fel sy'n briodol i'r lefel dderbyniol o risg. Gostyngodd gwerth y portffolio buddsoddi yn ystod y flwyddyn o £2,960,000 o £2,549,000.

Mae gennym hefyd, trwy gymynroddion, fuddsoddiad ecwiti mewn 11 o gwmnïau o'r radd flaenaf. Gostyngodd gwerth y portffolio hwn yn ystod y flwyddyn o £108,000 i £84,000.

Felly, cyfanswm gwerth y buddsoddiadau ar 31 Mawrth 2020 oedd £2,633,000.

Gafwyd gostyngiad o £530,000 yng ngwerth y buddsoddiadau yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth oherwydd effaith y pandemig COVID-19 ar farchnadoedd buddsoddi ledled y byd. Mae'r marchnadoedd wedi gwella i raddau wedyn, ac roedd gwerth ein buddsoddiadau wedi codi i £2,941,000 ar 30 Mehefin 2020, sef lefel debyg i 31 Mawrth 2019.

## Rhwymedigaethau Pensiwn

Mae gennym Gynllun Pensiwn â buddion wedi'u diffinio sydd ar gael i'r holl staff parhaol. Mae'r cynllun wedi'i ategu gan Warant y Goron. Fel y mwyafrif helaeth o gynlluniau o'r fath, mae prisiadau blynyddol diweddar a welir ar y fantolen yn dangos diffyg ariannol yn asedau'r cynllun o'i gymharu â rhwymedigaethau'r cynllun. Mae trafferthion yn y marchnadoedd ecwiti, ynghyd â'r rhwymedigaethau cynyddol o dan y cynllun yn sgil llawer o ffactorau, e.e. y ffaith fod yr aelodau'n byw'n hirach, yn golygu bod llawer o gynlluniau o'r fath dan bwysau, ac mae llawer ohonynt wedi cau yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Mae'r prisiad a welir ar fantolen eleni, fel y'i cyfrifwyd o dan FRS102, yn dangos cynnydd o £43.7m yn y diffyg, o £25.5m i £69.2m, yn dilyn gostyngiad o £11.9m y llynedd. Cynyddodd rhwymedigaethau'r Cynllun £34.4m oherwydd colledion actiwaraidd. Deilliodd y rhain yn bennaf o gynnydd yn rhwymedigaethau'r cynllun a achoswyd gan ostyngiad yng nghyfradd y disgownt a ddefnyddiwyd, sy'n cael ei gosod gan Drysorlys Ei Mawrhydi. Gostyngodd gwerth asedau'r cynllun o £136.0m i £126.8m, yn unol â gostyngiad cyffredinol yn y marchnadoedd ym mis Chwefror a mis Mawrth mewn ymateb i'r pandemig COVID-19. Ceir rhagor o fanylion am sut y cyfrifir costau pensiwn yn y nodyn i'r cyfrifon

ynghylch polisïau cyfrifyddu, ac mae'r gofynion ynglŷn â datgelu a geir yn FRS102 i'w gweld yn nodyn 17 i'r cyfrifon.

At ei gilydd, mae prisiadau o dan FRS102 yn cael eu seilio ar gyflwr presennol y marchnadoedd ac felly maent yn bur anwadal o dro i dro ac nid ydynt yn briodol fel y sail ar gyfer gwneud penderfyniadau ar ariannu cynlluniau. Mae'r penderfyniadau hyn yn cael ei seilio yn hytrach ar brisiad actiwaraidd llawn bob tair blynedd, gan ddilyn canllawiau y Rheoleiddiwr Cynlluniau Pensiwn.

Cafodd prisiad actiwaraidd tair blynedd diweddaraf y cynllun, hyd at 31 Mawrth 2018, ei gytuno gan Amgueddfa Cymru ac ymddiriedolwyr y cynllun ar 11 Mehefin 2019, yn ogystal â'r cynllun adfer cysylltiedig i ddileu diffyg ariannol y cynllun. Bydd y cynllun yn cael gwared ar y diffyg ariannol dros gyfnod o wyth mlynedd o ddyddiad y prisiad. Dylid cynnal y prisiad actiwaraidd tair blynedd nesaf ar 31 Mawrth 2021 a bydd y cynllun adfer yn cael ei adolygu a'i gytuno unwaith y bydd y canlyniadau hyn ar gael.

## Polisi Cymraeg

Rydym wedi ymrwymo i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, fel y'u nodwyd gan Lywodraeth Cymru o dan adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae'r safonau a bennwyd ar gyfer Amgueddfa Cymru wedi'u pennu gan Gomisiynydd y Gymraeg ac yn ymdrin â phedwar maes, sef Cyflenwi Gwasanaethau, Llunio Polisi, Gweithredu a Chadw Cofnodion. Mae'n Hysbysiad Cydymffurfio a'n Polisi Cymraeg ar gael yn https://amgueddfa.cymru/amdano/polisi/polisi-iaith-gymraeg/. Byddwn yn llunio'n hadroddiad blynyddol ar gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, a fydd yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan, ym mis Medi 2020.

Rydym yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail gyfartal ac yn cydnabod pwysigrwydd darparu gwasanaeth cwbl ddwyieithog i'r cyhoedd. Mae'r Gymraeg yn rhan annatod o dreftadaeth a diwylliant Cymru, ac felly mae gan Amgueddfa Cymru ran bwysig i'w chwarae o ran hybu gwybodaeth a dealltwriaeth pobl o hanes yr iaith a diwylliant Cymru, yn ogystal â defnyddio a dathlu'r iaith yn ein gwaith. Mae ein holl arddangosfeydd yn cael eu cyflwyno'n ddwyieithog ac mae'n gwefan yn gwbl ddwyieithog.

Roedd uchafbwyntiau 2019/20 yn cynnwys:

- Gweithio gyda'r Amgueddfa Hanes Naturiol, Llundain, i greu profiad cwbl ddwyieithog ar gyfer *Dippy ar Daith*. Enwebwyd Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd am wobr Bywyd Caerdydd 2020 yn y categori Cymraeg am y gwaith hwn.
- Lansio Taith Google newydd sbon ar gyfer Tai Rhyd-y-car yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru (ein taith o amgylch Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru oedd y Daith Google gyntaf erioed yng Nghymru). Ynghyd â phrojectau eraill, nodwyd y daith hon fel gwaith arloesol yn Adroddiad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer 2020.
- Mewn partneriaeth â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, daeth 650 o ddysgwyr i Ar Lafar 2019, sef gŵyl i ddysgwyr Cymraeg, yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru, Amgueddfa Genedlaethol y Glannau ac Amgueddfa Lechi Cymru. Gwnaethom hefyd gefnogi'r Ganolfan drwy ehangu'n defnydd ar y cynllun Cymraeg Gwaith/Cymraeg yn y Gweithle, gyda chynnydd yn nifer y staff â sgiliau Cymraeg mewn 4 o'r 5 categori. Mae gan 54% o'r gweithlu sgiliau Cymraeg erbyn hyn.
- Cafodd yr adran ar y Fewnrwyd sy'n ymwneud â'r Gymraeg ei hymestyn hefyd, gan gynyddu'n sylweddol ar faint o wybodaeth sydd ar gael i'r staff ar draws Amgueddfa Cymru.

Cawsom un gŵyn o swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ym mis Tachwedd 2019, ynghylch swydd lle hysbysebwyd bod y Gymraeg yn 'Ddymunol'. Cyflwynodd yr Amgueddfa dystiolaeth, ac ar sail honno fe benderfynodd Comisiynydd y Gymraeg beidio ag ymchwilio ymhellach.

| | |
|---|---|
| *David Anderson*<br>Swyddog Cyfrifyddu a Chyfarwyddwr Cyffredinol | *Hywel John*<br>Trysorydd, ar ran y Bwrdd Ymddiriedolwyr |
| Cymeradwywyd a llofnodwyd ar 9 Hydref 2020 | Cymeradwywyd a llofnodwyd ar 9 Hydref 2020 |

# ADRAN 2: ATEBOLRWYDD

## Adran 2.1: ADRODDIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

### 2.1.1 ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR

**Y BWRDD YMDDIRIEDOLWYR** (O 1 Ebrill 2019 ymlaen)

LLYWYDD
Roger Lewis * # (penodwyd 15 Ebrill 2019)

IS-LYWYDD
Dr Carol Bell * # (Llywydd Dros Dro tan 15 Ebrill 2019)

TRYSORYDD
Hywel John, FCA * # (wedi'i benodi'n Drysorydd ar 15 Ebrill 2019)

PENODWYD GAN LYWODRAETH CYMRU
Carys Howell
Jessica Seaton (wedi ymddeol 31 Rhagfyr 2019)
Rachel Hughes, MBA FInstLM #
Michael Prior, BA Cyfreithiwr *
Dr Catherine Duigan
Maria Battle BA (Anrh) Cyfreithiwr (penodwyd 15 Ebrill 2019)
Gwyneth Hayward (penodwyd 15 Ebrill 2019)

PENODWYD GAN AMGUEDDFA CYMRU
Dr Hywel Ceri Jones, CMG
Y Farwnes Kay Andrews, OBE #
Yr Athro Robert Pickard, BSc, Ph.D, FRSB *
Dr Glenda Jones, BA (Hons), Ph.D #
Robert Humphreys (penodwyd 15 Ebrill 2019)
Dr Madeleine Havard (penodwyd 15 Ebrill 2019)

* Aelodau o'r Pwyllgor Archwilio, a ailenwyd y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd ar 12 Mawrth 2020.
# Aelodau o'r Pwyllgor Adolygu Perfformiad tan 12 Mawrth 2020. Ar ôl hynny, disodlwyd y Pwyllgor Adolygu Perfformiad gan y Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad ac Adnoddau. Mae pob Ymddiriedolwr yn aelod o'r Pwyllgor hwn.

**AELODAU ALLANOL ANNIBYNNOL O'R PWYLLGOR ARCHWILIO, RISG A SICRWYDD**
Rheon Tomos, BA, IPFA

**CYFARWYDDIAETH (TÎM UWCH-REOLWYR)** (O 1 Ebrill 2019 ymlaen)

| | |
|---|---|
| Cyfarwyddwr Cyffredinol | David Anderson |
| Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil | Kath Davies (o 6 Ionawr 2020) |
| Cyfarwyddwr Datblygu Orielau a Phrofiad Ymwelwyr | Janice Lane |
| Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol, a Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol | Neil Wicks |
| Cyfarwyddwr Addysg ac Ymgysylltu | Nia Williams |

Datgelir manylion trafodiadau â phartïon cysylltiedig sy'n cynnwys cyfarwyddwyr neu Ymddiriedolwyr, gan gynnwys rhoddion gan Ymddiriedolwyr, yn nodyn 23 i'r Cyfrifon.

**BWRDD MENTRAU AOCC CYF.** (o 1 Ebrill 2019 ymlaen)

Chris Jackson (Cadeirydd)
Richard Gloster
Richard Nash
David Anderson
Neil Wicks
Jessica Seaton (wedi ymddeol 31 Rhagfyr 2019)
Yvonne Ruelle (Ysgrifennydd y Cwmni)

## Fformat y Cyfrifon

Paratoir y cyfrifon o dan adran 9(4) o Ddeddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992 ar ffurf a bennir gan Lywodraeth Cymru gyda chymeradwyaeth y Trysorlys. Mae copi o'r Cyfarwyddyd Cyfrifon ar gael ar gais gan y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol. Mae'r cyfrifon yn cydymffurfio â gofynion y Datganiad o Arferion Cymeradwy i Elusennau (FRS102).

Mae canlyniadau masnachu'r is-gwmni sy'n llwyr eiddo i Amgueddfa Cymru, sef Mentrau AOCC Cyfyngedig, wedi'u hymgorffori yn ffigurau cyfunol Amgueddfa Cymru. Y cwmni hwn sy'n gweithredu holl weithgareddau masnachu a gweithgareddau perthnasol Amgueddfa Cymru. Mae ein cyfran o Amgueddfa Genedlaethol y Glannau Abertawe (AGGA Cyf), sef 50%, yn rhan o'r ffigurau cyfunol hefyd. Dyma gwmni cyd-fentro, sy'n gyfyngedig trwy warant, gyda Dinas a Sir Abertawe a'i phrif bwrpas oedd datblygu Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe.

## Archwilydd

Archwilydd Cyffredinol Cymru sy'n archwilio'r cyfrifon yn unol ag adran 9(8) o Ddeddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992. Mae manylion tâl yr archwilwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020 yn nodyn 7 i'r cyfrifon.

## Pencadlys

Pencadlys Amgueddfa Cymru yw Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NP.

## Prif gynghorwyr

| | |
|---|---|
| Bancwyr: | Banc Lloyds ccc, Caerdydd |
| Cyfreithwyr: | Geldards LLP, Caerdydd |
| Archwilwyr Mewnol: | RSM Assurance Services LLP, Caerdydd |
| Rheolwyr Buddsoddi: | Barclays, Caerdydd |
| Trethiant: | Deloitte LLP, Caerdydd |
| Gweinyddwyr y Gronfa Bensiwn: | Broadstone Consultants and Actuaries Ltd, Bryste |

## 2.1.2 DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R BWRDD YMDDIRIEDOLWYR A'R CYFARWYDDWR CYFFREDINOL

O dan adran 9(4) o Ddeddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992, mae'n rhaid i Fwrdd Ymddiriedolwyr Amgueddfa Cymru baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar ffurf ac ar sail a bennir gan Lywodraeth Cymru, gyda chydsyniad y Trysorlys. Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau a rhaid iddynt ddangos darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Amgueddfa Cymru a'i hadnoddau net a dderbyniwyd, ei henillion a cholledion wedi a heb eu gwireddu, a'i llif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol gydymffurfio â gofynion y Datganiad o Arferion Cymeradwy i Elusennau (FRS102) a Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y llywodraeth, yn enwedig o ran:

- cydymffurfio â chyfarwyddyd cyfrifon Gweinidogion Cymru, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a defnyddio polisïau cyfrifyddu priodol mewn ffordd gyson
- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol
- datgan a yw'r safonau cyfrifyddu perthnasol wedi cael eu dilyn fel y'u nodwyd yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y llywodraeth, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriad sylweddol yn y cyfrifon
- paratoi'r cyfrifon ar sail busnes hyfyw

Mae Prif Swyddog Cyfrifyddu Llywodraeth Cymru wedi dynodi mai'r Cyfarwyddwr Cyffredinol fydd Swyddog Cyfrifyddu Amgueddfa Cymru. Mae'r Memorandwm Swyddogion Cyfrifyddu, a gyhoeddwyd gan y Trysorlys, yn disgrifio cyfrifoldebau perthnasol y Cyfarwyddwr Cyffredinol fel Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb dros briodoldeb a chysondeb y cyllid cyhoeddus y mae'n atebol amdano, a chyfrifoldeb dros gadw cofnodion priodol, diogelu asedau Amgueddfa Cymru, a pharatoi adroddiad a chyfrifon blynyddol sy'n deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

## Datganiad ar ddatgelu gwybodaeth i archwilwyr

Cyn belled ag y bo'r Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Trysorydd, ar ran y Bwrdd Ymddiriedolwyr, yn ymwybodol, nid oes unrhyw wybodaeth sy'n berthnasol i'r archwiliad sy'n anhysbys i archwilwyr Amgueddfa Cymru, ac maent wedi cymryd yr holl gamau disgwyliedig er mwyn cael gwybod am unrhyw wybodaeth sy'n berthnasol i'r archwiliad, ac er mwyn sicrhau bod archwilwyr Amgueddfa Cymru yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

## 2.1.3 DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

### 1. Cwmpas y Cyfrifoldeb

Mae’r Swyddog Cyfrifyddu a’r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gynnal fframwaith llywodraethu a system rheolaeth fewnol gadarn sy’n helpu i gyflawni polisïau, nodau a gweledigaeth Amgueddfa Cymru, fel y’u pennwyd gan y Bwrdd Ymddiriedolwyr, a hynny wrth ddiogelu’r cronfeydd a’r asedau cyhoeddus y mae’r Swyddog Cyfrifyddu yn bersonol gyfrifol amdanynt yn unol â’r cyfrifoldebau a roddwyd iddo o dan Reoli Arian Cyhoeddus Cymru.

### 2. Diben y Fframwaith Llywodraethu

Mae'r fframwaith llywodraethu, sy'n cynnwys y system rheolaeth fewnol, wedi'i ddylunio i reoli lefel resymol o risg, yn hytrach na dileu pob risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion; felly, ni all ond ddarparu sicrwydd rhesymol yn hytrach na sicrwydd llwyr. Mae’r fframwaith llywodraethu yn seiliedig ar broses barhaus a ddyluniwyd i nodi a blaenoriaethu’r risgiau i gyflawni ein polisïau, ein nodau a’n hamcanion, i bwyso a mesur tebygolrwydd y risgiau hyn o ddigwydd a’u heffaith petaent yn digwydd, ac i'w rheoli mewn ffordd effeithlon, effeithiol a darbodus. Er mwyn ategu’r fframwaith llywodraethu, rydym yn cyflwyno Fframwaith Safonau a Llywodraethu Corfforaethol i’r ymddiriedolwyr sy’n egluro awdurdod a phwerau'r Bwrdd Ymddiriedolwyr a’r pwerau hynny sydd wedi’u dirprwyo i bwyllgorau, cyfarwyddwyr a staff. Hefyd, mae gennym bolisïau twyll a chwythu’r chwiban sy’n destun adolygiad archwilio.

Mae'r fframwaith llywodraethu wedi bod ar waith am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020, a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon, ac mae'n cyd-fynd â chanllawiau'r Trysorlys. Drwy gydol ein gwaith o gau safleoedd a symud tuag at weithio o hirbell oherwydd y pandemig COVID-19, mae'r polisïau a’r trefniadau a amlinellir yn adran 3 isod wedi parhau, gan gynnwys dulliau adrodd, cyfarfodydd y Bwrdd, y Pwyllgorau a’r rheolwyr, prosesau penderfynu, gwaith recriwtio a hyfforddi, archwiliadau ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.

### 3. Y Fframwaith Llywodraethu

Mae ein trefniadau llywodraethu’n cydymffurfio’n llawn â’r Cod Llywodraethu ar gyfer y Sector Gwirfoddol a Chymunedol a gyhoeddwyd gan y Ganolfan Lywodraethu Genedlaethol ac a gymeradwywyd gan y Comisiwn Elusennau. Mae Amgueddfa Cymru yn endid budd cyhoeddus, ac mae'r ymddiriedolwyr wedi cydymffurfio â’r ddyletswydd yn adran 2 o Ddeddf Elusennau 2011 i roi sylw dyledus i ganllawiau a gyhoeddir gan y Comisiwn Elusennau ar fudd cyhoeddus. Yn yr adroddiad ariannol hwn ceir adroddiad cynhwysfawr ar gyflawni budd o’r fath, fel yr amlinellir yn ein nodau a’n hamcanion.

Mae’r paragraffau canlynol yn rhoi crynodeb o’r fframwaith llywodraethu, gan gynnwys y system rheolaeth fewnol sydd wedi bod ar waith yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020 a hyd at y dyddiad y cymeradwywyd yr adroddiad a’r cyfrifon blynyddol. Disgrifir y fframwaith er mwyn adlewyrchu’r trefniadau sydd ar waith i gyflawni egwyddorion craidd llywodraethu effeithiol.

### 3.1 Canolbwyntio ar Ddiben Amgueddfa Cymru ac ar Ganlyniadau (Rhoi'r Dinesydd yn Gyntaf; Sicrhau Gwerth am Arian)

2019/20 oedd pumed flwyddyn ein gweledigaeth o *Ysbrydoli Pobl, Newid Bywydau*. Trwy'r weledigaeth hon ein pwrpas yw: ysbrydoli pobl, drwy ein hamgueddfeydd a'n casgliadau, i feithrin eu hunaniaeth a'u lles, i ddarganfod, mwynhau a dysgu'n ddwyieithog, ac i ddeall lle Cymru yn y byd ehangach.

Mae ein perfformiad yn cael ei fonitro yn erbyn yr amcanion drwy gyfres o ddangosyddion ansoddol a meintiol, gan ddefnyddio fframwaith metrigau'r weledigaeth. Mae'r Cynllun Gweithredol a metrigau cysylltiedig y weledigaeth yn cael eu monitro gan y cyfarwyddwyr. Caiff y cynnydd ei gynnwys yn Adroddiad Monitro'r Cynllun Gweithredol bob chwarter a chyflwynir adroddiad o'r cynnydd hwn yn Fforwm Penaethiaid yr Adrannau, y Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad ac Adnoddau ac yng nghyfarfodydd chwarterol Llywodraeth Cymru. Mae'r Bwrdd Ymddiriedolwyr yn derbyn yr wybodaeth gan y rhain yn Adroddiad y Cyfarwyddwr Cyffredinol bob chwarter, sy'n crynhoi perfformiad y chwarter.

### 3.2 Ymddiriedolwyr a Swyddogion yn Cydweithio i Sicrhau Diben Cyffredin gyda Rolau a Swyddogaethau Clir

Y Bwrdd Ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am lywodraethiant, rheolaeth ariannol ac asedau'r sefydliad. Mae'r Bwrdd Ymddiriedolwyr yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn gyhoeddus i drafod ei fusnes.

Mae aelodau o Fwrdd Ymddiriedolwyr yr elusen yn cael eu penodi gan Lywodraeth Cymru ac Amgueddfa Cymru, yn unol â'r niferoedd a nodir yn y Siarter Frenhinol atodol ac yn unol ag egwyddorion dethol agored fel yr argymhellir gan Adolygiad Nolan. Sefydlwyd Is-bwyllgor Penodiadau er mwyn cynorthwyo a chynghori ar y broses. Mae pob aelod newydd a benodir yn dilyn rhaglen ymsefydlu, ac yn derbyn dogfen Fframwaith Safonau a Llywodraethu Corfforaethol sy'n cynnwys llawlyfr ymddiriedolwyr yn fuan ar ôl cael ei benodi.

Mae gan Amgueddfa Cymru yr awdurdod cyfreithiol i dalu rôl y Llywydd o dan Adran 6(vi) o'i Siarter Frenhinol. Rhoddwyd yr awdurdod i ddechrau'r tâl hwn gan y Comisiwn Elusennau ar 15 Mai 2018, ond hon oedd y flwyddyn gyntaf i'r Llywydd gael ei dalu. Mae'r Llywydd yn cael tâl ar y sail ei fod yn gweithio dau ddiwrnod yr wythnos yn y rôl hon. Yn ystod 2019/20 cafodd y Llywydd £33,815 (£dim yn 2018/19). Y tâl blynyddol oedd £35,183. Nid yw'r Llywydd yn cael unrhyw fuddion pensiwn na buddion eraill.

Ni chafodd aelodau eraill o'r Bwrdd Ymddiriedolwyr dâl yn ystod y flwyddyn. Cedwir manylion eu swyddi cyfarwyddwyr cwmni a'u buddiannau arwyddocaol eraill mewn Cofrestr Buddiannau, sy'n agored i'r cyhoedd ac a gedwir yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd.

Mae rhestr o aelodau'r Bwrdd Ymddiriedolwyr gydol y flwyddyn a hyd at ddyddiad yr adroddiad hwn, gan gynnwys ymddeoliadau a phenodiadau newydd, wedi'i chynnwys yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr yn adran 2.1.1 o'r Adroddiad hwn. Mae'r rhestr yn nodi hefyd pa ymddiriedolwyr sy'n aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad ac Adnoddau (a elwid y Pwyllgor Adolygu Perfformiad tan 12 Mawrth 2020) a'r Pwyllgor


Archwilio, Risg a Sicrwydd (a elwid y Pwyllgor Archwilio tan 12 Mawrth 2020). Dangosir cofnod o bresenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd Ymddiriedolwyr isod. Cafwyd esboniadau boddhaol am bob absenoldeb.

| **Ymddiriedolwr** | **27/06/19** | **26/09/19** | **12/12/19** | **12/03/20** | **Nifer y cyfarfodydd** | **Canran presenoldeb** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Kay Andrews | | Ymddiheur. | Ymddiheur. | Ymddiheur. | 1 | 25% |
| Maria Battle | | Ymddiheur. | Ymddiheur. | Ymddiheur. | 1 | 25% |
| Carol Bell | | Ymddiheur. | Ymddiheur. | Ymddiheur. | 1 | 25% |
| Catherine Duigan | | | | | 4 | 100% |
| Madeleine Havard | Ymddiheur. | | | | 3 | 75% |
| Gwyneth Hayward | | | Ymddiheur. | | 3 | 75% |
| Rachel Hughes | | | Ymddiheur. | | 3 | 75% |
| Rob Humphreys | | | | | 4 | 100% |
| Carys Howell | | | | | 4 | 100% |
| Hywel John | | | | | 4 | 100% |
| Glenda Jones | | Ymddiheur. | | | 3 | 75% |
| Hywel Ceri Jones | | | | Ymddiheur. | 3 | 75% |
| Roger Lewis | | | | | 4 | 100% |
| Robert Pickard | | Ymddiheur. | | Ymddiheur. | 2 | 50% |
| Michael Prior | | | | | 4 | 100% |
| Jessica Seaton | Ymddiheur. | | | D/G wedi ymddeol | 2 | 67% |

Mae’r Bwrdd Ymddiriedolwyr yn dirprwyo rhywfaint o awdurdod i is-bwyllgorau amrywiol, yn bennaf y Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad ac Adnoddau, sydd â chylch gwaith eang o fonitro materion ariannol, gweithredol a pherfformiad, a’r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd sy’n cynnwys aelodau allanol annibynnol. Mae’r pwyllgorau hyn yn cyfarfod bob chwarter ac yn adrodd i’r Bwrdd Ymddiriedolwyr. Mae’r cylch gorchwyl yn diffinio cylch gwaith a chyfrifoldebau pob pwyllgor yn glir.

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd y Bwrdd Ymddiriedolwyr, dan arweiniad y Llywydd newydd Roger Lewis, ran gyntaf adolygiad o'i strwythurau llywodraethu. Roedd hyn yn golygu ystyried y materion hynny a gâi eu cadw ar gyfer y Bwrdd, ac adolygu cylch gorchwyl tri phwyllgor sefydlog y Bwrdd: Y Pwyllgor Penodiadau a Chydnabyddiaeth, y Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad ac Adnoddau a'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd. Bydd ail ran yr adolygiad yn ystyried yr ystod o grwpiau cynghori a phwyllgorau y mae arnom eu hangen yn y dyfodol, a'u cylchoedd gorchwyl

Dangosir y berthynas rhwng y Bwrdd a’i bwyllgorau isod:




Mae'r ymddiriedolwyr yn penodi Bwrdd Mentrau AOCC Cyfyngedig hefyd, yr is-gwmni sy'n llywio ein gweithgareddau masnachu. Yn ogystal â chyfarwyddwyr sy'n ymddiriedolwyr, mae cyfarwyddwyr anweithredol eraill sydd â phrofiad penodol perthnasol yn cael eu penodi. Mae rhestr o'r aelodau bwrdd hynny wedi'i chynnwys yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr yn adran 2.1.1 o'r Adroddiad hwn.

Y Tîm Uwch-reolwyr, sy'n cynnwys y cyfarwyddwyr, sy'n rheoli ac arwain ar faterion gweithredol beunyddiol, ac mae eu manylion hwy i'w gweld yn yr adroddiad hwn hefyd. Penodir yr holl gyfarwyddwyr trwy gystadleuaeth agored ac maent yn cael eu cyflogi o dan y telerau ac amodau cyflogaeth safonol, sy'n berthnasol i'r holl staff ac eithrio'r Cyfarwyddwr Cyffredinol. Caiff telerau penodi'r Cyfarwyddwr Cyffredinol eu cytuno gyda Llywodraeth Cymru.

### 3.3 Hyrwyddo Gwerthoedd Amgueddfa Cymru ac Arddangos Gwerthoedd Llywodraethu Da trwy Gynnal Safonau Uchel o Ymddygiad ac Ymarweddiad

Rydym yn cefnogi saith egwyddor bywyd cyhoeddus yr Arglwydd Nolan ac yn cymeradwyo Cod Moeseg Cymdeithas yr Amgueddfeydd ac yn ymroi i sicrhau bod ein holl weithwyr ac ymddiriedolwyr yn dilyn yr egwyddorion hyn. Disgwylir i'r holl ymddiriedolwyr gydymffurfio'n llawn â'n Cod Ymddygiad, sydd wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Ymddiriedolwyr.

Mae'r holl staff yn cael hyfforddiant cynefino corfforaethol, sy'n darparu gwybodaeth am bob math o bolisïau, gweithdrefnau a rheoliadau, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â rheolaeth ariannol, iechyd a diogelwch, y Gymraeg, cydraddoldeb, a rheoli gwybodaeth. Mae'r Rheoliadau Ariannol, polisïau a gweithdrefnau ar gael ar ein mewnrwyd i bob aelod o staff. Rydym yn parhau i fuddsoddi amser ac

adnoddau i gynnig cyfleoedd datblygu a hyfforddi (ffurfiol ac anffurfiol) i weithwyr. Mae gennym broses Adolygu a Datblygu Perfformiad, sy'n darparu adolygiad strwythuredig i staff o'u hamcanion personol, eu perfformiad yn erbyn yr amcanion hynny, a'r cyfle i nodi anghenion a dyheadau datblygu.

Rydym yn annog gwirfoddolwyr, profiad gwaith, lleoliadau a phrentisiaethau. Mae'r holl wirfoddolwyr yn dilyn rhaglen gynefino sy'n cynnwys iechyd a diogelwch perthnasol i'r rôl a'r adran y maent yn gwirfoddoli ynddi.

Disgwyliwn i bob aelod o staff ymddwyn yn onest a chywir bob amser, a diogelu'r adnoddau cyhoeddus sydd dan ei ofal. Rydym yn ystyried twyll neu ladrad o unrhyw fath – faint bynnag ei werth – yn gwbl annerbyniol, ac mae'r polisïau canlynol ar waith i atal achosion o'r fath ac i ymdrin â hwy:

- Polisi Chwythu'r Chwiban
- Polisi Twyll a Llygredd
- Polisïau Adnoddau Dynol ar ddisgyblu staff sy'n gysylltiedig ag achosion o'r fath

O dan y Polisi Twyll a Llygredd, cyfrifoldeb rheolwyr llinell a chyfarwyddwyr yw sicrhau bod ganddynt system rheolaeth fewnol ddigonol yn eu meysydd cyfrifoldeb a bod dulliau rheoli'n gweithredu'n effeithiol.

Ni chodwyd unrhyw faterion yn ystod y flwyddyn o dan ein Polisi Chwythu'r Chwiban. Cafodd ein polisïau ar Chwythu'r Chwiban a Thwyll a Llygredd eu hadolygu gan y Pwyllgor Archwilio ym mis Mai 2019, yn unol â'r cylch adolygu arferol o dair blynedd.

Mae gennym Bolisi Cwynion, sy'n nodi'r trefniadau ar gyfer ymdrin â chwynion. Ymchwilir yn llawn i bob agwedd ar gŵynion sy'n dod i law, a chaiff camau unioni addas eu nodi a'u gweithredu, gan gynnwys newidiadau i weithdrefnau lle y bo'n briodol.

Ymwelodd dros 1.8 miliwn o bobl â'n Hamgueddfeydd yn ystod 2019/20. Rydym yn ystyried diogelwch staff ac ymwelwyr o ddifrif ac mae gennym gyfres o bolisïau a gweithdrefnau ar waith i gefnogi hyn.

### 3.4 Gwneud Penderfyniadau Clir a Gwybodus sy'n Destun Proses Graffu a Rheoli Risg Effeithiol

Mae'r cyfrifoldeb dros wneud penderfyniadau sy'n ymwneud â'n swyddogaethau wedi'i nodi'n glir yn y Siarter Frenhinol. Mae'n disgrifio'r swyddogaethau a'r berthynas rhwng y Bwrdd Ymddiriedolwyr a phwyllgorau'r ymddiriedolwyr a'r gwaith o ddirprwyo swyddogaethau i swyddogion gweithredol eraill.

Bydd y Bwrdd Ymddiriedolwyr yn gwneud pob penderfyniad ar sail adroddiadau ac ystyriaeth o'r goblygiadau cyfreithiol ac ariannol a'r risgiau allweddol sy'n gysylltiedig â'r penderfyniad hwnnw. Mae cyfarfodydd y Bwrdd yn gyfarfodydd cyhoeddus a chyhoeddir cofnodion ar ein gwefan i sicrhau tryloywder.

### 3.4.1 Rheoli Risg

Cyfrifoldeb y cyfarwyddwyr a'r penaethiaid adran yw rheoli risg o ddydd i ddydd, a chaiff adolygiadau ac asesiadau risg ffurfiol eu cynnal yn rheolaidd gan y Grŵp Rheoli Risg. Mae'r Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad ac Adnoddau a'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd yn craffu ar yr adolygiadau hyn. Trwy fanteisio ar brofiad yr Archwilwyr Mewnol, sy'n mynychu cyfarfodydd y Grŵp Rheoli Risg, a thrwy brofiad aelodau allanol annibynnol y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd, caiff y broses ei diwygio'n rheolaidd.

Mae'r Polisi Rheoli Risg yn egluro'r fframwaith a swyddogaethau a chyfrifoldebau mewn perthynas â rheoli risg, ynghyd â chanllawiau ar adnabod, asesu, monitro a rheoli risg. Sefydlwyd y polisi, gyda chymorth yr archwilwyr mewnol, gan gyfeirio'n benodol at Lyfr Oren Trysorlys Ei Mawrhydi ar reoli risg a llawlyfr Llywodraeth Cymru ar reoli risg - Hanfodion Risg. Cafodd y polisi ei adolygu a'i ddiweddaru ddiwethaf ym mis Mai 2019.

Mae Grŵp Rheoli Risg trawsadrannol penodedig yn cynnal adolygiad rheoli risg trylwyr, gan edrych ar gynnydd ac effeithiolrwydd dulliau rheoli risgiau mawr. Mae'r grŵp yn cadw Cofrestr Risg Strategol, gan flaenoriaethu'r holl risgiau yn ôl y tebygolrwydd y gallai'r risg ddigwydd a'i heffeithiau posibl. Mae'r grŵp yn adolygu Cofrestri Risg Cyfadrannol yn rheolaidd ac yn ymgysylltu â phob cyfarwyddwr a phennaeth adran ynghylch newidiadau i fygythiadau posibl, gan sicrhau bod trefniadau rheoli risg wedi bwrw gwreiddiau ar draws y sefydliad cyfan. Mae nodi a rheoli risgiau yn eitem sefydlog ar agendâu cyfarfodydd cyfadrannol a chyfarfodydd y Tîm Uwch-reolwyr. Cedwir cofrestri risg ar wahân ar gyfer yr is-gwmni masnachu, y cwmni cyd-fentro, y Cynllun Pensiwn, a phob project mawr trwy gydol ei oes. Ar ddiwedd project, caiff y Gofrestr Risg ei hasesu a chaiff pob risg sy'n parhau ei throsglwyddo i'n prif gofrestri. Mae cofrestr risg pandemig COVID-19 ar wahân wedi'i chadw ers diwedd mis Mawrth 2020 ac mae'n cael ei hadolygu'n rheolaidd gan y Tîm Uwch-reolwyr a'r Grŵp Rheoli Risg.

Mae'n bosibl y gofynnir i'r grŵp ystyried risgiau posibl penodol hefyd a nodir gan y Bwrdd Ymddiriedolwyr a'r Pwyllgor Cynllunio Perfformiad ac Adnoddau a'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd. Hefyd, mae'r pwyllgorau hyn yn adolygu'r newidiadau i'r Gofrestr Risg Strategol a materion a drafodir yng nghyfarfodydd chwarterol y grŵp, yn ogystal â chamau lliniaru a gymerir yn erbyn y risgiau mwyaf.

Mae aelodau'r Grŵp Rheoli Risg yn cynnwys y Pennaeth Archwilio Mewnol, sy'n gymorth i allu ystyried materion sy'n peri pryder mewn cyrff eraill. Mae rhaglen waith yr Archwilydd Mewnol yn croesgyfeirio'n benodol at y risgiau a nodwyd, a hefyd yn cael ei llywio gan y Tîm Uwch-reolwyr a'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd.

Mae'r Archwilwyr Mewnol yn adolygu'n Fframwaith Rheoli Risg a Sicrwydd fel rhan o'u rhaglen archwilio tair blynedd. Cafodd yr adolygiad diweddaraf ei gwblhau yn ystod 2017/18. Daeth hwn i'r casgliad fod gennym 'broses rheoli risg sydd wedi'i chynllunio a'i hymgorffori'n dda' a 'gallai'r bwrdd fod yn sicr iawn fod y rheolaethau y mae'r sefydliad yn dibynnu arnynt i reoli'r maes hwn wedi'u cynllunio'n briodol, wedi'u rhoi ar waith yn gyson, ac yn gweithredu'n effeithiol'. Mae'r Fframwaith Rheoli Risg a Sicrwydd yn parhau i fod ar waith.

Diweddarwyd y Gofrestr Risg Strategol ychydig ar ôl diwedd y flwyddyn i adlewyrchu'r pandemig COVID-19. Y prif risgiau yw crebachu yn y cyllid, diogelwch ein hasedau oherwydd tân neu dor diogelwch ffisegol, tor data, ac anallu i gyflawni'r Cynllun Gweithredol oherwydd adnoddau annigonol. Mae camau lliniaru ar waith, ac mae'r risgiau hyn yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan yr Archwilwyr Mewnol, y Grŵp Rheoli Risg a'r Bwrdd Ymddiriedolwyr.

### 3.4.2 Diogelwch Gwybodaeth

Mae gennym weithdrefnau diogelu gwybodaeth ar waith i sicrhau cyfrinachedd, cywirdeb ac argaeledd gwybodaeth sy'n cael ei chadw a'i phrosesu gennym, ac i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 2018 a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2006. Yn eu plith mae'r canlynol:

- Polisi Diogelwch Gwybodaeth
- e-ddysgu ar Ddiogelu Data i'r staff
- canllawiau a pholisi ar ymdrin â gwybodaeth a roddir i bob aelod o staff
- parhau i gydymffurfio'n statudol â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Ddeddf Diogelu Data, ac adrodd am hynny
- y Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad ac Adnoddau a'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd yn derbyn adroddiadau ar drefniadau trin data .

Mae'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd yn cael adroddiad blynyddol mewn perthynas â chydymffurfio â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Ddeddf Diogelu Data.

Cafodd ein polisïau a'n gweithdrefnau Diogelu Gwybodaeth eu hadolygu fel rhan o'r gwaith paratoi ar gyfer ardystiad Cyber Essentials.

Rydym wedi parhau i gysoni'n harferion â gofynion y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gan gynnwys diweddaru polisïau a gweithdrefnau, hyfforddi staff, cwblhau ymarfer darganfod data i nodi data personol a gedwir, a gweithredu log mynediad diawdurdod at ddata.

Nid oes unrhyw ddigwyddiadau data personol wedi bod yn 2019/20 a oedd yn golygu bod gofyn hysbysu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO). Cafwyd dau yn 2018/19.

Mae'r flwyddyn wedi gweld gostyngiad yn nifer y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a ddaeth i law, o 22 yn 2018/19 i 13 yn 2019/20. Roedd chwech o'r ceisiadau hyn yn ymwneud â chasgliadau. Gwrthodwyd un o'r ceisiadau hyn ar y sail ein bod yn bwriadu cyhoeddi'r data ymchwil y gofynnwyd amdano yn ddiweddarach. Ni chafodd hyn ei herio. Roedd y ceisiadau eraill yn ymwneud yn bennaf â gwybodaeth reoli neu wybodaeth am gaffael.

## 3.5 Datblygu Capasiti a Gallu'r Ymddiriedolwyr a'r Swyddogion i Fod yn Effeithiol

Llywodraeth Cymru ac Amgueddfa Cymru sy'n penodi'r ymddiriedolwyr. Darperir cynllun cynefino ffurfiol i'r ymddiriedolwyr ar ôl eu penodi. Rhoddir hyfforddiant pellach yn ôl yr angen yn ystod y flwyddyn.

Mae pob aelod o’r Bwrdd yn cwrdd â’r Llywydd yn ffurfiol bob yn ail flwyddyn fel rhan o broses adolygu, ac mae’r Llywydd wedyn yn cyflwyno adroddiad i’r Bwrdd Ymddiriedolwyr. Mae'r bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio yn cynnal adolygiad hunanfyfyrio bob yn ail flwyddyn hefyd i sicrhau bod eu llywodraethu corfforaethol yn effeithiol.

Mae’r system rheoli ariannol yn seiliedig ar fframwaith o wybodaeth reoli reolaidd, rheoliadau, polisïau a gweithdrefnau, a system ddirprwyo ac atebolrwydd. Caiff hwn ei lywio gan ein Dogfen Fframwaith, arferion gorau, a Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru. Mae’n cynnwys:

- rhagfynegi a monitro cyllidebau, gydag adroddiadau ariannol rheolaidd sy’n nodi’r gwariant gwirioneddol a’r rhagolygon gwariant yn erbyn cyllidebau
- cynlluniau gwariant cyfalaf wedi’u diffinio’n glir
- disgyblaethau rheoli projectau ffurfiol
- ymgyngoriadau rheolaidd a chynnwys archwilwyr mewnol trwy gydol y broses o ddatblygu neu gyflwyno newidiadau i systemau
- cysylltiad agos ag archwilwyr allanol
- gofyn am gyngor arbenigol lle y bo’n briodol
- adroddiadau rheolaidd i’r Bwrdd Ymddiriedolwyr, is-bwyllgorau a Llywodraeth Cymru
- adolygiadau rheoli cyson.

### 3.6 Ymgysylltu â Phobl Leol a Rhanddeiliaid Eraill i Sicrhau Atebolrwydd Cyhoeddus Cadarn

Rydym yn gweithredu rhaglen ymgysylltu ac ymgynghori â’r cyhoedd yn unol â’r Siarter Frenhinol a’n Cynllun a Pholisi Ymgynghori.

Yn unol â’n Strategaeth Addysg a’n Strategaeth Ymgysylltu â Chymunedau a’r egwyddor cynaliadwyedd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015, rydym wedi datblygu a darparu rhaglenni cyhoeddus ar y cyd â thros 70 o sefydliadau yn y sector cyhoeddus a’r trydydd sector. Mae’n gweledigaeth ni, 'Ysbrydoli Pobl, Newid Bywydau', yn alwad i weithredu ar daith tuag at ddemocratiaeth ddiwylliannol. Rydym wedi ymrwymo i sefydlu dull diwylliannol sy'n seiliedig ar hawliau, a ysbrydolwyd gan Ddatganiad Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig (1948). Mae’r enghreifftiau eleni yn cynnwys:

- Yn unol ag argymhellion gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a Llywodraeth Cymru, buom yn cydweithio â chyrff eraill yn y sector cyhoeddus yng Nghymru, Diverse Cymru a'r cyhoedd i ddatblygu Amcanion Cydraddoldeb cyffredin 2020-24. Cytunwyd ar y rhain a'u cyhoeddi yn ystod y flwyddyn. Drwy gydweithio, gobeithiwn y bydd mwy o effaith yn cael ei sicrhau wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus mwy cyfartal, gan gyfrannu'n sylweddol at fynd i'r afael ag anghydraddoldebau fel y nodir yn adroddiad 2018 *A yw Cymru’n Decach?* Mae'r gwaith cydweithredol hwn yn adlewyrchu egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a bydd yn cyfrannu'n uniongyrchol at y nod llesiant cenedlaethol 'Cymru Fwy Cyfartal'.
- Darparu Dwylo ar Dreftadaeth, rhan o fenter ledled y DU i ymgysylltu â phobl ifanc, gyda chonsortiwm o'n fforymau ieuenctid a phedwar sefydliad partner craidd, sef: Llamau, ProMo-Cymru, Barnado's Cymru a Phlant yng Nghymru. Mae'r cydweithio hwn yn llywio ein holl waith gyda phobl ifanc.

- Gweithio'n agos gyda Chyngor Hil Cymru, Hanes Pobl Dduon Cymru a nifer o gynrychiolwyr eraill o gymunedau Du Cymru er mwyn amrywio'r casgliadau, gyda chefnogaeth Sefydliad Paul Hamlyn.
- Cyflawni rhaglen *Cyfuno* Llywodraeth Cymru, sy'n ceisio grymuso pobl, yn enwedig pobl sy'n profi tlodi, i gymryd rhan weithredol yn y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys cyflawni'r Uchelgais Ddiwylliannol, rhaglen tair blynedd i ddarparu interniaethau i bobl ifanc ledled Cymru mewn partneriaeth â Sgiliau Creadigol a Diwylliannol, Coleg Caerdydd a'r Fro ac amryw o sefydliadau treftadaeth a diwylliannol lleol a chenedlaethol.
- Rydym wedi datblygu sawl arddangosfa wedi'i chydgynhyrchu. Er enghraifft, yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau buom yn cydweithio â phobl leol, partneriaid cymunedol ac artistiaid i greu'r arddangosfa *POBL*, sef dathliad o sut mae'r gymuned leol wedi ymwneud â'r Amgueddfa i'w gwneud yn amgylchedd mwy croesawgar a chynhwysol.
- Cydweithio â Gweithgor Dementia'r Tair Gwlad a Chymdeithas Alzheimer, gan ddarparu teithiau corfforol a rhithwir sy'n ystyriol o ddementia a ffyrdd o gasglu atgofion a straeon am wrthrychau a ddewiswyd gan y cyfranogwyr. Mae'r grŵp pontio'r cenedlaethau yn dal i gyfarfod, gyda'r bobl ifanc yn cefnogi pobl sy'n byw gyda dementia yn ystod y cyfnod heriol iawn hwn.

Mae ein Strategaeth Marchnata a Chyfathrebu wedi'i chynllunio i hyrwyddo'r sefydliad, ein gweledigaeth, ein hamcanion a'n blaenoriaethau. Mae rhwydweithiau cymdeithasol, gan gynnwys Twitter, Facebook ac Instagram yn ganolog ar gyfer cyfathrebu â chynulleidfaoedd targed. Cyhoeddir datganiadau i'r wasg yn aml er mwyn hybu'n gweithgareddau a'n gwaith.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cyfathrebu mewnol ac yn ychwanegol at barhau roi'r Cynllun Cyfathrebu Mewnol ar waith, rydym wedi bod yn datblygu Strategaeth Cyfathrebu Mewnol ochr yn ochr â'n gwaith i sicrhau achrediad Buddsoddwyr mewn Pobl. Rydym hefyd yn darparu sesiynau briffio mewnol electronig ac wyneb yn wyneb i'r staff er mwyn sicrhau eu bod yn cymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau ac yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am benderfyniadau.

Rydyn ni hefyd yn gweithio gyda'n hundebau llafur cydnabyddedig ac wedi parhau i weithio'n gadarnhaol gyda'n gilydd eleni, yn fewnol a thrwy Bartneriaeth Strategol Cymru Hanesyddol. Mae cynrychiolwyr undebau'n parhau i fynychu cyfarfodydd Pwyllgor Gweithredol y Staff ar gyfer Adnoddau Dynol ac Ariannol yn ogystal â Fforwm y Staff. Mae cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal hefyd rhwng aelod cynrychioliadol o'r Bwrdd Ymddiriedolwyr a chynrychiolwyr o'r undebau.

Mae gennym gynllun cyhoeddiadau a gall rhanddeiliaid weld amrywiaeth o gyhoeddiadau, polisïau a gweithdrefnau, yn ogystal â chofnodion a datganiadau ariannol y Bwrdd, ar ein gwefan.

## 4. Adolygu Effeithiolrwydd

Mae gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol, sef y Swyddog Cyfrifyddu, gyfrifoldeb dros adolygu effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu, gan gynnwys y system rheolaeth fewnol a threfniadau chwythu'r chwiban. Mae gwaith yr archwilwyr mewnol ac allanol, cynghorwyr proffesiynol eraill a'r Tîm Uwch-reolwyr, sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheoli mewnol, yn llywio'r gwaith o adolygu

effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu. Mae sylwadau gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac mewn adroddiadau eraill yn llywio’r adolygiad hefyd.

Hysbyswyd y Swyddog Cyfrifyddu am effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu gan yr Ymddiriedolwyr, y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd a’r cyfarwyddwyr, ac mae cynlluniau ar waith i fynd i’r afael â materion a sicrhau gwelliannau parhaus i’r system. Darperir rhagor o wybodaeth am y cynlluniau hyn yn adran 5, Materion Llywodraethu a Gwelliannau ar gyfer y Dyfodol isod, sy’n nodi hefyd na chododd unrhyw faterion sylweddol yn ymwneud â llywodraethu neu reolaeth fewnol yn ystod y flwyddyn.

Mae holiaduron gwerthuso’n cael eu llenwi gan y Bwrdd a’r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd ddwywaith y flwyddyn. Cawsant eu llenwi ddiwethaf ym mis Mai 2020 ac roedd y canfyddiadau yn gadarnhaol iawn ar y cyfan. Nododd y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd fod angen datblygu archwiliad sgiliau'r Bwrdd ymhellach er mwyn llywio’r gwaith recriwtio i'r Pwyllgor a'r Bwrdd yn gyffredinol. Mae'r Llywydd yn gweithio gyda'r Ymddiriedolwyr a'r Tîm Uwch-reolwyr i fynd i'r afael â phwyntiau a godwyd yn adroddiad y Bwrdd.

Rydym wedi sefydlu’r prosesau canlynol i ategu’r fframwaith rheoli risgiau er mwyn cynnal fframwaith llywodraethu effeithiol a system rheolaeth fewnol effeithiol:

§ Rheoliadau, polisïau a gweithdrefnau gweinyddol ariannol manwl, gan gynnwys didoli dyletswyddau a gwahanol lefelau o awdurdod dirprwyedig; systemau cyllidebu cynhwysfawr; a chanllawiau rheoli buddsoddiadau cyfalaf wedi’u diffinio’n glir sy’n cael eu monitro.
§ Prosesau rheoli mewnol megis monitro ac adrodd am berfformiad, cyfarfodydd adrannol a briffiau cyfarwyddwyr.
§ Mae’r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd yn ystyried cwmpas y rhaglen archwilio mewnol ac yn derbyn adroddiadau gan archwilwyr mewnol ac allanol. Mae’r Pwyllgor yn cyfarfod bob chwarter ac mae’r Bwrdd Ymddiriedolwyr yn ystyried cofnodion y cyfarfod a hefyd adroddiad gan y Cadeirydd.
§ Adroddiadau rheolaidd gan yr Archwilydd Mewnol, gan gynnwys ei farn annibynnol ar ba mor ddigonol ac effeithiol yw’r systemau rheolaeth fewnol, ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella.
§ Adroddiad blynyddol gan yr Archwilwyr Mewnol. Ar sail gwaith archwilio mewnol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020, daeth yr Archwilydd Mewnol i’r casgliad fod gennym fframwaith rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol ddigonol ac effeithiol, er bod angen rhagor o welliannau er mwyn sicrhau bod y fframwaith yn dal yn ddigonol ac effeithiol.
§ Mae’r Archwilydd Mewnol yn cynnal adolygiad o gydymffurfiaeth ag egwyddorion y Cod Llywodraethu Da ar gyfer y Trydydd Sector yng Nghymru bob tair blynedd; cynhaliwyd yr adolygiad diweddaraf yn ystod 2017/18, gan gadarnhau ein bod yn cydymffurfio â’r cod.
§ Mae Archwilio Cymru, ein harchwilydd allanol, yn darparu adroddiad Llythyr Rheoli sy’n crynhoi’r gwaith a wnaed mewn perthynas â’r datganiadau ariannol. Mae’r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd yn adolygu hwn ac yn cyflwyno adroddiad i’r Bwrdd Ymddiriedolwyr.
§ Mae ffynonellau sicrwydd eraill yn cael eu hystyried, gan gynnwys adroddiadau gan y Comisiwn Elusennau, Arolygwyr y Dreth Dirlenwi, yr Arolygiaeth Diogelwch Mwyngloddiau, a Buddsoddwyr mewn Pobl

## 5. Materion Llywodraethu a Gwelliannau ar gyfer y Dyfodol

Ni chododd unrhyw faterion llywodraethu neu reolaeth fewnol arwyddocaol yn ystod y flwyddyn. Cefnogir hyn gan Adroddiad Blynyddol yr Archwilwyr Mewnol.

Yn ystod 2019/20 parhawyd i weithredu'n gweledigaeth ddeng mlynedd, yn unol â'r amlinelliad ar dudalen 7, y cytunwyd arni gan y Bwrdd. Yn ogystal â'r her barhaus i gyflawni'n gweledigaeth gyda chronfeydd wrth gefn sy'n lleihau ac amgylchedd ariannol anodd, fel pob sefydliad arall rydym bellach yn wynebu amgylchiadau sy'n ddigynsail ac yn newid yn gyflym, yn sgil y pandemig COVID-19. Byddwn yn parhau i weithredu'n gweledigaeth yn 2020/21 gystal ag y gallwn, gan addasu'n harlwy a'n systemau mewnol yn ôl y gofyn. Wrth symud ymlaen fe wnawn ni'r canlynol:

- Gorffen datblygu'n strategaeth deng mlynedd a'n brand newydd. Bydd rhoi sylw i'r argyfwng newid hinsawdd a bioamrywiaeth a datblygu ymhellach ar ein hymdrechion i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau er mwyn sicrhau ein bod yn ymateb yn llawn i fudiad Mae Bywydau Duon o Bwys, yn golofnau allweddol yn y strategaeth.
- Datblygu Strategaeth Ddigidol i drawsnewid profiad digidol ein hymwelwyr, a sefydlu effeithlonrwydd, lles ac enillion amgylcheddol yn sgil gweithio o hirbell, gan adeiladu ar ein hymateb i'r pandemig COVID-19.
- Datblygu a dechrau gweithredu cynlluniau i gyflawni modelau gweithredu sy'n gynaliadwy yn ariannol.
- Mynd ati i ymgysylltu â rhanddeiliaid a chymunedau i sicrhau cynrychiolaeth fwy amrywiol o fewn y sefydliad, ein casgliadau, a'n hymwelwyr, gan adeiladu ar ein hymrwymiadau a'n rhaglenni presennol.
- Cwblhau'r adolygiad o strwythurau llywodraethu a bwyllgorau a rhoi'r newidiadau ar waith.
- Gweithredu strwythur newydd ar gyfer y Tîm Uwch-reolwyr, ac adolygu ymhellach ein strwythurau i gefnogi'r gwaith o gyflawni ein gweledigaeth o fewn yr adnoddau sydd ar gael.
- Adolygu'n prosesau rheoli risg a sicrwydd, gan ganolbwyntio ar nodi cyfleoedd a sbarduno newid cadarnhaol.
- Parhau i gynyddu cynhyrchiant incwm a chyflawni prosiectau incwm masnachol dros y tair i bum mlynedd nesaf.
- Yn dilyn ein llwyddiant o ran cyflawni achrediad Buddsoddwyr mewn Pobl, gweithio tuag at lefel achredu uwch.
- Gorffen rhoi'n Strategaeth Hyfforddi a Datblygu ar waith.
- Gwella'r prosesau ar draws y sefydliad, gan gynnwys systemau newydd ynglŷn â Rheoli Cysylltiadau â Chwsmeriaid.
- Parhau i weithredu'r Rhaglen Cynnal a Chadw Hanfodol.

## 6. Ardystio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Dros y flwyddyn sy’n dod, rydym yn bwriadu cymryd camau i fynd i'r afael â'r materion uchod er mwyn gwella ymhellach ar ein trefniadau llywodraethu. Rydym yn fodlon y bydd y camau hyn yn mynd i'r afael â'r angen am welliannau a byddwn yn monitro sut maen nhw’n cael eu rhoi ar waith a’u gweithredu fel rhan o'n hadolygiad nesaf.

| | |
|---|---|
| *David Anderson*<br>Swyddog Cyfrifyddu a Chyfarwyddwr Cyffredinol | *Hywel John*<br>Trysorydd, ar ran y Bwrdd Ymddiriedolwyr |
| Cymeradwywyd a llofnodwyd ar 9 Hydref 2020 | Cymeradwywyd a llofnodwyd ar 9 Hydref 2020 |

## Adran 2.2 Adroddiad ar Daliadau Cydnabyddiaeth a Staff

**Cyfle Cyfartal**
Mae gennym amrywiaeth o bolisïau sy'n cefnogi ein cydymffurfiaeth â Deddf Cydraddoldeb 2010, sy'n rhoi dyletswydd gyffredinol statudol ar bob sefydliad yn y sector cyhoeddus i roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon ac aflonyddu ac i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal rhwng dynion a menywod mewn cyflogaeth ac wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd. Gwnaethom hefyd barhau i weithredu ein Strategaeth Cydraddoldeb ac Amcanion Cydraddoldeb ar gyfer 2018–2021, sydd i'w gweld ar ein gwefan (https://amgueddfa.cymru/amdano/polisi/cydraddoldeb-ac-amrywiaeth/). Mae'r dogfennau hyn yn amlinellu ein blaenoriaethau ar gyfer sicrhau cydraddoldeb a chynhwysiant i staff ac ymwelwyr.

Fel rhan o Bartneriaeth Cydraddoldeb Cyrff Cyhoeddus Cymru, rydym wedi cydweithio â chyrff cyhoeddus eraill i gytuno ar amcanion strategol cyffredin er mwyn datblygu dull ar y cyd o fynd i'r afael ag anghydraddoldebau. Mae'r gwaith cydweithredol hwn yn adlewyrchu egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a bydd yn cyfrannu'n uniongyrchol at nod llesiant cenedlaethol 'Cymru Fwy Cyfartal'.

Rydym wedi parhau i gyflwyno hyfforddiant a datblygiad mewn cydraddoldebau, gan gynnwys hyfforddiant ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth, Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb a Rhagfarn Ddiarwybod. Rydym hefyd wedi cael hyfforddiant gan bobl ifanc, a hyfforddwyd fel hyfforddwyr gan Brifysgol Caerdydd, ar bynciau sy'n berthnasol iddyn nhw, gan gynnwys terminoleg LHDTQ+.

Rydym wedi ailddatgan ein hymrwymiad i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau, a hiliaeth yn benodol, yn sgil mudiad Mae Bywydau Duon o Bwys yn gynnar yn 2020/21.

Y bwlch cyflog diweddaraf rhwng y rhyweddau a gyhoeddwyd gennym (sef y gwahaniaeth rhwng cyflog dynion a menywod fesul awr) oedd 6.47% ar gyfer 2018/19 (6.33% ar gyfer 2017/18), a'r bwlch cyflog canolrifol rhwng y rhyweddau oedd 9.34%, sy'n gynnydd arwyddocaol o'i gymharu â 2.97% yn 2017/18. Mae'r cynnydd yn deillio o recriwtio llawer mwy o fenywod na dynion i rolau glanhau yn ystod y cyfnod hwn, pan recriwtiwyd rolau glanhau ychwanegol wrth i Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru ailagor. Mae ein hadroddiad ar y bwlch cyflog rhwng y rhyweddau yn cael ei gyhoeddi ar wefan y llywodraeth ar gyfer y Gwasanaeth Bwlch Cyflog rhwng y Rhyweddau (https://gender-pay-gap.service.gov.uk/). Rydym wedi nodi nifer o gamau sydd wedi cael eu rhoi ar waith ac a fydd yn cael eu rhoi ar waith er mwyn lleihau'r bwlch cyflog. Mae'r rhain yn cynnwys camau sy'n ymwneud â chyflog, polisi, recriwtio, dysgu a datblygu, gweithio'n hyblyg a chasglu data.

**Polisïau ar gyfer Gweithwyr Cyflogedig Anabl**
Mae gennym gynllun gwarantu cyfweliad sy'n anelu at drin ymgeiswyr anabl yn gyfartal yn y broses recriwtio. Bydd unrhyw ymgeisydd anabl sy'n bodloni'r gofynion sylfaenol ar gyfer y swydd yn cael ei wahodd yn awtomatig i gyfweliad.

Mae gennym bolisïau ar waith i gefnogi gweithwyr cyflogedig anabl i wneud cais am addasiadau rhesymol yn y gweithle. Os bydd unrhyw nodwedd ffisegol yn y gweithle yn rhoi aelod anabl o staff dan anfantais sylweddol o gymharu â phobl nad ydynt yn anabl, gellir gwneud cais er mwyn rhoi camau ar waith i atal hyn. Gellir gwneud trefniadau sy'n

cynnwys, er enghraifft, newidiadau i batrymau gwaith, cynnwys neu ddyluniad y swydd, lleoliad a math y dodrefn a chyfarpar neu feddalwedd TG arbenigol. Mae'r Cynlluniau Gweithredu Llesiant sydd wedi'u hymgorffori yn ein harferion yn ystod y flwyddyn yn hybu trafod agored rhwng y staff a'r rheolwyr llinell mewn perthynas ag addasiadau.

Yn ystod 2019/20, ymunodd yr Amgueddfa â'r Cynllun Hyder Anabledd (Lefel 1), sy'n helpu cyflogwyr i gymryd camau i wella'r ffordd y maent yn recriwtio, cadw a datblygu pobl anabl. Byddwn yn gweithio i gyflawni Lefel 2 y Cynllun yn 2020/21

Mae ein Polisi Hyfforddi a Datblygu ar gael i bob aelod o'r staff beth bynnag yw ei nodweddion gwarchodedig. Gellir gwneud addasiadau rhesymol hefyd i ddileu rhwystrau ar gyfer cymryd rhan yn ein rhaglenni dysgu a datblygu.

**Ymgynghori â'r Staff**
Rydym yn parhau i gydymffurfio â Rheoliadau Gwybodaeth ac Ymgynghori 2005, gan ymgynghori â staff, yn uniongyrchol a thrwy undebau cydnabyddedig, ar newidiadau mawr yn y sefydliad. Cynhelir cyfarfodydd Fforwm y Staff rhwng rheolwyr a chynrychiolwyr undebau llafur cydnabyddedig i drafod materion o bwys, a chaiff cofnodion y cyfarfodydd hyn eu hadrodd yn ffurfiol i'r Tîm Uwch-reolwyr. Mae'r Fforwm Iechyd a Diogelwch a sefydlwyd y llynedd, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r undebau llafur a rheolwyr, yn parhau i weithio'n dda.

Mae cynrychiolwyr o'r undebau a gydnabyddir gennym yn mynychu cyfarfodydd misol Grŵp Gweithredol y Staff, gan sicrhau amgylchedd clir ac agored. Ategir y gofyniad cyfreithiol hwn i ymgynghori gan amrywiol ddulliau, gan gynnwys cyfarfodydd staff, cyfarfodydd adrannol, gweithgorau, cyfathrebiadau dros yr e-bost a'r fewnrwyd, a dulliau anffurfiol o gyfathrebu fel y bo'n briodol. Mae croeso hefyd i gynrychiolwyr o'r undebau llafur a'r staff ddod i gyfarfodydd y Bwrdd Ymddiriedolwyr, sy'n agored i'r cyhoedd ac sy'n cael eu hysbysebu ar ein gwefan.

Rydym wedi parhau i weithio mewn partneriaeth â staff ac undebau llafur ar newidiadau i'r sefydliad, gan gynnwys mentrau newydd fel Buddsoddwyr mewn Pobl, newidiadau i strwythurau adrannau, a diwygiadau i bolisïau.

Mae sesiynau briffio staff rheolaidd wedi'u cynnal ar draws ein holl amgueddfeydd er mwyn hysbysu staff am waith ledled y sefydliad yn dilyn pob cyfarfod o'r Bwrdd Ymddiriedolwyr. Mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol hefyd yn anfon gohebiaeth reolaidd at y staff.

**Hyfforddiant Staff**
Rydym yn parhau i fuddsoddi amser ac adnoddau i gynnig cyfleoedd datblygu a hyfforddi, ffurfiol ac anffurfiol, i'r staff. Rydym wedi clustnodi statws Buddsoddwyr mewn Pobl fel ffon fesur allanol hollbwysig o'r ymrwymiad hwn, a chafodd grŵp llywio a oedd yn cynrychioli'r gweithlu ei greu i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn. Sicrhaodd yr Amgueddfa achrediad yn fuan ar ôl diwedd y flwyddyn.

Yn ystod 2019/20 rydym wedi cynnig hyfforddiant i'r staff mewn nifer fawr o feysydd. Mae'r rhain yn cynnwys datblygu arweinwyr a rheolwyr, datblygiad proffesiynol a hyfforddiant wedi'i seilio ar sgiliau. Rydym hefyd wedi parhau i gynnig cyrsiau mewn meysydd fel ymwybyddiaeth iechyd meddwl, ymwybyddiaeth ofalgar a gwydnwch yn ogystal â Chymorth Cyntaf Iechyd Meddwl. Rydym hefyd yn cynnig cyrsiau mewn meysydd fel

diogelu data, urddas yn y gweithle, cydraddoldeb ac amrywiaeth ac iechyd a diogelwch i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â’r ddeddfwriaeth berthynol, yn ogystal â chyfleoedd datblygu personol yn ôl yr angen.

Mae prentisiaethau'n parhau i gael eu cynnig yn Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru i hyfforddi Tywysyddion Pyllau Glo a Pheirianegwyr Mecanyddol a Thrydanol. Cafwyd lleoliadau hefyd yn yr Adran Ystadau a’r Uned Adeiladau Hanesyddol yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru i helpu i fynd i’r afael â phrinder sgiliau ac i weithredu cynlluniau olyniaeth yn y meysydd hyn. Mae’n Strategaeth Datblygu Pobl yn amlinellu sut y byddwn yn cynyddu nifer y prentisiaid ar draws y sefydliad dros y pum mlynedd nesaf.

**Data ar Absenoldeb Salwch**
Mae gennym bolisïau i gefnogi’r gwaith o reoli presenoldeb yn y gwaith. Mae pob absenoldeb yn cael ei gofnodi a’i fonitro gan reolwyr llinell a’r Adran Adnoddau Dynol. 3.14% neu 7.38 o ddiwrnodau oedd lefel yr absenoldeb ar gyfer y flwyddyn hyd 31 Mawrth 2020 (3.86% neu 8.17 o ddiwrnodau yn 2018/19). Rydym wedi gweithio gyda rheolwyr llinell i roi sylw i'r cyfraddau uchel o absenoldeb ac i gadw llygad barcut ar reolaeth presenoldeb er mwyn sicrhau bod ein polisïau, gan gynnwys cyfweliadau dychwelyd i'r gwaith, yn cael eu cynnal mewn modd cyson. Mae'r gostyngiad mewn absenoldeb eleni yn dilyn gostyngiad mwy sylweddol yn y flwyddyn flaenorol.

Yn 2019/2020 cymerodd yr Amgueddfa ran unwaith eto ym Mynegai Llesiant Mind ac rydym wedi gweithredu cynadleddau achos llesiant i'r rhai sydd â lefel uchel o absenoldeb, er mwyn edrych yn rhagweithiol ar ffyrdd i leihau absenoldebau drwy gymorth. Ymgorfforwyd Cynlluniau Gweithredu Llesiant hefyd yn ein rheolaeth ragweithiol ar absenoldeb ac afiechyd, gan roi pwyslais ar ymyrryd yn gynnar er mwyn atal pethau rhag mynd yn waeth.

I ategu’n prosesau rheoli presenoldeb a hybu llesiant staff, rydym yn cynnig Rhaglen Cymorth i Weithwyr, sef gwasanaeth annibynnol a chyfrinachol am ddim sydd ar gael i bob aelod o’r staff. Mae'r rhaglen yn cynnig cyngor, gwybodaeth, cwnsela arbenigol a chefnogaeth. Ymhlith y gwasanaethau a gynigir mae cwnsela dros y ffôn, adnoddau i reolwyr, cwnsela wyneb yn wyneb a gwasanaeth gwybodaeth ar-lein. Mae Ymgeleddwyr Iechyd Meddwl hefyd wedi’u penodi ar draws y sefydliad.

**Adroddiad ar Daliadau Cydnabyddiaeth**
Mae gennym strwythur cyflogau a graddfeydd y cytunwyd arno, a chyflwynwyd hwn er mwyn sicrhau bod pawb yn cael eu trin yn deg ac yn gyfartal. Mae’n cwmpasu pob gweithiwr cyflogedig, ac eithrio’r Cyfarwyddwr Cyffredinol, gan mai Llywodraeth Cymru sy’n cytuno ar delerau ac amodau ei benodiad ef.

Bob blwyddyn, rydym yn ystyried y pecyn cyflogau ac yn datblygu cynnig cylch cyflog, a gyflwynir i Lywodraeth Cymru i’w gymeradwyo ac sy’n sail i drafodaethau gyda’r undebau llafur cydnabyddedig. Mae pecyn cyflogau ac amodau diwygiedig ar gyfer y sefydliad cyfan, gan gynnwys y Cyfarwyddwr Cyffredinol, yn deillio o hyn. Rhaid cydymffurfio â’r pecyn hwn tan y cylch trafod nesaf. Mae cynyddrannau blynyddol o dan y cylch cyflog yn dibynnu ar y system o adolygiadau datblygiad personol.

Dangosir y cyfarwyddwyr ar dudalen 25. Mae rhagor o fanylion am eu taliadau a’u buddion pensiwn i’w gweld isod ac mae’r wybodaeth honno’n destun archwiliad. Nid oes unrhyw un o’r cyfarwyddwyr ar gytundeb tymor penodol, a chyflogir pob un, heblaw’r Cyfarwyddwr Cyffredinol, o dan amodau a thelerau safonol Amgueddfa Cymru. Mae unrhyw newidiadau

i amodau a thelerau'r Cyfarwyddwr Cyffredinol yn amodol ar gytundeb y Pwyllgor Penodiadau a Chyflogau a (lle y bo'n briodol) Llywodraeth Cymru. Datgelir y berthynas rhwng taliad y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog uchaf yn y sefydliad a thaliad canolrifol gweithlu'r sefydliad isod.

12 mis yw'r cyfnod rhybudd ar gyfer y Cyfarwyddwr Cyffredinol, a chwe mis fel arfer ar gyfer y cyfarwyddwyr eraill. Dyma ddyddiadau cychwyn cyflogaeth y gyfarwyddiaeth gyfredol, sef ein Tîm Uwch-reolwyr, fel cyfarwyddwyr:

| | |
|---|---|
| David Anderson (Cyfarwyddwr Cyffredinol) | 11 Hydref 2010 |
| Kath Davies | 6 Ionawr 2020 |
| Janice Lane | 3 Medi 2012 |
| Neil Wicks | 27 Mehefin 2011 |
| Nia Williams | 17 Hydref 2016 |

Mae ein trefniant dileu swyddi safonol yn cynnwys darpariaeth ar gyfer iawndal am derfynu swydd yn gynnar. Mae manylion unrhyw daliadau diswyddo a wnaed i weithwyr cyflogedig yn ystod y flwyddyn i'w gweld yn nodyn 8 i'r cyfrifon.

Mae'r costau gweithredu'n cynnwys £5,000 (£40,000 yn 2018/19) ar gyfer staff asiantaeth a £4,000 (£14,000 yn 2018/19) ar gyfer staff ymgynghorol. Ni chyflogwyd unrhyw unigolion yn 2019/20 na 2018/19 o dan drefniadau 'oddi ar y gyflogres' am fwy na £220 y dydd ac am gyfnod hwy na chwe mis.

Nid gweithiwr cyflogedig i Amgueddfa Cymru yw'r Llywydd. Ceir manylion cydnabyddiaeth ariannol y Llywydd ar dudalen 28 o'r adroddiad hwn

### Taliadau Cydnabyddiaeth a Buddion Pensiwn y Cyfarwyddwyr

**Cyfanswm Ffigur y Taliadau Cydnabyddiaeth**

| | Band cyflog 2019/20 (2018/19) £'000 | Band bonws 2019/20 (2018/19) £'000 | Buddion mewn da 2019/20 (2018/19) £'000 | Buddion pensiwn 2019/20 (2018/19) £'000 | **Cyfanswm y band 2019/20 (2018/19) £'000** |
|---|---|---|---|---|---|
| David Anderson<br>Cyfarwyddwr Cyffredinol | 100-105<br>(100-105) | -<br>- | -<br>- | 21<br>-22 | **125-130**<br>(125-130) |
| Neil Wicks<br>Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol | 80-85<br>(80-85) | -<br>- | -<br>- | 11<br>-10 | **95-100**<br>(90-95) |
| Janice Lane<br>Cyfarwyddwr Datblygu Orielau a Phrofiad Ymwelwyr | 75-80<br>(75-80) | -<br>- | -<br>- | 10<br>-9 | **85-90**<br>(85-90) |
| Richard Bevins<br>Cydgyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil | -<br>(10-15) | -<br>- | -<br>- | -<br>-3 | **-**<br>(10-15) |
| Diane Gwilt<br>Cydgyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil | -<br>(10-15) | -<br>- | -<br>- | -<br>-1 | **-**<br>(10-15) |
| Nia Williams<br>Cyfarwyddwr Addysg ac Ymgysylltu | 70-75<br>(65-70) | -<br>- | -<br>- | 8<br>-7 | **75-80**<br>(75-80) |
| Steve Burrow<br>Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil | -<br>(35-40) | -<br>- | -<br>- | -<br>-3 | **-**<br>(40-45) |
| Kath Davies<br>Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil | 15-20<br>- | -<br>- | -<br>- | 2<br>- | **20-25**<br>- |

Mae'r cyfarwyddwyr i gyd yn aelodau cyffredin o'r cynllun pensiwn. Cyfrifwyd gwerth y buddion pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn yn y tabl uchod gan ddilyn canllawiau Hysbysiad Pensiwn Cyflogwr 452 Swyddfa'r Cabinet, trwy luosi'r gwir gynnydd mewn pensiwn ag 20 ac ychwanegu'r gwir gynnydd mewn unrhyw gyfandaliad, heb gynnwys cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn. Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant nac unrhyw gynnydd neu ostyngiad oherwydd trosglwyddo hawliau pensiwn.

Cyflogwyd y cyfarwyddwyr trwy gydol 2019/20 a 2018/19, ac eithrio:

- Kath Davies a ddaeth i'w swydd ar 6 Ionawr 2020. Roedd ei henillion hi fel Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil yn cynnwys cyflog sylfaenol fel y'i nodir uchod. Roedd ei chyflog blynyddol fel Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil ar gyfer 2019/20 rhwng £75,000 ac £80,000
- Richard Bevins, a adawodd ei swydd ar 31 Mai 2018. Roedd ei enillion ef fel Cydgyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil yn cynnwys cyflog sylfaenol fel y'i nodir uchod. Roedd ei gyflog blynyddol fel Cydgyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil yn ystod 2018/19 rhwng £70,000 a £75,000.
- Diane Gwilt, a adawodd ei swydd ar 31 Mai 2018. Roedd ei henillion hi fel Cydgyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil yn cynnwys cyflog sylfaenol fel y'i nodir uchod. Roedd ei chyflog blynyddol fel Cydgyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil yn ystod 2018/19 rhwng £70,000 a £75,000.
- Steve Burrow a ddaeth i'w swydd ar 21 Mai 2018, ac a adawodd ei swydd ar 23 Rhagfyr 2018. Roedd ei enillion ef fel Cydgyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil yn cynnwys cyflog sylfaenol fel y'i nodir uchod. Roedd ei gyflog blynyddol fel Cydgyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil yn ystod 2018/19 rhwng £60,000 a £65,000.

Enillion y Cyfarwyddwr Cyffredinol oedd cyflog sylfaenol o £104,295 (£102,500 yn 2018/19).

**Buddion Pensiwn**

| | Cynnydd/ (gostyngiad) gwirioneddol mewn pensiwr a chyfandaliad perthnasol ar 60 oed £ | Pensiwn a gronnwyd ar 60 oed ar 31 Mawrth 2020 a chyfandaliad perthnasol £ | CETV ar 31 Mawrth 20 £'000 | CETV ar 31 Mawrth 19 neu ar ddyddiad penodi os yw'n hwyrach £'000 | Cynnydd/ (gostyngiad) gwirioneddol mewn CETV uwchlaw cyfraniadau aelodau £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| David Anderson<br>Cyfarwyddwr Cyffredinol | 0-2,500 a chyfandaliad 5,000-7,500 | 10,000-15,000 a chyfandaliad 40,000-45000 | 319 | 279 | 27 |
| Neil Wicks<br>Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol | 0-2,500 a chyfandaliad 5,000-7,500 | 35,000-40,000 a chyfandaliad 115,000-120,000 | 748 | 677 | 45 |
| Janice Lane<br>Cyfarwyddwr Datblygu Orielau a Phrofiad Ymwelwyr | 0-2,500 a chyfandaliad 2,500-5,000 | 25,000-30,000 a chyfandaliad 80,000-85,000 | 531 | 482 | 35 |
| Nia Williams<br>Cyfarwyddwr Addysg ac Ymgysylltu | 0-2,500 a chyfandaliad 2,500-5,000 | 15,000-20,000 a chyfandaliad 45,000-50,000 | 326 | 292 | 23 |
| Kath Davies<br>Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil | 0-2,500 a chyfandaliad 0-2,500 | 0-5,000 a chyfandaliad 0-5,000 | 4 | 0 | 2 |

Y gwerth trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod (CETV) yw gwerth cyfalaf buddion y cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar unrhyw adeg benodol yn ôl asesiad yr actwari. Mae'r cynnydd gwirioneddol yn y CETV yn adlewyrchu'r cynnydd a ariannwyd gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd yn y pensiwn a gronnwyd oherwydd chwyddiant, na chyfraniadau a dalwyd gan y gweithwyr cyflogedig (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun pensiwn arall).

**Nifer y Gweithwyr Cyflogedig**
Nifer cyfartalog y gweithwyr cyflogedig yn 2019/20, ac eithrio gweithwyr a oedd yn rhan o'n trefniadau cronfa lafur, oedd 676 (636 yn 2018/19). Y nifer cyfartalog, gan gynnwys gweithwyr a oedd yn rhan o'n trefniadau cronfa lafur, oedd 866 (850 yn 2018/19).

Roedd nifer cyfartalog y gweithwyr cyflogedig cyfwerth ag amser llawn, gan gynnwys gweithwyr a oedd yn rhan o'n trefniadau cronfa lafur, fel a ganlyn:

| | Staff Parhaol | Staff Eraill | **2019/20 Nifer** | 2018/19 Nifer |
|---|---|---|---|---|
| Is-gwmni Masnachu | 41 | 7 | **48** | 47 |
| Codi arian | 8 | 0 | **8** | 8 |
| Addysg ac Ymgysylltu | 33 | 8 | **41** | 46 |
| Casgliadau ac Ymchwil | 84 | 12 | **96** | 94 |
| Datblygu Orielau a Phrofiad Ymwelwyr | 270 | 44 | **314** | 302 |
| Cymorth | 57 | 6 | **63** | 56 |
| | 493 | 77 | **570** | 553 |

| | Staff Benyw | Staff Gwryw | **2019/20 Nifer** | 2018/19 Nifer |
|---|---|---|---|---|
| Cyfarwyddwyr | 2 | 2 | **4** | 5 |
| Gweithwyr cyflogedig | 286 | 280 | **566** | 548 |
| | 288 | 282 | **570** | 553 |

**Gweithwyr Cyflogedig (ac eithrio Cyfarwyddwyr) ag Enillion Dros £60,000**
Roedd naw gweithiwr cyflogedig (deg yn 2018/19) ag enillion rhwng £60,001 a £69,000 ar gyfer y flwyddyn a dau (un yn 2018/19) ag enillion rhwng £70,000 a £79,999. Mae pob un o'r gweithwyr cyflogedig hyn yn aelodau cyffredin o'n cynllun pensiwn. Nid oedd unrhyw weithwyr cyflogedig eraill yn ennill dros £60,000 ac eithrio'r cyfarwyddwyr, a datgelir eu henillion nhw uchod.

**Canolrif Tâl**
Mae'n ofynnol i Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru nodi'r berthynas rhwng tâl y cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf yn y sefydliad a chanolrif tâl gweithlu'r sefydliad. Graddfa tâl y Cyfarwyddwr Cyffredinol, sef y cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf yn 2019/20, oedd £100,000 – £105,000 (£100,000 – £105,000 yn ystod 2018/19). Roedd hyn 4.2 gwaith yn fwy (4.3 gwaith yn fwy yn 2018/19) na chanolrif tâl y gweithlu, sef £24,667 (£23,786 yn 2018/19). Ni wnaeth yr un gweithiwr cyflogedig dderbyn mwy o dâl na'r Cyfarwyddwr Cyffredinol yn 2019/20 na 2018/19. Roedd y tâl (heb gynnwys y cyfarwyddwyr) yn amrywio o £19,314 i £76,987 (£16,934 i £75,477 yn 2018/19). Mae cyfanswm y tâl yn cynnwys cyflog, tâl anghyfunol sy'n seiliedig ar berfformiad, a buddion mewn da. Nid yw'n cynnwys taliadau

diswyddo, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr, na'r gwerth trosglwyddo pensiwn sy'n gyfwerth ag arian parod. Nid yw gweithwyr a gyflogir yn unol â'n trefniadau cronfa lafur wedi'u cynnwys wrth gyfrifo'r canolrif cyflog.

| | **2019/20** | 2018/19 |
|---|---|---|
| Band yr Unigolyn â'r Tâl Uchaf | **100,000-105,000** | 10,000-105,000 |
| Cyfanswm y Canolrif | **24,667** | 23,786 |
| Cymhareb | **4.2** | 4.3 |

| | |
|---|---|
| *David Anderson*<br>Swyddog Cyfrifyddu a Chyfarwyddwr Cyffredinol | *Hywel John*<br>Trysorydd, ar ran y Bwrdd Ymddiriedolwyr |
| Cymeradwywyd a llofnodwyd ar 9 Hydref 2020 | Cymeradwywyd a llofnodwyd ar 9 Hydref 2020 |

## Adran 2.3: Adroddiad Archwilio

# Tystysgrif ac adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

## Adroddiad archwilio ar y datganiadau ariannol

**Barn**
Rwy'n tystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Amgueddfa Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020 o dan adran 9 o Ddeddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad Cyfunol o Weithgareddau Ariannol, y Fantolen Gyfunol, a'r Datganiad Llif Arian Cyfunol a'r nodiadau cysylltiedig, yn cynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu arwyddocaol. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a ddisgrifir ynddynt. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd i'w paratoi yw'r gyfraith gymwys a'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir (SORP) ar gyfer elusennau (FRS 102).

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun teg a chywir o gyflwr Amgueddfa Cymru ar 31 Mawrth 2020 a'i hincwm net, enillion a cholledion, a llif arian am y flwyddyn a ddaeth i ben; ac
- wedi'u paratoi'n gywir yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992.

**Sail y farn**
Cynheliais fy archwiliad yn unol â chyfraith berthnasol a Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (UK)). Mae fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny wedi'u disgrifio ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio datganiadau ariannol fy adroddiad. Rwy'n annibynnol ar y corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gesglais yn ddigonol a phriodol i ddarparu sail i fy marn.

**Casgliadau ynghylch busnes hyfyw**
Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd ar y materion canlynol o ran yr hyn y mae Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU) yn gofyn i mi eu hadrodd i chi:

- pan nad yw'r defnydd o ddull cyfrifyddu ar sail busnes hyfyw i baratoi datganiadau ariannol yn briodol; neu
- pan nad yw'r Swyddog Cyfrifyddu wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd o bwys a nodwyd a allai fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r corff i barhau i fabwysiadu'r dull cyfrifyddu ar sail busnes hyfyw am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad y cafodd y datganiadau ariannol eu hawdurdodi i'w defnyddio.

**Gwybodaeth arall**

Mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad blynyddol ac eithrio'r datganiadau ariannol a fy adroddiad archwilydd i ar y rhain. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac nid wyf

yn rhoi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arnynt ac eithrio i'r graddau a nodir yn benodol yn fy adroddiad.

O ran fy archwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall i nodi anghysonderau o bwys gyda'r datganiadau ariannol archwiliedig ac i nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos yn anghywir yn seiliedig ar y wybodaeth a gefais wrth gyflawni'r archwiliad neu sy'n anghyson â'r wybodaeth honno. Os deuaf yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysonderau o bwys, byddaf yn ystyried eu goblygiadau ar gyfer fy adroddiad.

**Barn ar reoleidd-dra**
Yn fy marn i, ym mhob ffordd o bwys, mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol sydd wedi'u cofnodi yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodiadau sy'n eu llywodraethu.

## Adroddiad ar ofynion eraill

**Barn ar faterion eraill**
Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad ar Daliadau Cydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n gywir yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wneir o dan Ddeddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992.

Yn fy marn i, ar sail y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a roddwyd yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi'i baratoi yn unol â chanllawiau Gweinidogion Cymru;
- mae'r wybodaeth a roddwyd yn yr Adroddiad Perfformiad ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Adroddiad Perfformiad wedi'i baratoi yn unol â Deddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992.

**Materion yr adroddaf arnynt gydag eithriad**
Yn sgil gwybodaeth am y corff a dealltwriaeth ohono a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau o bwys yn yr Adroddiad Perfformiad na'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd ynglŷn â'r materion canlynol yr wyf yn adrodd wrthych amdanynt os, yn fy marn i:

- nad yw cofnodion cyfrifyddu digonol wedi'u cadw;
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad ar Daliadau Cydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r datganiadau cyfrifyddu;
- nad yw gwybodaeth a bennir gan Weinidogion Cymru ynghylch cydnabyddiaeth ariannol a thrafodion eraill wedi'i datgelu; neu
- nad wyf wedi derbyn pob gwybodaeth ac esboniad sy'n ofynnol ar gyfer fy archwiliad.

**Adroddiad**
Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w cyflwyno ar y datganiadau ariannol hyn.

## Cyfrifoldebau

**Cyfrifoldebau y Swyddog Cyfrifyddu am y datganiadau ariannol**

Fel yr eglurwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Bwrdd Ymddiriedolwyr a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992 a chyfarwyddiadau a wneir gan Weinidogion Cymru oddi tani, am fod yn fodlon eu bod yn rhoi barn wir a theg, ac am y cyfryw reolaeth fewnol y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n penderfynu sydd ei hangen er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiad o bwys, boed trwy dwyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n gyfrifol am asesu gallu'r corff i barhau fel busnes hyfyw, gan ddatgelu fel y bo'n berthnasol faterion sy'n gysylltiedig â busnes hyfyw a defnyddio'r dull cyfrifyddu ar sail busnes hyfyw oni bai yr ystyrir bod hynny'n amhriodol.

**Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol**

Fy nod yw cael sicrwydd rhesymol am a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiad o bwys, boed drwy dwyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel sicrwydd uchel, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhaliwyd yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU) bob amser yn datgelu camddatganiad o bwys pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu gamgymeriad ac maent yn cael eu hystyried o bwys os gellid disgwyl yn rhesymol y byddent, ar eu pen eu hunain neu gyda'i gilydd, yn dylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wnaed ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o fy adroddiad fel archwilydd.

**Cyfrifoldebau am reoleidd-dra**

Mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n gyfrifol am sicrhau rheoleidd-dra trafodiadau ariannol.

Rwy'n casglu digon o dystiolaeth er mwyn cael sicrwydd rhesymol fod y gwariant a'r incwm wedi'u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodiadau sy'n eu llywodraethu.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
13 Hydref 2020

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Cyfrifoldeb y Swyddog Cyfrifyddu yw hygrededd gwefan Amgueddfa Cymru a'r gwaith o gynnal y wefan honno; nid yw'r gwaith a gyflawnir gan archwilwyr yn cynnwys ystyriaeth o'r materion hyn ac, yn unol â hynny, nid yw archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldebau am unrhyw newidiadau a allai fod wedi cael eu cyflwyno i'r datganiadau ariannol ers eu cyflwyno'n wreiddiol ar y wefan.

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio ac adrodd ar y cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Amgueddfa Cymru sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

## DATGANIAD CYFUNOL O WEITHGAREDDAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2020

| | Nodiadau | Cronfeydd Cyhoeddus Cyfyngedig £'000 | Cronfeydd Cyhoeddus Anghyfyngedig £'000 | Cronfeydd Preifat Cyfyngedig £'000 | Cronfeydd Preifat Anghyfyngedig £'000 | 2019/20 Cyfanswm £'000 | 2018/19 Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **INCWM A GWADDOLION O:** | | | | | | | |
| **Rhoddion a Chymynroddion** | | | | | | | |
| Grantiau | 3 | 1,957 | 23,633 | 0 | 0 | **25,590** | 24,566 |
| Rhoddion a Chymynroddion | 4 | 169 | 315 | 5,844 | 738 | **7,066** | 1,641 |
| | | **2,126** | **23,948** | **5,844** | **738** | **32,656** | 26,207 |
| **Gweithgareddau Masnachu Eraill** | 5 | **0** | **3,957** | **0** | **0** | **3,957** | 4,040 |
| **Incwm o Fuddsoddiadau** | | **0** | **0** | **84** | **26** | **110** | 113 |
| **Incwm Arall** | 6 | **0** | **1,577** | **32** | **10** | **1,619** | 1,569 |
| **CYFANSWM INCWM A GWADDOLION** | | **2,126** | **29,482** | **5,960** | **774** | **38,342** | 31,929 |
| **GWARIANT AR:** | 7&8 | | | | | | |
| **Codi Arian:** | | | | | | | |
| Gwariant ar Godi Rhoddion a Chymynroddion | | 0 | 674 | 7 | 92 | **773** | 691 |
| Gwariant ar Weithgareddau Masnachu Eraill | 5 | 0 | 3,182 | 0 | 0 | **3,182** | 3,143 |
| | | **0** | **3,856** | **7** | **92** | **3,955** | 3,834 |
| **Gweithgareddau Elusennol:** | | | | | | | |
| Addysg ac Ymgysylltu | | 154 | 3,051 | 24 | 5 | **3,234** | 2,997 |
| Casgliadau ac Ymchwil | | 822 | 6,582 | 224 | 4 | **7,632** | 7,808 |
| Datblygu Orielau a Phrofiad Ymwelwyr | | 763 | 15,602 | 14 | 11 | **16,390** | 15,866 |
| Llywodraethu | | 0 | 632 | 0 | 0 | **632** | 544 |
| | | **1,739** | **25,867** | **262** | **20** | **27,888** | 27,215 |
| **Arall:** | | | | | | | |
| **Costau Cyllid Pensiwn** | 17d | **0** | **686** | **0** | **0** | **686** | 910 |
| **CYFANSWM GWARIANT** | | **1,739** | **30,409** | **269** | **112** | **32,529** | 31,959 |
| **Cyfran o'r Fenter ar y cyd** | 9 | **(108)** | **0** | **0** | **0** | **(108)** | (108) |
| **(Colledion)/Enillion Net ar Fuddsoddiadau** | 12 | **0** | **0** | **(290)** | **(135)** | **(425)** | 164 |
| **INCWM/(GWARIANT) NET** | | **279** | **(927)** | **5,401** | **527** | **5,280** | 26 |
| **Trosglwyddiadau rhwng y Cronfeydd** | 18 | **2,500** | **0** | **(2,500)** | **0** | **0** | 0 |
| **ENILLION/(COLLEDION) ERAILL A GYDNABYDDIR:** | | | | | | | |
| Enillion ar ailbrisio asedau sefydlog | 10 | 3,483 | 23 | 39 | 12 | **3,557** | 1,622 |
| (Colledion)/Enillion Actiwaraidd ar y cynllun pensiwn â buddion diffiniedig | 17ch | 0 | (42,724) | 0 | 0 | **(42,724)** | 13,622 |
| **SYMUDIAD NET MEWN CRONFEYDD** | | **6,262** | **(43,628)** | **2,940** | **539** | **(33,887)** | 15,270 |
| **CYSONI CRONFEYDD OF :** | | | | | | | |
| **Cyfanswm y Cronfeydd a Ddygwyd Ymlaen** | 18 | **131,394** | **(16,830)** | **14,913** | **2,546** | **132,023** | 116,753 |
| **CYFANSWM Y CRONFEYDD A GARIWYD YMLAEN** | 18 | **137,656** | **(60,458)** | **17,853** | **3,085** | **98,136** | 132,023 |

**Mae'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol uchod yn cynnwys yr holl enillion a cholledion cydnabyddedig**

**Mae'r holl weithgareddau yn parhau.**

**Y gostyngiad net anghyfunol mewn cronfeydd a gofnodwyd yn Natganiad o Weithgareddau Ariannol Amgueddfa Cymru yn ystod 2019/20 oedd £33,907,000 (cynnydd o £15,279,000 yn 2018/19).**

**Mae'r nodiadau ar dudalennau 53 i 76 yn rhan o'r cyfrifon hyn.**

# MANTOLEN GYFUNOL AR 31 MAWRTH 2020

| | | Amgueddfa Cymru | | Wedi'u cyfuno | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **2020** | 2019 | **2020** | 2019 |
| | | **£'000** | £'000 | **£'000** | £'000 |
| | Nodiadau | | | | |
| **ASEDAU SEFYDLOG** | | | | | |
| Asedau Diriaethol | 10 | **115,895** | 110,331 | **115,988** | 110,397 |
| Asedau Treftadaeth | 11 | **29,978** | 24,110 | **29,978** | 24,110 |
| Cyfran o'r Fenter ar y Cyd: | 9 | | | | |
| Cyfran o'r asedau gros | | **9,126** | 9,234 | **9,126** | 9,234 |
| Cyfran o'r rhwymedigaethau gros | | **(2)** | (2) | **(2)** | (2) |
| | | **9,124** | 9,232 | **9,124** | 9,232 |
| Buddsoddiadau | 12 | **2,633** | 3,068 | **2,633** | 3,068 |
| | | **157,630** | 146,741 | **157,723** | 146,807 |
| **ASEDAU CYFREDOL** | | | | | |
| Stoc | 13 | **16** | 9 | **282** | 236 |
| Dyledwyr sy'n daladwy o fewn un flwyddyn | 14 | **4,534** | 4,644 | **3,538** | 2,939 |
| Buddsoddiadau | 20 | **799** | 791 | **799** | 791 |
| Arian yn y banc ac arian parod | 20 | **7,471** | 9,637 | **8,345** | 11,331 |
| | | **12,820** | 15,081 | **12,964** | 15,297 |
| **RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL** | | | | | |
| Credydwyr sy'n daladwy o fewn un flwyddyn | 15 | **(1,981)** | (3,854) | **(2,106)** | (4,044) |
| **ASEDAU CYFREDOL NET** | | **10,839** | 11,227 | **10,858** | 11,253 |
| **CYFANSWM YR ASEDAU LLAI'R RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL** | | **168,469** | 157,968 | **168,581** | 158,060 |
| **CREDYDWYR** | | | | | |
| Symiau sy'n ddyledus ar ol un flwyddyn | 16 | **(1,208)** | (500) | **(1,208)** | (500) |
| **ASEDAU NET HEB GYNNWYS RHWYMEDIGAETH Y CYNLLUN PENSIWN** | | **167,261** | 157,468 | **167,373** | 157,560 |
| Diffyg yn y cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio | 17a | **(69,237)** | (25,537) | **(69,237)** | (25,537) |
| **ASEDAU NET GAN GYNNWYS RHWYMEDIGAETH Y CYNLLUN PENSIWN** | | **98,024** | 131,931 | **98,136** | 132,023 |
| **CRONFEYDD** | 18 | | | | |
| Cronfeydd Cyhoeddus Cyfyngedig - Incwm | | **115,095** | 112,316 | **115,095** | 112,316 |
| Cronfeydd Cyhoeddus Cyfyngedig - Ailbrisio | | **22,561** | 19,078 | **22,561** | 19,078 |
| **Cyfanswm y Cronfeydd Cyhoeddus Cyfyngedig** | | **137,656** | 131,394 | **137,656** | 131,394 |
| Cronfeydd Cyhoeddus Anghyfyngedig - Incwm | | **8,579** | 8,550 | **8,691** | 8,642 |
| Cronfeydd Cyhoeddus Anghyfyngedig - Ailbrisio | | **88** | 65 | **88** | 65 |
| Cronfa bensiwn | | **(69,237)** | (25,537) | **(69,237)** | (25,537) |
| **Cyfanswm y Cronfeydd Cyhoeddus Anghyfyngedig** | | **(60,570)** | (16,922) | **(60,458)** | (16,830) |
| Cronfeydd Preifat Cyfyngedig - Incwm | | **17,537** | 14,636 | **17,537** | 14,636 |
| Cronfeydd Preifat Cyfyngedig - Ailbrisio | | **316** | 277 | **316** | 277 |
| **Cyfanswm y Cronfeydd Preifat Cyfyngedig** | | **17,853** | 14,913 | **17,853** | 14,913 |
| Cronfeydd Preifat Anghyfyngedig - Incwm | | **2,993** | 2,466 | **2,993** | 2,466 |
| Cronfeydd Preifat Anghyfyngedig - Ailbrisio | | **92** | 80 | **92** | 80 |
| **Cyfanswm y Cronfeydd Preifat Anghyfyngedig** | | **3,085** | 2,546 | **3,085** | 2,546 |
| | | **98,024** | 131,931 | **98,136** | 132,023 |

**Llofnodwyd ar ran yr Ymddiriedolwyr gan**

***David Anderson***
**Swyddog Cyfrifyddu a Chyfarwyddwr Cyffredinol**
**Cymeradwywyd a llofnodwyd ar 9 Hydref 2020**

***Hywel John***
**Trysorydd, ar ran y Bwrdd Ymddiriedolwyr**
**Cymeradwywyd a llofnodwyd ar 9 Hydref 2020**

**Mae'r nodiadau ar dudalennau 53 i 76 yn rhan o'r cyfrifon hyn.**

## DATGANIAD LLIF ARIAN CYFUNOL AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2020

| | | Datganiad Llif Arian Cyfunol | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Cronfeydd Cyhoeddus** | | **Cronfeydd Preifat** | | **2019/20** | 2018/19 |
| | | Cyfyngedig | Anghyfyngedig | Cyfyngedig | Anghyfyngedig | **Cyfanswm** | Cyfanswm |
| | Nodiadau | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | **£'000** | £'000 |
| **Mewnlif Arian Net o'r Gweithgareddau Gweithredu** | 19 | 2,136 | (797) | 244 | 670 | **2,253** | 2,297 |
| **Llifoedd Arian o Weithgareddau Buddsoddi:** | | | | | | | |
| Prynu asedau sefydlog diriaethol | | (3,729) | (786) | 0 | 0 | **(4,515)** | (2,068) |
| Prynu asedau treftadaeth | | (363) | (45) | 0 | 0 | **(408)** | (79) |
| Gwerthiant net buddsoddiadau | | 0 | 0 | 8 | 2 | **10** | 41 |
| **Arian Net a ddarparwyd gan/(a ddefnyddiwyd yn) y Gweithgareddau Buddsoddi** | | **(4,092)** | **(831)** | **8** | **2** | **(4,913)** | (2,106) |
| **Llifoedd Arian o'r Gweithgareddau Ariannu:** | | | | | | | |
| Ad-dalu benthyciadau | | 0 | (1,342) | 0 | 0 | **(1,342)** | (306) |
| Mewnlif arian o fenthyciadau newydd | | 0 | 1,024 | 0 | 0 | **1,024** | 29 |
| **Arian Net a ddarparwyd gan/(a ddefnyddiwyd yn) y Gweithgareddau Ariannu** | | **0** | **(318)** | **0** | **0** | **(318)** | (277) |
| **Trosglwyddiadau rhwng y Cronfeydd** | | **2,500** | 0 | **(2,500)** | 0 | **0** | 0 |
| **Cynnydd/(Gostyngiad) mewn Arian** | | **544** | **(1,946)** | **(2,248)** | **672** | **(2,978)** | (86) |
| **Arian a symiau cyfwerth ag arian ar ddechrau'r flwyddyn** | | **(1,810)** | **6,685** | **5,522** | **1,725** | **12,122** | 12,208 |
| **Arian a symiau cyfwerth ag arian ar ddiwedd y flwyddyn** | 20 | **(1,266)** | **4,739** | **3,274** | **2,397** | **9,144** | 12,122 |

| | | Datganiad Llif Arian Amgueddfa Cymru | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Cronfeydd Cyhoeddus** | | **Cronfeydd Preifat** | | **2019/20** | 2018/19 |
| | | Cyfyngedig | Anghyfyngedig | Cyfyngedig | Anghyfyngedig | **Total** | Cyfanswm |
| | Nodiadau | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | **£'000** | £'000 |
| **Mewnlif Arian Net o'r Gweithgareddau Gweithredu** | 19 | 2,137 | (33) | 244 | 670 | **3,018** | 1,418 |
| **Llifoedd Arian o Weithgareddau Buddsoddi:** | | | | | | | |
| Prynu asedau sefydlog diriaethol | | (3,730) | (729) | 0 | 0 | **(4,459)** | (2,053) |
| Prynu asedau treftadaeth | | (363) | (45) | 0 | 0 | **(408)** | (79) |
| Gwerthiant net buddsoddiadau | | 0 | 0 | 8 | 2 | **10** | 41 |
| **Arian Net a ddarparwyd gan/(a ddefnyddiwyd yn) y Gweithgareddau Buddsoddi** | | **(4,093)** | **(774)** | **8** | **2** | **(4,857)** | (2,091) |
| **Llifoedd Arian o'r Gweithgareddau Ariannu:** | | | | | | | |
| Ad-dalu benthyciadau | | 0 | (1,342) | 0 | 0 | **(1,342)** | (306) |
| Mewnlif arian o fenthyciadau newydd | | 0 | 1,024 | 0 | 0 | 1,024 | 29 |
| **Arian Net a ddarparwyd gan/(a ddefnyddiwyd yn) y Gweithgareddau Ariannu** | | **0** | **(318)** | **0** | **0** | **(318)** | (277) |
| **Trosglwyddiadau rhwng y Cronfeydd** | | **2,500** | **0** | **(2,500)** | **0** | **0** | 0 |
| **(Gostyngiad)/Cynnydd mewn Arian** | | **544** | **(1,125)** | **(2,248)** | **672** | **(2,157)** | (950) |
| **Arian a symiau cyfwerth ag arian ar ddechrau'r flwyddyn** | | **(1,810)** | **4,991** | **5,522** | **1,725** | **10,428** | 11,378 |
| **Arian a symiau cyfwerth ag arian ar ddiwedd y flwyddyn** | 20 | **(1,266)** | **3,866** | **3,274** | **2,397** | **8,271** | 10,428 |

**Mae'r nodiadau ar dudalennau 53 i 76 yn rhan o'r cyfrifon hyn.**

# Nodiadau i'r Cyfrifon ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben ar 31 Mawrth 2020

## 1. Polisïau Cyfrifyddu

### 1.1 Y Sail Cyfrifyddu

Paratowyd y Cyfrifon o dan y confensiwn cost hanesyddol, a addaswyd i gynnwys ailbrisiad o rai asedau sefydlog diriaethol ar sail eu gwerth i Amgueddfa Cymru. Fe'u paratowyd ar y sail croniadau yn unol â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru gyda chaniatâd y Trysorlys. Heb gyfyngu ar yr wybodaeth a roddir, mae'r cyfrifon yn bodloni gofynion cyfrifyddu a datgelu'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar gyfer Elusennau (FRS102), a gyhoeddwyd gan Gomisiynwyr Elusennau Cymru a Lloegr, a'r datganiadau cyfrifyddu a gyhoeddwyd neu a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu, i'r graddau y bo'r gofynion hynny'n briodol. Mae Trysorlys Ei Mawrhydi wedi cadarnhau y gallai'r eithriadau yn y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar gyfer Elusennau (FRS102) fod yn berthnasol o ran yr angen i ddatgelu cost hanesyddol asedau sefydlog diriaethol.

### 1.2 Ymgymeriadau'r Fenter ar y Cyd

Mae Amgueddfa Cymru a Dinas a Sir Abertawe yn ddau aelod cyfartal yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau Abertawe (AGGA Cyf), cwmni cyfyngedig dan warant heb gyfalaf cyfrannau. Mae canlyniadau'r fenter ar y cyd wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol ac fe'u cyfrifwyd gan ddefnyddio'r dull ecwiti o gyfrifyddu. Cymeradwywyd cyfrifon AGGA Cyf ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020 a chafwyd barn archwilio ddiamod. Mae copi ar gael o'n pencadlys yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NP.

### 1.3 Ymgymeriadau'r Is-gwmni

Rydym yn gweithredu is-gwmni masnachu sy'n llwyr eiddo i ni o'r enw Mentrau Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru (AOCC) Cyf, rhif cwmni 02449244, sydd wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr. Mae canlyniadau masnachu'r cwmni wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol cyfunol gan ddefnyddio'r dull 'fesul llinell'. Mae cyfrifon Mentrau AOCC Cyf ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020 wedi'u cymeradwyo a derbyniwyd barn archwilio ddiamod. Mae copi ar gael o'n pencadlys yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NP.

### 1.4 Incwm ac Adnoddau

Caiff yr holl incwm ei gydnabod yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol os bodlonwyd yr amodau ar gyfer ei dderbyn. Caiff unrhyw grantiau eu credydu ar sail eu derbyn, gan ohirio unrhyw incwm sydd heb ei wario nad yw'n gymorth grant tan y flwyddyn ganlynol. Caiff incwm ar gyfer gwasanaethau ei gredydu wrth ddarparu'r gwasanaeth. Rhoddir cyfrif am roddion a chymynroddion os tybir eu bod yn debygol o fod wedi'u derbyn, fel y diffinnir yn FRS102.

### 1.5 Gwariant

Caiff gwariant ei ddosrannu ar draws penawdau gwariant ar sail dyraniad uniongyrchol a dosraniad anuniongyrchol yn achos costau cymorth fel y bo'n briodol. Mae gwariant ar Sicrhau Rhoddion a Chymynroddion yn cynnwys pob gwariant sy'n gysylltiedig â chodi arian. Mae gwariant ar Weithgareddau Masnachu Eraill yn cynnwys pob gwariant sy'n

gysylltiedig â’r is-gwmni masnachu. Mae gwariant ar weithgareddau elusennol yn cynnwys pob gwariant sy’n gysylltiedig â dysgu ac ymgysylltu; casgliadau ac ymchwil; datblygu orielau a phrofiad ymwelwyr; a llywodraethu. Mae’r costau llywodraethu yn cynnwys yr holl wariant sy’n gysylltiedig â chynllunio corfforaethol a strategol, gwaith y bwrdd a’r pwyllgorau, cyswllt â Llywodraeth Cymru, archwilio mewnol ac allanol, rheoli risg ac adroddiadau statudol, a gwaith cyfrifon.

Mae’r sail ar gyfer dyrannu costau cymorth fel a ganlyn: dyrennir marchnata, cysylltiadau cyhoeddus a’r wasg yn ôl amser canrannol; dyrennir cyllid fesul cyfanswm incwm a chyfanswm gwariant; dyrennir TGCh yn ôl nifer y defnyddwyr cyfrifiaduron; a dyrennir Adnoddau Dynol yn ôl nifer y gweithwyr cyflogedig cyfwerth ag amser llawn.

**1.6 Asedau Sefydlog Diriaethol**
Mae’r holl eitemau cyfalaf sy’n costio mwy na £10,000 wedi’u cyfalafu. Nid yw eitemau cyfalaf sy’n costio llai na £10,000 yn cael eu cyfalafu, a chânt eu dileu yn ystod y flwyddyn. Cyn 1 Ebrill 2014, roedd eitemau cyfalaf a oedd yn costio mwy na £5,000 yn cael eu cyfalafu.

Mae asedau tir ac adeiladau yn cael eu prisio’n broffesiynol bob pum mlynedd ar sail eu gwerth cyfredol o ran y defnydd presennol ohonynt, gan dybio y byddai eiddo’n cael ei werthu fel rhan o fusnes parhaus ac yn cael ei ailbrisio trwy ddefnyddio mynegai yn y cyfamser. Caiff enillion adbrisio eu cydnabod yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol o dan Enillion/(colledion) ar ailbrisio asedau sefydlog, ac eithrio i’r graddau y maent yn gwrthbwyso unrhyw wariant a ddilëwyd yn flaenorol yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol. Os felly, caiff yr enillion eu dirymu o dan bennawd y gwariant perthnasol. Caiff colledion ailbrisio eu cydnabod fel traul o dan y pennawd gwariant perthnasol yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol ac eithrio i’r graddau y maent yn gwrthbwyso unrhyw enillion ailbrisio blaenorol. Os felly, dangosir y golled o dan Enillion/(colledion) ar yr ailbrisiad o asedau sefydlog. Caiff unrhyw waith cynnal a chadw bob dydd mewn perthynas â’r eiddo hwn ei ddiddymu yn ystod y flwyddyn y cyflawnir y gwaith.

Mae asedau nad ydynt yn ymwneud ag eiddo (h.y. offer a cherbydau, a gosodiadau, ffitiadau a chyfarpar) yn cael eu cadw ar sail cost hanesyddol (neu’r gost ailbrisio cyn 1 Ebrill 2010), ac nid ydynt yn cael eu mynegeio gan mai bywydau economaidd defnyddiol byr neu werthoedd isel (neu'r ddau) sydd gan yr asedau hyn.

Cynhelir adolygiad amhariad blynyddol gan y rheolwyr.

**1.7 Asedau Treftadaeth**
Diffinnir asedau treftadaeth fel asedau o bwys hanesyddol, celfyddydol neu wyddonol sy’n cael eu cadw at ddibenion hyrwyddo amcanion cadw, cadwraeth ac addysgiadol elusennau, ac sy’n cyfrannu trwy fynediad cyhoeddus at ddiwylliant ac addysg y genedl ar raddfa genedlaethol neu leol. Mae’r asedau hyn yn ganolog i’r gwaith o gyflawni ein hamcanion ac maent yn cynnwys tir, adeiladau, arddangosiadau ac arteffactau. Ers 1 Ebrill 2001, mae asedau treftadaeth a brynwyd gennym neu a gyflwynwyd i ni sydd â gwerth unigol o £5,000 neu fwy, neu £10,000 neu fwy o 1 Ebrill 2014 ymlaen, wedi'u cyfalafu ar sail cost/prisiad hanesyddol. Yn unol â chyfarwyddyd cyfrifon y Trysorlys, nid yw’r asedau a gafwyd cyn 1 Ebrill 2001 wedi'u cyfalafu ac, ym marn yr ymddiriedolwyr, ni ellir cyfiawnhau cost sylweddol prisio’r casgliad anferth hwn o asedau treftadaeth (tua 5.3 miliwn o eitemau) ar sail cost/budd. Mae asedau a gyfrannwyd neu a ran-gyfrannwyd yn

cael eu prisio gan gyfeirio at anfonebau neu ddogfennau eraill os ydynt ar gael, ac fel arall gan staff curadurol.

**1.8 Dibrisiant**
Caiff dibrisiant ei godi ar asedau sefydlog diriaethol (ac eithrio asedau tir a threftadaeth). Mae'r prif gyfraddau, gan ddefnyddio'r dull llinell syth, fel a ganlyn:

- Caiff adeiladau rhydd-ddaliadol ac eiddo ar brydlesi hir eu dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol, sef rhwng 50 a 125 mlynedd.
- Fel y caniateir gan y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar gyfer Elusennau (FRS102), nid yw asedau treftadaeth yn cael eu dibrisio. Barn yr ymddiriedolwyr yw bod gwerth gweddilliol gweithiau celf yn uwch na'r gwerth cadw ac mae oes ddefnyddiol ddisgwyliedig asedau treftadaeth eraill mor hir nad yw dibrisiant o bwys.
- Bydd peiriannau, cyfarpar, ffitiadau a gosodiadau'n dibrisio dros gyfnod o rhwng pum a deng mlynedd. Yn achos eitemau penodol sy'n destun newidiadau technegol neu lle bo ffactor darfodol uchel, caiff cyfnod o dair blynedd ei ddefnyddio. Mae'n bosibl y bydd gan rai eitemau penodol eraill gyfnod dibrisio hirach.
- Codir tâl am asedau ar brydles ar sail llinell syth dros dymor y brydles.

**1.9 Cronfeydd**
Mae cronfeydd cyhoeddus a phreifat anghyfyngedig ar gael i'w defnyddio, yn ôl disgresiwn yr ymddiriedolwyr, i hyrwyddo ein hamcanion cyffredinol.

Y cronfeydd cyfyngedig cyhoeddus yw'r grantiau cyfalaf a'r grantiau prynu eitemau a geir gan Lywodraeth Cymru a chyrff eraill y llywodraeth.

Cronfeydd sy'n dibynnu ar gyfyngiadau penodol a osodir gan roddwyr yw'r cronfeydd preifat cyfyngedig a rhaid eu defnyddio yn unol â'r cyfarwyddiadau a gafwyd wrth eu sefydlu.

Mae cronfeydd ailbrisio yn cynrychioli enillion/colledion cronnus ar ailbrisio asedau sefydlog sy'n codi o 1 Ebrill 2011 ymlaen.

Gellir trosglwyddo arian rhwng cronfeydd ar yr amod mai at ddibenion a bennwyd gan y rhoddwr neu'r corff dyrannu grant yn unig y defnyddir cronfeydd cyfyngedig.

**1.10 Stoc**
Rydym yn cadw stoc o gyhoeddiadau ac eitemau eraill i'w gwerthu yn ein siopau. Mae'r rhain yn cael eu prisio ar isafswm y gost a'r gwerth gwireddadwy net.

**1.11 Buddsoddiadau**
Dangosir buddsoddiadau yn ôl eu gwerth ar y farchnad. Ein polisi yw cadw cofnodion prisio yn gyfredol, felly pan fo buddsoddiadau'n cael eu gwerthu, nid oes enillion na cholledion mewn perthynas â blynyddoedd blaenorol. O ganlyniad, nid yw'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol yn gwahaniaethu rhwng addasiadau prisio yn ymwneud â gwerthiant a'r rhai yn ymwneud â daliannau sy'n parhau am eu bod yn cael eu trin fel newidiadau yng ngwerth y portffolio buddsoddiad trwy gydol y flwyddyn.

**1.12 Croniadau Gwyliau Staff**
Rydym yn cydnabod croniadau o hawliau gwyliau staff nas cymerwyd hyd yma ar ddiwedd y flwyddyn, sy'n cael eu cario ymlaen i'r flwyddyn ganlynol.

**1.13 Ymchwilio a Datblygu**
Caiff gwariant ar ymchwilio a datblygu ei osod yn erbyn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol ar gyfer y flwyddyn dan sylw.

**1.14 Trethiant**
Mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi wedi rhoi statws elusen i ni, ond codir treth gorfforaeth ar Mentrau AOCC Cyf.

**1.15 Pensiynau**
Caiff cyfraniadau at Gynllun Pensiwn Amgueddfa Cymru eu codi yn erbyn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol er mwyn gwasgaru cost pensiynau dros fywyd gwaith y gweithwyr. Mae'r tâl a godir ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol yn seiliedig ar gost y gwasanaeth cyfredol fel y'i cyfrifwyd gan actwari'r cynllun.

**1.16 Asedau a Rhwymedigaethau Amodol**
Nid yw asedau a rhwymedigaethau amodol wedi'u cronni yn y datganiadau cyfrifyddu. Caiff rhwymedigaethau amodol o ran unrhyw hawliau cyfreithiol lle nad oes yswiriant eu cydnabod mewn nodyn i'r cyfrifon, yn yr un modd ag unrhyw asedau a rhwymedigaethau amodol eraill o bwys.

**1.17 Costau Taliadau Diswyddo**
Caiff taliadau diswyddo a delir yn rhan o'r Cytundeb Dileu Swyddi a Diswyddiadau Cynnar a'r Cynllun Ymddiswyddo â Sicrwydd Cydfuddiannol eu cydnabod yn y cyfnod cyfrifyddu y cafodd y tâl diswyddo ei gymeradwyo'n ffurfiol ynddo a'i gytuno gyda'r gweithiwr cyflogedig.

**1.18 Offerynnau Ariannol**
Nid yw dyledion masnach yn cynnwys unrhyw log ac maent wedi'u nodi ar eu gwerth enwol a'u gostwng yn ôl lwfansau priodol ar gyfer symiau amcangyfrifedig na ellir eu hadennill.

Mae arian yn cynnwys arian parod ac arian mewn banc dros gyfnod byr ar delerau dim rhybudd. Caiff arian a gedwir am gyfnod byr nad yw ar delerau dim rhybudd ei gynnwys yn y buddsoddiadau asedau cyfredol.

Nid yw'r llog wedi'i osod ar gredydau masnach, a chânt eu nodi ar eu gwerth enwol. Cydnabyddir rhwymedigaethau unwaith y bydd rhwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol i wneud taliad i drydydd parti. Yn ôl pob tebyg, bydd angen setliad a gellir mesur swm y rhwymedigaeth mewn modd dibynadwy.

**1.19 Darpariaethau**
Pan fydd naill ai amseru neu swm y gwariant sydd ei angen yn y dyfodol i setlo'r rhwymedigaeth yn ansicr, caiff ei gydnabod fel darpariaeth yn hytrach na chredydwr. Y swm a gydnabyddir fel darpariaeth yw'r amcangyfrif gorau o'r gwariant sydd ei angen i setlo neu i'w drosglwyddo i drydydd parti ar y dyddiad adrodd. Nodir darpariaethau ar eu gwerth enwol.

## 2. Datganiad o Weithgareddau Ariannol Cymharol

| | Nodiadau | Cronfeydd Cyhoeddus Cyfyngedig £'000 | Cronfeydd Cyhoeddus Anghyfyngedig £'000 | Cronfeydd Preifat Cyfyngedig £'000 | Cronfeydd Preifat Anghyfyngedig £'000 | 2018/19 Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **INCWM A GWADDOLION O:** | | | | | | |
| Rhoddion a Chymynroddion | | | | | | |
| Grantiau | 3 | 1,223 | 23,343 | 0 | 0 | **24,566** |
| Rhoddion a Chymynroddion | 4 | 5 | 0 | 1,033 | 603 | **1,641** |
| | | **1,228** | **23,343** | **1,033** | **603** | **26,207** |
| **Gweithgareddau Masnachu eraill** | 5 | **0** | **4,040** | **0** | **0** | **4,040** |
| **Incwm o Fuddsoddiadau** | | | | **92** | **21** | **113** |
| **Incwm Arall** | 6 | **0** | **1,534** | **30** | **5** | **1,569** |
| **CYFANSWM INCWM A GWADDOLION** | | **1,228** | **28,917** | **1,155** | **629** | **31,929** |
| **GWARIANT AR:** | 7&8 | | | | | |
| **Codi arian** | | | | | | |
| Gwariant ar Godi Rhoddion a Chymynroddion | | 0 | 598 | 29 | 64 | **691** |
| Gwariant ar Weithgareddau Masnachu Eraill | 5 | 0 | 3,143 | 0 | 0 | **3,143** |
| | | **0** | **3,741** | **29** | **64** | **3,834** |
| Gweithgareddau Elusennol: | | | | | | |
| Addysg ac Ymgysylltu | | 200 | 2,777 | 19 | 1 | **2,997** |
| Casgliadau ac Ymchwil | | 1,149 | 6,511 | 144 | 4 | **7,808** |
| Datblygu Orielau a Phrofiad Ymwelwyr | | 989 | 14,772 | 93 | 12 | **15,866** |
| Llywodraethu | | 0 | 544 | 0 | 0 | **544** |
| | | **2,338** | **24,604** | **256** | **17** | **27,215** |
| **Arall:** | | | | | | |
| **Costau Cyllid Pensiwn** | 18e | **0** | **910** | **0** | **0** | **910** |
| **CYFANSWM GWARIANT** | | **2,338** | **29,255** | **285** | **81** | **31,959** |
| **Cyfran o fenter ar y cyd** | 9 | **(108)** | **0** | **0** | **0** | **(108)** |
| **Enillion Net ar Fuddsoddiadau** | 12 | **0** | **0** | **134** | **30** | **164** |
| **INCWM/GWARIANT NET** | | **(1,218)** | **(338)** | **1,004** | **578** | **26** |
| ENILLION/(COLLEDION) ERAILL A GYDNABYDDIR: | | | | | | |
| Enillion ar ailbrisio asedau sefydlog | 10 | 1,592 | 7 | 18 | 5 | **1,622** |
| (Colledion) Actiwaraidd ar y cynllun pensiwn â buddion diffiniedi | 18d | 0 | 13,622 | 0 | 0 | **13,622** |
| SYMUDIAD NET MEWN CRONFEYDD | | **374** | **13,291** | **1,022** | **583** | **15,270** |
| CYSONI CRONFEYDD: | | | | | | |
| Cyfanswm y Cronfeydd a Ddygwyd Ymlaen | 19 | **131,020** | **(30,121)** | **13,891** | **1,963** | **116,753** |
| CYFANSWM Y CRONFEYDD A GARIWYD YMLAEN | 19 | **131,394** | **(16,830)** | **14,913** | **2,546** | **132,023** |

## 3. Grantiau Derbyniadwy

| | Cyhoeddus Cyfyngedig £'000 | Cyhoeddus Anghyfyngedig £'000 | **2019/20 £'000** | 2018/19 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Cymorth Grant Refeniw | 0 | 22,640 | **22,640** | 22,326 |
| Cymorth Grant Prynu Sbesimenau | 269 | 0 | **269** | 269 |
| Cymorth Grant Cyfalaf | 1,517 | 0 | **1,517** | 830 |
| Grantiau eraill gan y llywodraeth | 171 | 993 | **1,164** | 1,141 |
| | **1,957** | **23,633** | **25,590** | 24,566 |

Cawsom gyfanswm o £24,426,000 (£23,425,000 in 2018/19) mewn cymorth grant gan Lywodraeth Cymru, sy'n cynnwys y Refeniw, Prynu Eitemau a Chymorth Grant Cyfalaf.

Roedd grantiau eraill y llywodraeth yn cynnwys £642,000 o Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol (£607,000 yn 2018/19), gyda £121,000 ohono ar gyfer project ailddatblygu Sain Ffagan, gan gynnwys £55,000 a gydnabuwyd dan gronfeydd cyfyngedig cyhoeddus a £66,000 dan gronfeydd anghyfyngedig cyhoeddus, yn cyfateb i'r dyraniad gwariant project i'r cronfeydd hynny. Roedd grantiau eraill gan y llywodraeth hefyd yn cynnwys £369,000 mewn grantiau gan Lywodraeth Cymru (£429,000 yn 2018/19), grant o £22,000 gan Gyngor Caerdydd (£105,000 yn 2018/19), a grant o £131,000 gan Lywodraeth y DU o dan Gynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws (£dim yn 2018/19).

## 4. Rhoddion a Chymynroddion

| | Cronfeydd Cyhoeddus | | Cronfeydd Preifat | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfyngedig £'000 | Anghyfyngedig £'000 | Cyfyngedig £'000 | Anghyfyngedig £'000 | **2019/20 £'000** | 2018/19 £'000 |
| Asedau a gyfrannwyd | 0 | 0 | 5,460 | 0 | **5,460** | 649 |
| Cymynroddion | 0 | 0 | 94 | 25 | **119** | 1 |
| Rhoddion eraill | 169 | 315 | 290 | 713 | **1,487** | 991 |
| | **169** | **315** | **5,844** | **738** | **7,066** | 1,641 |

Mae'r asedau a gyfrannwyd yn cynnwys asedau treftadaeth gwerth £5,460,000 (gweler nodyn 11 i gael rhagor o fanylion). Cafodd pob prisiad o asedau a gyfrannwyd (neu a ran-gyfrannwyd) yn ystod y flwyddyn flaenorol ei gynnal gan staff curadol neu staff cymwys eraill, neu drwy gyfeirio at anfonebau / gohebiaeth derbyn 'in lieu'.

Roedd y rhoddion eraill yn cynnwys rhoddion gan ymddiriedolaethau a sefydliadau a dderbyniwyd fel cyfraniadau tuag at brynu sbesimenau, project ailddatblygu Sain Ffagan, a phrojectau eraill. Roedd y rhain yn cynnwys £375,000 gan chwaraewyr Loteri Cod Post y Bobl (£375,000 yn 2018/19), £300,000 gan Sefydliad Paul Hamlyn (£dim yn 2018/19), a £150,000 gan Sefydliad Clore Duffield (£100,000 yn 2018/19). (Cawsom roddion yn 2018/19 hefyd o £200,000 gan Sefydliad Hodge.)

## 5. Is-gwmni Masnachu

Mae gennym un is-gwmni masnachu sy'n llwyr eiddo i ni, ac sy'n gwmni corfforedig yn y DU. Prif weithgareddau Mentrau AOCC Cyf yw gwerthu nwyddau yn ein holl siopau, arlwyo, parcio, trwyddedu delweddau, llogi corfforaethol, gosod eiddo, archebion trwy'r post, derbyniadau o werthu arddangosfeydd neu eu rhoi ar fenthyg, a hawliau ffilmio. Mae Mentrau AOCC Cyf yn dychwelyd ei elw i ni ar ffurf cymorth rhodd. Ceir crynodeb o ganlyniadau'r cwmni isod.

| | **2019/20** | 2018/19 |
|---|---|---|
| | **£ '000** | £ '000 |
| Trosiant | **3,656** | 3,721 |
| Cost gwerthiannau | **(2,769)** | (2,728) |
| **Elw Gros** | **887** | 993 |
| Treuliau gweinyddol | **(404)** | (406) |
| Incwm gweithredu arall | **284** | 306 |
| **Elw ar weithgareddau arferol cyn llog** | **767** | 893 |
| Llog derbyniadwy | **16** | 13 |
| Llog taladwy | **(8)** | (8) |
| **Elw ar weithgareddau arferol cyn treth** | **775** | 898 |
| Treth ar elw gweithgareddau arferol | **0** | 0 |
| **Elw ar gyfer y flwyddyn ariannol** | **775** | 898 |
| Rhodd Cymorth sy'n daladwy i'r Amgueddfa | **(755)** | (907) |
| **Elw a gadwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol** | **20** | (9) |
| | | |
| Cyfanswm Asedau | **1,420** | 2,213 |
| Cyfanswm Rhwymedigaethau | **(1,307)** | (2,120) |
| **Cronfeydd cyfranddalwyr** | **113** | 93 |

Mae'r Datganiad Cyfunol o Weithgareddau Ariannol yn cynnwys trosiant yr is-gwmni, incwm gweithredu arall a llog derbyniadwy fel incwm o is-gwmni masnachu, a chost gwerthiannau, costau gweinyddol a llog taladwy fel costau'r is-gwmni masnachu.

## 6. Incwm Arall

| | Cronfeydd Cyhoeddus | | Cronfeydd Preifat | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfyngedig | Anghyfyngedig | Cyfyngedig | Anghyfyngedig | **2019/20** | 2018/19 |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | **£'000** | £'000 |
| Dysgu ac Ymgysylltu | 0 | 199 | 0 | 0 | **199** | 261 |
| Casgliadau ac Ymchwil | 0 | 303 | 0 | 0 | **303** | 330 |
| Datblygu Orielau a Phrofiad Ymwelwyr | 0 | 906 | 0 | 0 | **906** | 794 |
| Cymorth | 0 | 169 | 32 | 10 | **211** | 184 |
| | **0** | **1,577** | **32** | **10** | **1,619** | 1,569 |

## 7. Cyfanswm y Gwariant

### (a) Amgueddfa Cymru

| | Costau Uniongyrchol | Dibrisiant | Costau Cymorth Marchnata, y Wasg a PR | Cyllid | TGCh | Adnoddau Dynol | **2019/20** | 2018/19 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | **£'000** | £'000 |
| **Gwariant ar Godi Arian** | | | | | | | | |
| Codi Rhoddion a Chymynroddion | 676 | 0 | 26 | 17 | 27 | 27 | **773** | 691 |
| | 676 | 0 | 26 | 17 | 27 | 27 | **773** | 691 |
| **Gwariant ar Weithgareddau Elusennol** | | | | | | | | |
| Dysgu ac Ymgysylltu | 2,801 | 187 | 67 | 44 | 68 | 67 | **3,234** | 2,997 |
| Casgliadau ac Ymchwil | 6,059 | 877 | 189 | 124 | 193 | 190 | **7,632** | 7,808 |
| Datblygu Orielau a Phrofiad Ymwelwyr | 14,309 | 921 | 358 | 235 | 366 | 360 | **16,549** | 16,025 |
| Llywodraethu | 437 | 0 | 53 | 35 | 54 | 53 | **632** | 544 |
| | 23,606 | 1,985 | 667 | 438 | 681 | 670 | **28,047** | 27,374 |
| **Costau Cyllid Pensiwn** | 686 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **686** | 910 |
| **Cyfanswm Gwariant** | **24,968** | **1,985** | **693** | **455** | **708** | **697** | **29,506** | 28,975 |

### (b) Wedi'i gyfuno

| | Costau Uniongyrchol | Dibrisiant | Costau Cymorth Marchnata, y Wasg a PR | Cyllid | TGCh | Adnoddau Dynol | **2019/20** | 2018/19 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | **£'000** | £'000 |
| **Gwariant ar Godi Arian** | | | | | | | | |
| Codi Rhoddion a Chymynroddion | 676 | 0 | 26 | 17 | 27 | 27 | **773** | 691 |
| Is-gwmni Masnachu | 3,151 | 31 | 0 | 0 | 0 | 0 | **3,182** | 3,143 |
| | 3,827 | 31 | 26 | 17 | 27 | 27 | **3,955** | 3,834 |
| **Gwariant ar Weithgareddau Elusennol** | | | | | | | | |
| Dysgu ac Ymgysylltu | 2,801 | 187 | 67 | 44 | 68 | 67 | **3,234** | 2,997 |
| Casgliadau ac Ymchwil | 6,059 | 877 | 189 | 124 | 193 | 190 | **7,632** | 7,808 |
| Datblygu Orielau a Phrofiad Ymwelwyr | 14,150 | 921 | 358 | 235 | 366 | 360 | **16,390** | 15,866 |
| Llywodraethu | 437 | 0 | 53 | 35 | 54 | 53 | **632** | 544 |
| | 23,447 | 1,985 | 667 | 438 | 681 | 670 | **27,888** | 27,215 |
| **Costau Cyllid Pensiwn** | 686 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **686** | 910 |
| **Cyfanswm Gwariant** | **27,960** | **2,016** | **693** | **455** | **708** | **697** | **32,529** | 31,959 |

Mae'r swm o £42,178 (£41,553 yn 2018/19) wedi'i gynnwys yn yr adnoddau a wariwyd ar daliadau archwilwyr allanol. Mae hyn yn cynnwys £36,628 (£36,628 in 2018/19) ar gyfer ffi archwilio Amgueddfa Cymru, £4,950 (£4,350 in 2018/19) ar gyfer ffi archwilio'r is-gwmni masnachu, a £600 (£575 in 2018/19) ar gyfer gwaith arall i'r is-gwmni masnachu.

Gwariwyd 68.6% o gyfanswm gwariant y flwyddyn ar gostau staff (66.7% yn 2018/19).

## 8. Costau Staff

### (a) Costau staff yn ystod y flwyddyn:

| | **2019/20** | 2018/19 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Cyflogau a Thaliadau | **16,642** | 15,520 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | **1,391** | 1,227 |
| Cost gwasanaeth cyfredol pensiwn (nodyn 17d) | **4,074** | 4,137 |
| Cyfraniad diffyg pensiwn ar gyfer y gwasanaeth blaenorol (nodyn 17d) | **0** | 218 |
| Treuliau'r cynllun pensiwn (nodyn 17d) | **380** | 410 |
| Addasiad cost gwasanaeth cyfredol Pensiwn FRS102 | **(963)** | (1,157) |
| Ardoll prentisiaeth | **64** | 60 |
| Costau Diswyddo Cynnar | **33** | 4 |
| | **21,621** | 20,419 |
| Costau Cyllid Pensiwn FRS102 (nodyn 17d) | **686** | 910 |
| | **22,307** | 21,329 |

Mae £1,559,000 sy'n ymwneud â'r is-gwmni masnachu wedi'i gynnwys o fewn y costau staff (£1,460,000 yn 2018/19).

Mae'r costau diswyddo yn cynnwys taliadau o dan ein Cynllun Dileu Swyddi a Chytundeb Diswyddo Cynnar a'n Cynllun Ymddiswyddo â Sicrwydd Cydfuddiannol.

Ni adawodd unrhyw weithiwr cyflogedig Amgueddfa Cymru yn ystod y flwyddyn o dan y Cytundeb Dileu Swyddi a Diswyddo Cynnar. Caiff taliadau statudol eu lluosi gan bedwar o dan y Cytundeb hwn. Ysgwyddwyd costau o £4,000 yn 2018/19 yn sgil ymadawiad un gweithiwr cyflogedig o dan y Cytundeb hwn, ar ddiwedd ei gontract tymor penodol.

Gadawodd dau weithiwr cyflogedig Amgueddfa Cymru o dan ein Cynllun Ymddiswyddo â Sicrwydd Cydfuddiannol yn 2019/20 (dim un yn 2018/19). Cyfrifir taliadau diswyddo o dan y cynllun hwn ar sail cyflog un mis ar gyfer pob blwyddyn gyflawn o wasanaeth parhaus, hyd at uchafswm o 12, wedi'i gapio ar £40,000.

### (b) Aelodau o'r Bwrdd Ymddiriedolwyr

Ni chafodd yr ymddiriedolwyr unrhyw enillion yn ystod 2019/20 na 2018/19, ac eithrio'r Llywydd. Ceir manylion cydnabyddiaeth ariannol y Llywydd ar dudalen 29 o'r adroddiad hwn. Cyfanswm y treuliau teithio, cynhaliaeth a llety a ad-dalwyd gennym ar ran ein Bwrdd ac aelodau'r pwyllgor oedd £8,000 (£10,000 yn 2018/19). Nid yw hyn yn cynnwys unrhyw dreuliau a ildiwyd gan ymddiriedolwyr gan nad yw hyn yn berthnasol. Ad-dalwyd treuliau i gyfanswm o 16 o ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn (13 yn 2018/19).

## 9. Cyfran o’r Fenter ar y Cyd

Rydym ni a Dinas a Sir Abertawe yn aelodau cyfartal yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau Abertawe (AGGA Cyf) (Rhif Elusen 1090512), cwmni cyfyngedig trwy warant. Prif nod AGGA Cyf yw sefydlu amgueddfa yn Abertawe i gadw ac arddangos (ymhlith pethau eraill) gasgliad diwydiannol a morwrol Amgueddfa Cymru a Dinas a Sir Abertawe er budd y cyhoedd. Pe câi AGGA Cyf ei ddirwyn i ben neu ei ddiddymu, mae ei erthyglau a’i femorandwm cymdeithasu yn nodi y caiff unrhyw eiddo sy’n eiddo i’r elusen neu sy’n cael ei freinio ynddi ei drosglwyddo i elusen neu elusennau eraill ag amcanion tebyg.

Mae ein cyfran ni o’r symudiad net mewn cronfeydd ac asedau net yn y fenter ar y cyd yn cynnwys:

| | **Cyfanswm Symudiad Net mewn Cronfeydd** | | **Cyfran Symudiad Net mewn Cronfeydd** | |
|---|---|---|---|---|
| | **2020** | 2019 | **2020** | 2019 |
| | **£'000** | £'000 | **£'000** | £'000 |
| Rhoddion a Chymynroddion | **5** | 6 | **2** | 3 |
| Incwm Arall | **0** | 0 | **0** | 0 |
| **Cyfanswm yr Adnoddau i mewn** | **5** | 6 | **2** | 3 |
| Gwariant ar weithgareddau elusennol | **216** | 216 | **108** | 108 |
| Costau Llywodraethu | **5** | 5 | **2** | 3 |
| **Cyfanswm yr adnoddau a ddefnyddiwyd** | **221** | 221 | **110** | 111 |
| **Ailbrisio Asedau Sefydlog** | **0** | 0 | **0** | 0 |
| **Symudiad Net mewn Cronfeydd** | **(216)** | (215) | **(108)** | (108) |

| | **Cyfanswm yr Asedau a'r Rhwymedigaetha** | | **Cyfran o'r Asedau a'r Rhwymedigaetha** | |
|---|---|---|---|---|
| | **2020** | 2019 | **2020** | 2019 |
| | **£'000** | £'000 | **£'000** | £'000 |
| Asedau Sefydlog | **18,248** | 18,463 | **9,124** | 9,232 |
| Asedau Cyfredol | **5** | 5 | **2** | 2 |
| Rhwymedigaethau sy'n ddyledus o fewn un flwy | **(5)** | (5) | **(2)** | (2) |
| Rhwymedigaethau sy'n ddyledus ar ôl mwy na b | **(44)** | (44) | **0** | 0 |
| **Asedau Net** | **18,204** | 18,419 | **9,124** | 9,232 |
| **Cronfeydd** | | | | |
| Cronfa Gyffredinol (anghyfyngedig) | **18,202** | 18,417 | **9,123** | 9,231 |
| Cronfa Gyfyngedig | **2** | 2 | **1** | 1 |
| | **18,204** | 18,419 | **9,124** | 9,232 |

## 10. Asedau Sefydlog Diriaethol

| (a) Amgueddfa Cymru | Tir Rhydd-ddaliad £'000 | Adeiladau Rhydd-ddaliad £'000 | Eiddo ar Les £'000 | Peiriannau a Cherbydau £'000 | Gosodiadau Ffitiadau ac Offer £'000 | Asedau sy'n Cael eu Hadeiladu £'000 | **Cyfanswm £'000** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu Brisiad** | | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2019 | 1,746 | 38,390 | 68,360 | 1,959 | 6,016 | 1,587 | **118,058** |
| Ychwanegiadau yn ystod y Flwyddyn | 0 | 37 | 0 | 177 | 364 | 3,385 | **3,963** |
| Gwarediadau | 0 | 0 | 0 | (15) | 0 | 0 | **(15)** |
| Trosglwyddiadau i/o Asedau sy'n cael eu Hadeiladu | 0 | 986 | 0 | 1,449 | 0 | (2,435) | **0** |
| Gwyrdroi amhariad | 26 | 2 | 1 | 0 | 0 | 0 | **29** |
| Ailbrisiad | 34 | 1,314 | 2,341 | 0 | 0 | 0 | **3,689** |
| **Ar 31 Mawrth 2020** | **1,806** | **40,729** | **70,702** | **3,570** | **6,380** | **2,537** | **125,724** |
| **Dibrisiant** | | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2019 | 0 | 1,749 | 1,601 | 1,209 | 3,168 | 0 | **7,727** |
| Tâl am y Flwyddyn | 0 | 605 | 532 | 319 | 529 | 0 | **1,985** |
| Gwarediadau | 0 | 0 | 0 | (15) | 0 | 0 | **(15)** |
| Ailbrisiad | 0 | 59 | 73 | 0 | 0 | 0 | **132** |
| **Ar 31 Mawrth 2020** | **0** | **2,413** | **2,206** | **1,513** | **3,697** | **0** | **9,829** |
| **Gwerth Net ar y Llyfrau** | | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2019 | 1,746 | 36,641 | 66,759 | 750 | 2,848 | 1,587 | 110,331 |
| **Ar 31 Mawrth 2020** | **1,806** | **38,316** | **68,496** | **2,057** | **2,683** | **2,537** | **115,895** |

| (b) Cyfunol | Tir Rhydd-ddaliad £'000 | Adeiladau Rhydd-ddaliad £'000 | Eiddo ar Les £'000 | Peiriannau a Cherbydau £'000 | Gosodiadau Ffitiadau ac Offer £'000 | Asedau sy'n Cael eu Hadeiladu £'000 | **Cyfanswm £'000** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu Brisiad** | | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2019 | 1,746 | 38,390 | 68,360 | 1,959 | 6,231 | 1,587 | **118,273** |
| Ychwanegiadau yn ystod y Flwyddyn | 0 | 37 | 0 | 177 | 421 | 3,385 | **4,020** |
| Gwarediadau | 0 | 0 | 0 | (15) | 0 | 0 | **(15)** |
| Trosglwyddiadau i/o Asedau sy'n cael eu Hadeiladu | 0 | 986 | 0 | 1,449 | 0 | (2,435) | **0** |
| Gwyrdroi amhariad | 26 | 2 | 1 | 0 | 0 | 0 | **29** |
| Ailbrisiad | 34 | 1,314 | 2,341 | 0 | 0 | 0 | **3,689** |
| **Ar 31 Mawrth 2020** | **1,806** | **40,729** | **70,702** | **3,570** | **6,652** | **2,537** | **125,996** |
| **Dibrisiant** | | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2019 | 0 | 1,749 | 1,601 | 1,209 | 3,316 | 0 | **7,875** |
| Tâl am y Flwyddyn | 0 | 605 | 532 | 319 | 560 | 0 | **2,016** |
| Gwarediadau | 0 | 0 | 0 | (15) | 0 | 0 | **(15)** |
| Ailbrisiad | 0 | 59 | 73 | 0 | 0 | 0 | **132** |
| **Ar 31 Mawrth 2020** | **0** | **2,413** | **2,206** | **1,513** | **3,876** | **0** | **10,008** |
| **Gwerth Net ar y Llyfrau** | | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2019 | 1,746 | 36,641 | 66,759 | 750 | 2,914 | 1,587 | 110,397 |
| **Ar 31 Mawrth 2020** | **1,806** | **38,316** | **68,496** | **2,057** | **2,776** | **2,537** | **115,988** |

Cafodd ein tir a'n hadeiladau eu prisio'n broffesiynol ar 31 Mawrth 2016 gan y Prisiwr Allanol, Andrew Gardner o Syrfewyr Siartredig Cooke and Arkwright. Roedd y prisiadau yn unol â gofynion Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig – Safonau Proffesiynol y DU, Ionawr 2014 (diwygiwyd Ebrill 2015) a Safonau Prisio Rhyngwladol 2013, a chyda'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar gyfer Elusennau (FRS102). Cafodd pob eiddo a feddiannwyd gan berchennog ei brisio ar sail Gwerth Cyfredol Defnydd sy'n Bodoli, gan dybio y byddai'r eiddo'n cael ei werthu fel rhan o fusnes parhaus. Yn y cyfamser, mae'r asedau hyn yn cael eu hailbrisio gan ddefnyddio mynegeion. Y mynegai sy'n cael ei defnyddio ar gyfer tir ac adeiladau yw All-in Tender Price Index BCIS, wedi'i amcangyfrifo gan Syrfewyr Siartredig Cooke and Arkwright. Gwerth bras y mynegai yn ystod mis Mawrth 2020 oedd 332 (321 ym mis Mawrth 2019).

## 11. Asedau Treftadaeth

### (a) Polisïau rheoli casgliadau

Casgliadau o sbesimenau yw'r rheswm dros fodolaeth amgueddfeydd, ac maent yn darparu'r gronfa ddata sylfaenol ar gyfer pob rhan o'u gwaith a'u hamcanion. Ni yw'r ystorfa genedlaethol o ddeunyddiau sy'n ymwneud â threftadaeth naturiol Cymru a'i threftadaeth wedi'i chreu a deunyddiau rhyngwladol sy'n helpu i ddiffinio lle Cymru yn y byd. Mae gennym oddeutu 5.3 miliwn o sbesimenau neu grwpiau yn ein casgliadau sydd o bwysigrwydd rhyngwladol. Rydym yn wahanol i amgueddfeydd ac orielau eraill y DU o ran amrywiaeth ein meysydd, ac o ran nifer ac amrywiaeth y safleoedd yr ydym yn eu gweithredu.

Rydym yn cadw ac yn adolygu ein polisïau ar gaffael, gwaredu, gofal a chadwraeth, dogfennu a mynediad i'r safonau rhyngwladol uchaf. Gellir gweld y polisïau hyn ar ein gwefan neu eu cael drwy gais o'n pencadlys yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NP.

### (b) Costau Rheoli Casgliadau

| | 2019/20<br>£'000 | 2018/19<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Costau Rheoli Casgliadai** | | |
| Cadwraeth | **801** | **788** |
| Casgliadau - Gwybodaeth | **260** | **244** |
| Casgliadau - Gwasanaethau | **241** | **257** |
| Casgliadau - Canolfan | **37** | **33** |
| | **1,339** | **1,322** |

Cydnabyddir y costau hyn yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol.

## (c) Crynodeb o asedau treftadaeth wedi'u cyfalafu ar y fantolen

| | Celf | Adeiladau Hanesyddol | Arall | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | **£'000** |
| Asedau a gyfrannwyd | 12,935 | 160 | 329 | **13,424** |
| Asedau a brynwyd | 9,676 | 5,696 | 1,182 | **16,554** |
| **Cyfanswm ar 31 Mawrth 2020** | **22,611** | **5,856** | **1,511** | **29,978** |

(i) Asedau Treftadaeth a gyfrannwyd yn ystod y flwyddyn:

| | Celf | Adeiladau Hanesyddol | Arall | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | **£'000** |
| *17 silver items* - Carolyn Showering | 11 | 0 | 0 | **11** |
| *Portrait de Monsieur Jules Dejouy, 1879* - Edouard Manet | 5,299 | 0 | 0 | **5,299** |
| *La Route aux Boucherons, Arleux-du-Nord, 1871* - Jean-Baptiste-Camille Corot | 150 | 0 | 0 | **150** |
| **Cyfanswm yr Ychwanegiadau yn ystod y Flwyddyn** | **5,460** | **0** | **0** | **5,460** |
| Cyfanswm ar 1 Ebrill 2019 | 7,475 | 160 | 329 | **7,964** |
| **Cyfanswm ar 31 Mawrth 2020** | **12,935** | **160** | **329** | **13,424** |

Cafodd pob prisiad o asedau a gyfrannwyd (neu a ran-gyfrannwyd) ei gynnal gan staff curadurol neu drwy gyfeirio at anfonebau/gohebiaeth derbyn 'in lieu'.

(ii) Asedau Treftadaeth a brynwyd yn ystod y flwyddyn:

| | Celf | Adeiladau Hanesyddol | Arall | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | **£'000** |
| Gwesty'r Vulcan, Caerdydd | 0 | 14 | 0 | **14** |
| *Conditioning* - Caroline Walker | 21 | 0 | 0 | **21** |
| *Welsh Miners Portfolio* - Bruce Davidson | 17 | 0 | 0 | **17** |
| *Untitled 2018, Oil on Canvas* - Simon Ling | 26 | 0 | 0 | **26** |
| *Martin Parr in Wales* - Martin Parr | 19 | 0 | 0 | **19** |
| Cerbyd Oes Efydd a'r trysorau perthynol | 0 | 0 | 45 | **45** |
| *Wye* - Thomas Jones | 125 | 0 | 0 | **125** |
| *Vertigo Sea 2015* - John Akomfrah | 50 | 0 | 0 | **50** |
| *Asymmetric 1 2016, terracotta* - Magdalene Odundo | 91 | 0 | 0 | **91** |
| **Cyfanswm yr Ychwanegiadau yn ystod y Flwyddyn** | **349** | **14** | **45** | **408** |
| Cyfanswm ar 1 Ebrill 2019 | 9,327 | 5,682 | 1,137 | **16,146** |
| **Cyfanswm ar 31 Mawrth 2020** | **9,676** | **5,696** | **1,182** | **16,554** |

(iii) Asedau treftadaeth a waredwyd ac amhariadau yn ystod y flwyddyn:

Ni chafwyd amhariadau i asedau ac ni chafod asedau eu gwaredu yn ystod y flwyddyn. Cafwyd amhariad o £73,000 ar Adeiladau Hanesyddol yn 2018/19. Nid oes amhariadau eraill ar asedau nac unrhyw warediadau asedau wedi'u cynnwys yn y fantolen yn y pum mlynedd diwethaf.

(iv) Gwariant ar gaffael sbesimenau, wedi'i gyfalafu, dros y pum mlynedd diwethaf:

| | **2019/20** | 2018/19 | 2017/18 | 2016/17 | 2015/16 |
|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Asedau a Gyfrannwyd** | | | | | |
| Celf | **5,460** | 649 | 147 | 0 | 272 |
| Adeiladau | **0** | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Arall | **0** | 0 | 0 | 0 | 185 |
| **Cyfanswm yr Asedau a Gyfrannwyd** | **5,460** | 649 | 147 | 0 | 457 |
| | | | | | |
| **Asedau a Brynwyd** | | | | | |
| Celf | **349** | 19 | 30 | 678 | 474 |
| Adeiladau | **14** | 0 | 91 | 45 | 0 |
| Arall | **45** | 60 | 0 | 0 | 13 |
| **Cyfanswm yr Asedau a Brynwyd** | **408** | 79 | 121 | 723 | 487 |
| | | | | | |
| **Cyfanswm y Sbesimenau a Gafwyd wedi'I gyfalafu** | **5,868** | 728 | 268 | 723 | 944 |

**(d) Crynodeb o'r gwariant ar gaffael sbesimenau ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol**

Y gwariant ar gaffael sbesimenau, heb ei gyfalafu, dros y pum mlynedd diwethaf:

| | **2019/20** | 2018/19 | 2017/18 | 2016/17 | 2015/16 |
|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Celf | **85** | 34 | 28 | 54 | 57 |
| Gwyddorau Naturiol | **33** | 30 | 47 | 60 | 39 |
| Diwydiant | **0** | 3 | 0 | 0 | 1 |
| Cadwraeth | **0** | 8 | 0 | 0 | 15 |
| Llyfrgell | **59** | 65 | 40 | 85 | 75 |
| Hanes | **46** | 9 | 200 | 116 | 123 |
| | **223** | 149 | 315 | 315 | 310 |

Mae'r gwariant yn cynnwys caffaeliadau sy'n werth llai na £10,000 (caffaeliadau sy'n werth llai na £5,000 cyn 2014/15), gwaith maes, ailwampio casgliadau a gwaith adnewyddu. Cydnabyddir y costau hyn yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol.

**(e) Rhagor o wybodaeth am gasgliad asedau treftadaeth Amgueddfa Cymru**

| **Mae oddeutu 5.3 miliwn o eitemau yng nghasgliadau Amgueddfa Cymru** | |
|---|---|
| Archaeoleg a Niwmismateg | 1,302,224 |
| Celf | 46,589 |
| Bioamrywiaeth | 2,472,182 |
| Daeareg | 522,417 |
| Diwydiant | 268,977 |
| Amgueddfa Wlân Cymru | 12,000 |
| Llyfrgell | 265,159 |
| Hanes Cymdeithasol a Diwylliannol | 398,540 |
| **Cyfanswm** | **5,288,088** |

(i) Archaeoleg a Niwmismateg: mae gan yr adran gasgliad o 812,724 o eitemau yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, yn ogystal â 487,500 yn Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru yng Nghaerllion. Mae archaeoleg a niwmismateg (astudiaeth o geiniogau a medalau) yn adrodd hanes ac archaeoleg Cymru ers y defnydd cyntaf o ogofâu 250,000 o flynyddoedd yn ôl tan ddechrau'r chwyldro diwydiannol.

(ii) Celf: Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yw cartref ein casgliad cenedlaethol o gelfyddyd cain a chymhwysol. Mae'r adnodd unigryw hwn yn cofnodi hanes celf yng Nghymru ers yr unfed ganrif ar bymtheg, ac mae'n gasgliad rhyngwladol o bwys o gelfyddyd Prydeinig ac Ewropeaidd, yn ogystal â gwaith o ddiwylliannau eraill.

(iii) Bioamrywiaeth: cedwir casgliad o 2,472,182 o eitemau botaneg a sŵoleg yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. Rydym yn arddangos sbesimenau yn yr orielau astudiaethau natur, neu gellir eu gweld trwy drefniant. Mae'r astudiaeth o fioamrywiaeth y Ddaear a sut mae organebau'n rhyngweithio yn hollbwysig i'n lles yn y dyfodol.

(iv) Daeareg: cedwir 522,417 o eitemau yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. Mae'r rhain yn cynnwys creigiau, mwynau a ffosilau sy'n ein helpu i ddeall hanes daearegol y Ddaear o'r cychwyn tua 4,600 miliwn o flynyddoedd yn ôl, a'r prosesau sy'n rhan o ffurfio a siapio cramen y Ddaear. Maent yn cynnwys tystiolaeth i ddangos sut yr esblygodd Cymru fel y mae heddiw dros 700 miliwn o flynyddoedd.

(v) Diwydiant: cedwir 268,977 o wrthrychau mewn casgliadau yn Amgueddfa Lechi Cymru yn Llanberis, Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru ym Mlaenafon, Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe ac yn ein Canolfan Gasgliadau Genedlaethol yn Nantgarw, lle gellir eu gweld trwy drefniant. Mae'r casgliadau yn cynnwys eitemau o'r diwydiannau glo, gweithgynhyrchu, morwrol a thrafnidiaeth. Mae cyfrifiad 1841 yn dangos mai Cymru oedd y wlad gyntaf yn y byd â chyfran uwch o'r gweithlu yn gweithio ym myd diwydiant nag amaethyddiaeth – Cymru oedd 'gwlad ddiwydiannol gynta'r byd' felly.

(vi) Amgueddfa Wlân Cymru: mae gan yr amgueddfa hon 12,000 o eitemau yn ei chasgliad, sy'n arddangos un o ddiwydiannau pwysicaf a mwyaf helaeth Cymru. Trwy ei chasgliad o wrthrychau, adeiladau rhestredig wedi'u hadfer a pheiriannau hanesyddol sy'n gweithio, mae'r amgueddfa'n dangos y broses o droi cnu yn ddeunydd.

(vii) Llyfrgell: mae'r brif lyfrgell, sydd yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, a'r llyfrgell sydd yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru, yn cynnwys 265,159 o lyfrau a chyfnodolion. Mae'n cynnwys casgliad o lyfrau prin ac argraffiadau arbennig, yn enwedig ym maes astudiaethau natur. Mae'r llyfrgell yn ffynhonnell o wybodaeth i'r staff hefyd, a gall y cyhoedd weld eitemau trwy drefniant.

(viii) Hanes cymdeithasol a diwylliannol: mae 398,540 o eitemau yn y casgliad hwn, sydd yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru. Mae'n cwmpasu bywyd y cartref, diwylliant, amaeth a masnach yng Nghymru o'r Canol Oesoedd hyd heddiw. Rydym yn dangos a dehongli'r meysydd hyn trwy gyfrwng deugain a mwy o adeiladau sydd wedi'u hailgodi ar hyd a lled y safle can erw. Mae archifau ffotograffig, ffilm a sain helaeth yn rhan o'r casgliad hefyd.

**12. Buddsoddiadau Asedau Sefydlog**

| | **Amgueddfa Cymru** | | **Wedi'u Cyfuno** | |
|---|---|---|---|---|
| | **2020** | 2019 | **2020** | 2019 |
| | **£'000** | £'000 | **£'000** | £'000 |
| Ar 1 Ebrill 2019 | **3,068** | 2,945 | **3,068** | 2,945 |
| Ychwanegiadau at fuddsoddiadau am gost | **1** | 3,333 | **1** | 3,333 |
| Gwerth marchnad gwarediadau | **(11)** | (3,374) | **(11)** | (3,374) |
| (Colled)/Enillion Net ar ailbrisio | **(425)** | 164 | **(425)** | 164 |
| Gwerth Marchnad ar 31 Mawrth 2020 | **2,633** | 3,068 | **2,633** | 3,068 |

O'r cyfanswm buddsoddiadau o £2,633,000, cedwid £2,266,000 (£2,563,000 ar 31 Mawrth 2019) mewn cronfeydd preifat cyfyngedig a £367,000 (£505,000 ar 31 Mawrth 2019) mewn cronfeydd preifat anghyfyngedig.

Cost hanesyddol buddsoddiadau ar 31 Mawrth 2020 oedd £3,006,000 (£3,020,000 ar 31 Mawrth 2019). Mae'r portffolio'n cynnwys Buddsoddiadau Cyfunol (Ymddiriedolaethau Unedol) a awdurdodwyd gan y Bwrdd Gwarantau a Buddsoddiadau (cafodd y rhain eu prisio'n broffesiynol gan Barclays, ein rheolwyr buddsoddiadau) a chyfranddaliadau (cymynroddion) wedi'u rhestru ar Gyfnewidfa Stoc Llundain.

Cadwyd y buddsoddiadau yn y dosbarthiadau canlynol o asedau:

| | **Amgueddfa Cymru** | | **Wedi'u Cyfuno** | |
|---|---|---|---|---|
| | **2020** | 2019 | **2020** | 2019 |
| | **£'000** | £'000 | **£'000** | £'000 |
| Buddsoddiadau a restrwyd yn y DU | **1,202** | 1,889 | **1,202** | 1,889 |
| Buddsoddiadau na restrwyd yn y DU | **1,424** | 1,173 | **1,424** | 1,173 |
| Arian a Blaendaliadau Arian | **7** | 6 | **7** | 6 |
| | **2,633** | 3,068 | **2,633** | 3,068 |

## 13. Stoc

| | Amgueddfa Cymru | | Wedi'u Cyfuno | |
|---|---|---|---|---|
| | **2020** | 2019 | **2020** | 2019 |
| | **£'000** | £'000 | **£'000** | £'000 |
| Nwyddau siop ar werth | **0** | 0 | **283** | 248 |
| Stoc cyhoeddiadau a gedwir ar wahân | **48** | 37 | **48** | 37 |
| Heb gynnwys: darpariaeth ar gyfer diddymu stoc | **(32)** | (28) | **(49)** | (49) |
| | **16** | 9 | **282** | 236 |

## 14. Dyledwyr

| | Amgueddfa Cymru | | Wedi'u Cyfuno | |
|---|---|---|---|---|
| | **2020** | 2019 | **2020** | 2019 |
| | **£'000** | £'000 | **£'000** | £'000 |
| Dyledwyr Masnach | **197** | 85 | **230** | 198 |
| Swm sy'n ddyledus o'r is-gwmni ması | **867** | 1,472 | **0** | 0 |
| Benthyciad sy'n ddyledus o'r is-gwmr | **301** | 301 | **0** | 0 |
| Dyledwyr eraill | **2,898** | 2,466 | **3,007** | 2,388 |
| Taliadau ymlaen llaw | **271** | 320 | **301** | 353 |
| | **4,534** | 4,644 | **3,538** | 2,939 |
| | | | | |
| Balansau gyda: | | | | |
| Cyrff y llywodraeth ganolog | **2,620** | 2,194 | **2,621** | 2,195 |
| Cyrff y GIG | **0** | 0 | **0** | 0 |
| Awdurdodau lleol | **64** | 28 | **69** | 30 |
| Is-gyfanswm balansau rhynglywodrae | **2,684** | 2,222 | **2,690** | 2,225 |
| Cyrff y tu allan i'r llywodraeth | **1,850** | 2,422 | **848** | 714 |
| Cyfanswm | **4,534** | 4,644 | **3,538** | 2,939 |

**15. Credydwyr: Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn**

| | Amgueddfa Cymru | | Wedi'u Cyfuno | |
|---|---|---|---|---|
| | **2020** | 2019 | **2020** | 2019 |
| | **£'000** | £'000 | **£'000** | £'000 |
| Benthyciadau | **249** | 1,342 | **249** | 1,342 |
| Credydwyr Masnach | **27** | 210 | **27** | 232 |
| Croniadau ac Incwm wedi'i Ohirio | **1,705** | 2,302 | **1,830** | 2,470 |
| | **1,981** | 3,854 | **2,106** | 4,044 |
| | | | | |
| Balansau gyda: | | | | |
| Cyrff y llywodraeth ganolog | **169** | 1,434 | **169** | 1,434 |
| Awdurdodau lleol | **9** | 27 | **9** | 27 |
| Is-gyfanswm balansau rhynglywodraetl | **178** | 1,461 | **178** | 1,461 |
| Cyrff y tu allan i'r llywodraeth | **1,803** | 2,393 | **1,928** | 2,583 |
| Cyfanswm | **1,981** | 3,854 | **2,106** | 4,044 |

Mae Croniadau ac Incwm Gohiriedig yn cynnwys £216,000 o incwm grant nas gwariwyd a ohiriwyd tan y flwyddyn ganlynol (£385,000 ar 31 Mawrth 2019) a £71,000 (£90,000 ar 31 Mawrth 2019) ar gyfer rhanddaliadau o daliadau premiwm am adael sy'n ddyledus mewn llai na blwyddyn.

Mae benthyciadau o £92,000 yn ddyledus mewn llai na blwyddyn i gronfa buddsoddi i arbed Llywodraeth Cymru (£1,342,000 ar 31 Mawrth 2019) ac o £157,000 (£dim ar 31 Mawrth 2019) i Salix Finance Ltd, cwmni annibynnol, a ariennir yn gyhoeddus sy'n rhoi benthyciadau i'r sector cyhoeddus ar gyfer projectau effeithlonrwydd ynni.

**16. Credydwyr: Symiau sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn**

| | Amgueddfa Cymru | | Wedi'u Cyfuno | |
|---|---|---|---|---|
| | **2020** | 2019 | **2020** | 2019 |
| | **£'000** | £'000 | **£'000** | £'000 |
| Benthyciadau | **1,208** | 433 | **1,208** | 433 |
| Croniadau ac Incwm wedi'i Ohirio | **0** | 67 | **0** | 67 |
| Cyfanswm | **1,208** | 500 | **1,208** | 500 |

Mae benthyciadau o £341,000 yn ddyledus i gronfa Buddsoddi i Arbed Llywodraeth Cymru (£433,000 ar 31 Mawrth 2019), sydd angen eu had-dalu o fewn rhwng dwy a phum mlynedd. Mae benthyciadau'n ddyledus i Salix Finance Ltd o £710,000 (£dim ar 31 Mawrth 2019) sy'n ad-daladwy o fewn rhwng dwy a phum mlynedd, ac o £157,000 (£dim ar 31 Mawrth 2019) yn ad-daladwy mewn mwy na 5 mlynedd.

Mae Croniadau ac Incwm Gohiriedig yn cynnwys £dim (£67,000 ar 31 Mawrth 2019) ar gyfer rhandaliadau o daliadau premiwm am adael sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn.

## 17. Pensiynau

Mae gennym gynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio yn y DU, sydd wedi'i warantu gan Warant y Goron a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Cyflawnwyd prisiad actiwaraidd llawn ar 31 Mawrth 2018. Cafodd hwn ei ddiweddaru ar 31 Mawrth 2020 gan actwari annibynnol cymwys gan ddefnyddio canllawiau a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi.

Roedd y prisiad FRS102 ar 31 Mawrth 2020 yn dangos gostyngiad yn y diffyg o £25,537,000 i £69,237,000.

£4,164,000 oedd ein cyfraniad ni at y cynllun yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2020 (£3,957,000 hyd at 31 Mawrth 2019). Mae hyn yn cynnwys cyfraniadau ar gyfradd o 21.3% o'r Tâl Pensiynadwy, a chyflog a ildiwyd gan aelodau dan drefniadau aberthu cyflog, yr ydym yn ei dalu i'r cynllun.

Rydym yn disgwyl cyfrannu £4,294,000 at y Cynllun yn 2020/21. Cyfanswm y tâl a ragwelir i'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol yn 2020/21 yw £7,163, 000, a'r diffyg a ragwelir ar 31 Mawrth 2021 yw £72,106.

**(a) Symiau yn y fantolen:**

| | **2020** | 2019 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Gwerth teg asedau | **126,755** | 136,030 |
| Rhwymedigaeth buddion wedi'i diffinio | **(195,992)** | (161,567) |
| **(Diffyg)** | **(69,237)** | (25,537) |

**(b) Dadansoddiad o newidiadau yng ngwerth teg asedau:**

| | **2020** | 2019 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Gwerth teg agoriadol asedau | **136,030** | 128,815 |
| Incwm llog | **3,948** | 3,282 |
| Cyfraniadau'r cyflogwr | **4,164** | 3,957 |
| Cyfraniadau'r aelodau | **372** | 335 |
| Treuliau'r cynllun | **(380)** | (410) |
| (Colledion)/enillion profiad actiwaraidd | **(13,425)** | 4,141 |
| Budidon a dalwyd | **(3,954)** | (4,090) |
| **Gwerth teg terfynol asedau** | **126,755** | 136,030 |

**(c) Dadansoddiad o newidiadau yng ngwerth presennol rhwymedigaethau buddion diffiniedig:**

| | **2020** | 2019 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Rhwymedigaeth agoriadol buddion wedi'i diffinio | **161,567** | 166,256 |
| Cost y gwasanaeth cyfredol | **4,074** | 4,137 |
| Cost y gwasanaeth blaenorol | **0** | 218 |
| Cyfraniadau'r aelodau | **372** | 335 |
| Cost llog | **4,634** | 4,192 |
| (Colledion)/enillion profiad actiwaraidd | **29,299** | (9,481) |
| Buddion a dalwyd | **(3,954)** | (4,090) |
| **Rhwymedigaeth derfynol buddion wedi'i diffinio** | **195,992** | 161,567 |

**(d) Enillion/(Colledion) actiwaraidd a godwyd ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol**

| | **2020** | 2019 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| (Colledion)/enillion profiad actiwaraidd - gwerth teg asedau (nodyn 17b) | **(13,425)** | 4,141 |
| (Colledion)/enillion actiwaraidd - gwerth presennol y rhwymedigaethau (nodyn 17c) | **(29,299)** | 9,481 |
| **(Colledion)/enillion actiwaraidd** | **(42,724)** | 13,622 |

**(e) Symiau a godwyd ar adnoddau a wariwyd:**

| | **2020** | | 2019 | |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | £'000 | £'000 |
| Cost y gwasanaeth cyfredol | **4,074** | | 4,137 | |
| Cost y gwasanaeth blaenorol | **0** | | 218 | |
| Treuliau'r cynllun | **380** | | 410 | |
| | | **4,454** | | 4,765 |
| Incwm llog | **(3,948)** | | (3,282) | |
| Cost llog | **4,634** | | 4,192 | |
| | | **686** | | 910 |
| **Cyfanswm tâl yr adnoddau a ddefnyddiwyd** | | **5,140** | | 5,675 |

Mae'r symiau uchod a godwyd ar adnoddau a wariwyd wedi'u cynnwys mewn costau staff, a ddangosir yn nodyn 8a i'r cyfrifon hyn.

**(f) Prif gategorïau asedau'r cynllun fel canran o gyfanswm asedau'r cynllun:**

| | **2020** | 2019 |
|---|---|---|
| Ecwiti | **36.3%** | 39.3% |
| LDI | **24.5%** | 26.1% |
| Aml-ased | **26.4%** | 20.0% |
| Eraill | **12.8%** | 14.6% |

**(g) Prif dybiaethau actiwaraidd:**

| | **2020** | 2019 |
|---|---|---|
| Cyfradd gostyngiad | **1.80%** | 2.90% |
| Chwyddiant- RPI | **3.35%** | 3.60% |
| Chwyddiant- CPI | **2.35%** | 2.60% |
| Ailbrisiad CARE | **2.35%** | 2.60% |
| Cynnydd taliadau pensiwn - cyn 2000 | **3.35%** | 3.60% |
| Cynnydd taliadau pensiwn - ar ôl 2000, cyn 2016 | **2.35%** | 2.60% |
| Cynnydd taliadau pensiwn - ar ôl 2016 | **2.05%** | 2.15% |
| Cynnydd pensiwn gohiriedig | **2.35%** | 2.60% |
| | | |
| Rhagdybiad disgwyliad oes cyfredol 65 oed | | |
| Dynion | **86.7** | 86.6 |
| Menywod | **89.0** | 88.9 |
| Rhagdybiad disgwyliad oes cyfredol 45 oed | | |
| Dynion | **87.7** | 87.6 |
| Menywod | **90.2** | 90.0 |

**(h) Dadansoddi sensitifrwydd – y newid mewn rhwymedigaethau buddion diffiniedig ar 31 Mawrth 2020:**

| | |
|---|---|
| Cynnydd/gostyngiad mewn cyfradd disgownt o 50 bps | -9%/+11% |
| Cynnydd/gostyngiad yn y gyfradd llog dybiedig o 50 bps | +10%/-9% |

## 18. Datganiad Cronfeydd

| **(a) Symudiadau yn y Cronfeydd** | 1 Ebrill 2019 £'000 | Adnoddau i mewn £'000 | Adnoddau ddefnyddiwyd £'000 | Symudiadau Eraill yn ystod y Flwyddyn £'000 | Trosglwyddiad rhwng y Cronfeydd £'000 | **31 Mawrth 2020 £'000** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cronfeydd Cyhoeddus** | | | | | | |
| Cyfyngedig - Incwm Cyfalaf | 98,053 | 1,572 | (1,601) | (108) | 2,500 | **100,416** |
| Cyfyngedig - Incwm Sbesimenau | 14,263 | 554 | (138) | 0 | 0 | **14,679** |
| Cyfyngedig - Ailbrisio | 19,078 | 0 | 0 | 3,483 | 0 | **22,561** |
| Cyfanswm Cyfyngedig | 131,394 | 2,126 | (1,739) | 3,375 | 2,500 | **137,656** |
| | | | | | | |
| Anghyfyngedig - Incwm | 8,642 | 29,482 | (29,433) | 0 | 0 | **8,691** |
| Anghyfyngedig - Ailbrisio | 65 | 0 | 0 | 23 | 0 | **88** |
| Cronfa Bensiwn | (25,537) | 0 | (976) | (42,724) | 0 | **(69,237)** |
| Cyfanswm Anghyfyngedig | (16,830) | 29,482 | (30,409) | (42,701) | 0 | **(60,458)** |
| | | | | | | |
| **Cyfanswm y Cronfeydd Cyhoeddus** | **114,564** | **31,608** | **(32,148)** | **(39,326)** | **2,500** | **77,198** |
| | | | | | | |
| **Cronfeydd Preifat** | | | | | | |
| Cyfyngedig - Incwm | 14,636 | 5,960 | (269) | (290) | (2,500) | **17,537** |
| Cyfyngedig - Ailbrisio | 277 | 0 | 0 | 39 | 0 | **316** |
| Anghyfyngedig - Incwm | 2,466 | 774 | (112) | (135) | 0 | **2,993** |
| Anghyfyngedig - Ailbrisio | 80 | 0 | 0 | 12 | 0 | **92** |
| **Cyfanswm y Cronfeydd Preifat** | **17,459** | **6,734** | **(381)** | **(374)** | **(2,500)** | **20,938** |
| | | | | | | |
| **Cyfanswm** | **132,023** | **38,342** | **(32,529)** | **(39,700)** | **0** | **98,136** |

£98,023,000 oedd swm y cronfeydd a gofnodwyd yn ein cyfrifon anghyfunol ein hunain ar 31 Mawrth 2020, a Mentrau AOCC Cyf oedd yn gyfrifol am £113,000 o hwn.

Mae’r cronfeydd cyfyngedig preifat yn cynnwys dau falans cronfa mawr, sef Cronfa Project Ailddatblygu Sain Ffagan a Chronfa’r Adran Gelf.

£23,057,000 oedd cyfanswm y cronfeydd ailbrisio ar 31 Mawrth 2020. Mae’r rhain yn cynrychioli enillion/colledion cronedig drwy ailbrisio asedau sefydlog yn deillio o 1 Ebrill 2011 ymlaen.

| **(b) Dadansoddiad o Asedau Net rhwng Cronfeydd** | Cronfeydd Cyhoeddus | | Cronfeydd Preifat | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfyngedig | Anghyfyngedig | Cyfyngedig | Anghyfyngedig | **2020** |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | **£'000** |
| Asedau Sefydlog | 138,708 | 3,756 | 14,573 | 686 | **157,723** |
| Asedau Cyfredol | 776 | 6,509 | 3,280 | 2,399 | **12,964** |
| Rhwymedigaethau Cyfredol | (961) | (1,145) | 0 | 0 | **(2,106)** |
| Rhwymedigaethau Hirdymor | (867) | (341) | 0 | 0 | **(1,208)** |
| **Asedau Net (cyn rhwymedigaethau pensiwn)** | **137,656** | **8,779** | **17,853** | **3,085** | **167,373** |
| Rhwymedigaethau Pensiwn | 0 | (69,237) | 0 | 0 | **(69,237)** |
| **Asedau Net (ar ôl rhwymedigaethau pensiwn)** | **137,656** | **(60,458)** | **17,853** | **3,085** | **98,136** |

## 19. Cysoni’r Incwm/Gwariant Net i’r Llif Arian Net o Weithgareddau Gweithredu

| | **Amgueddfa Cymru** | | **Wedi'u cyfuno** | |
|---|---|---|---|---|
| | **2019/20** | 2018/19 | **2019/20** | 2018/19 |
| | **£'000** | £'000 | **£'000** | £'000 |
| Incwm/Gwariant Net | **5,280** | 35 | **5,280** | 26 |
| Cyfran o'r Fenter ar y cyd | **108** | 108 | **108** | 108 |
| (Enillion)/Colledion heb eu gwireddu ar fuddsoddiadau gwerth marchnad | **425** | (164) | **425** | (164) |
| Asedau a gyfrannwyd | **(5,460)** | (649) | **(5,460)** | (649) |
| Dibrisiant | **1,985** | 1,739 | **2,016** | 1,768 |
| Amhariad ar Ased Sefydlog | **(29)** | 59 | **(29)** | 59 |
| (Cynnydd)/Gostyngiad mewn Stociau | **(7)** | 5 | **(46)** | (6) |
| (Cynnydd)/Gostyngiad mewn Dyledwyr | **90** | (726) | **(599)** | 116 |
| Cynnydd/(Gostyngiad) mewn Credydwyr | **(350)** | (138) | **(418)** | (110) |
| Symudiad darpariaethau | **0** | (569) | **0** | (569) |
| Costau pensiwn FRS102 y flwyddyn gyfredol | **976** | 1,718 | **976** | 1,718 |
| **Mewnlif Arian Net o'r Gweithgareddau Gweithredu** | **3,018** | 1,418 | **2,253** | 2,297 |

## 20. Dadansoddiad o Arian Parod a Symiau Cyfwerth ag Arian Parod

| | **Amgueddfa Cymru** | | **Wedi'u cyfuno** | |
|---|---|---|---|---|
| | **2019/20** | 2018/19 | **2019/20** | 2018/19 |
| | **£'000** | £'000 | **£'000** | £'000 |
| Arian mewn llaw | **7,471** | 9,637 | **8,345** | 11,331 |
| Adneuon rhybudd byrdymor | **799** | 791 | **799** | 791 |
| **Cyfanswm yr arian parod a'r symiau cyfwerth ag arian parod** | **8,270** | 10,428 | **9,144** | 12,122 |

**21. Ymrwymiadau Cyfalaf**

| | 2020 | 2019 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Ar ddyddiad llunio'r fantolen roedd ymrwymiadau cyfalaf o | **1,141** | 1,071 |

Roedd y prif ymrwymiadau ar 31 Mawrth 2020 yn ymwneud â'r rhaglen gwaith cynnal a chadw ôl-gronnus hanfodol, gan gynnwys £657,000 at waith ar do Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. Roedd y prif ymrwymiadau ar 31 Mawrth 2019 hefyd yn ymwneud â'r rhaglen gwaith cynnal a chadw ôl-gronnus hanfodol, gan gynnwys gwaith ar do Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru, ac amnewid lleithyddion ac oerwyr yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd.

**22. Gwarantau ac Atebolrwydd Amodol**

Ar 31 Mawrth 2020, roedd dau hawliad yn ein herbyn yn ymwneud ag anaf personol a ddigwyddodd yn honedig yn ein hamgueddfeydd. Rydym yn rhag-weld y bydd ein hyswiriant yn talu am unrhyw atebolrwydd, a amcangyfrifir ar £25,000 ar hyn o bryd.

Pe bai Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru'n cau, mae gwarant i ddiogelu siafft y pwll a'r cyffiniau. Mae datgomisiynu yn debygol o gostio tua £1 miliwn ac mae'r swm wedi ei danysgrifennu gan Lywodraeth Cymru.

**23. Trafodiadau Partïon Cysylltiedig**

Rydym yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Felly, ystyrir bod Llywodraeth Cymru yn barti cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn, cawsom gyllid gan Lywodraeth Cymru ar ffurf cymorth grant, a grant arall y cyfeirir ato yn nodyn 3 i'r cyfrifon. Cawsom £40,939 hefyd mewn perthynas â gweithgareddau gwasanaeth gan Lywodraeth Cymru, a gwnaethom daliadau o £6,250 iddyn nhw. Cyfeirir at falansau sy'n ddyledus gyda Llywodraeth Cymru, gan gynnwys benthyciadau, yn nodiadau 14, 15 ac 16 i'r cyfrifon.

Gwnaethom y taliadau canlynol i bartïon cysylltiedig eraill yn ystod 2019/20. Oni nodir yn wahanol, nid oedd unrhyw falansau heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn.

- £42,695 i Brifysgol Caerdydd. Mae Dr Carol Bell, Is-Lywydd yr Amgueddfa, yn aelod o Gyngor Prifysgol Caerdydd. Cawsom hefyd incwm o £4,677 y mae £412 ohono (heb gynnwys TAW) wedi'i gynnwys fel dyledwr ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Cafodd ein his-gwmni masnachu, Mentrau AOCC Cyf, incwm o £5,722 yn ystod y flwyddyn, y cafodd £3,399 ohono ei ordalu gan Brifysgol Caerdydd ar ddiwedd y flwyddyn ac sydd wedi'i gynnwys fel credydwr.

- £3,077 i Prysg Cyf. Mae chwaer Glenda Jones, Ymddiriedolwr, yn un o gyfarwyddwyr Prysg Cyf.

- Roedd Michael Prior, Ymddiriedolwr, yn aelod o fwrdd St John's College Limited tan 16 Gorffennaf 2019. Derbyniodd ein his-gwmni masnachu, Mentrau AOCC Cyf, incwm o £320 yn ystod y flwyddyn.

- £1,400 i Ŵyl Hanes Cymru i Blant. Mae Carys Howell, Ymddiriedolwr, a Rheon Tomos, Aelod Annibynnol Allanol o'r Pwyllgor Archwilio, yn gyfarwyddwyr Gŵyl Hanes Cymru i Blant.

- Mae Rob Humphreys, Ymddiriedolwr, yn ymddiriedolwr ac yn aelod o Fwrdd y Cyngor Prydeinig. Cawsom incwm o £62, a chafodd ein his-gwmni masnachu Mentrau AOCC Cyf, incwm o £333 yn ystod y flwyddyn.

- £988 i Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Mae Dr Madeleine Havard, Ymddiriedolwr, yn aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, ac roedd Gwyneth Hayward, Ymddiriedolwr, yn aelod tan fis Mehefin 2019.

- £9,954 i Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed. Mae Hywel John, Ymddiriedolwr, yn un o Ymddiriedolwyr Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed.

- £224 i Cardiff International Airport Ltd. Roedd Roger Lewis, Llywydd, yn un o Gyfarwyddwyr Cardiff International Airport Ltd tan fis Mehefin 2020.

- Mae'r Farwnes Kay Andrews, Ymddiriedolwr, yn un o ymddiriedolwyr Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol. Nodir grantiau a dderbyniwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yn nodyn 3 i'r cyfrifon.

Cawsom gyfanswm o £15,640 mewn rhoddion gan yr ymddiriedolwyr (£1,560 yn 2018/19).

Yn ystod y flwyddyn, gwasanaethodd Hywel John, Trysorydd, Glenda Jones, Ymddiriedolwr, a Carys Howell, Ymddiriedolwr, fel cyfarwyddwyr AGGA Cyf a chyfeirir at hyn yn nodyn 9 i'r cyfrifon. Ni chafodd yr un o'r cyfarwyddwr gydnabyddiaeth gan y cwmni hwn.

## 24. Offerynnau Ariannol

Nid oes gan Amgueddfa Cymru unrhyw fenthyciadau ac eithrio benthyciadau di-log o Gronfa Buddsoddi i Arbed Llywodraeth Cymru a chan Salix Finance Ltd, cwmni annibynnol, a ariennir yn gyhoeddus sy'n rhoi benthyciadau i'r sector cyhoeddus ar gyfer projectau effeithlonrwydd ynni. Rydym yn dibynnu'n bennaf ar gymorth grant Llywodraeth Cymru a dderbynnir yn fisol ar gyfer ein gofynion arian parod, sy'n cyfyngu ein risg hylifedd. Yn 2019/20, deilliodd £24.8m neu 64.8% o'n hincwm cyfunol o Lywodraeth Cymru (£23.9m neu 74.9% yn 2018/19). Mae'r balans, sef £13.5 miliwn neu 35.2% (£8.0 miliwn neu 25.1% yn 2018/19) yn deillio o grantiau gan gyrff eraill, gweithgareddau masnachu a chreu incwm, rhoddion, a buddsoddiadau.

Mae'n holl asedau a'n rhwymedigaethau mewn sterling ac felly nid ydym yn agored i risg arian. Rydym yn lleihau'r posibilrwydd o fod yn agored i risg y farchnad drwy amrywio'n portffolio buddsoddiadau, a reolir gan Barclays, yn unol â'r lefel o risg a'r amcanion buddsoddi a osodir gennym.

## 25. Digwyddiadau ar ôl y Fantolen

Cafodd y datganiadau ariannol hyn eu hawdurdodi gan y Swyddog Cyfrifyddu i'w cyhoeddi ar 9 Hydref 2020. Ni chafwyd unrhyw ddigwyddiadau ar ôl y fantolen